



Diwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd - Dogfen Ymgynghori

Cyflwynwyd i'r Llywodraeth

gan y Gweinidog dros Fenywod ac Anghydraddoldebau
drwy Orchymyn ei Mawrhydi

Gorffennaf 2018

Cm 9650



© hawlfraint Crown 2018

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Ble nodwyd unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti gennym bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn i ni yn

LGBT Policy Team
Government Equalities Office
Sanctuary Buildings
Great Smith Street
London
SW1P 3BT

ISBN 978-1-78655-666-0

07/18

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan y Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Diwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd: Dogfen Ymgynghori

Rhagair y Gweinidog	2
Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn	4
Terminoleg	7
Crynodeb Gweithredol.....	10
Cyflwyniad	15
Sut mae'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn gweithio?	17
Pam fod angen diweddaru'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd?	21
Deddf Cydnabod Rhywedd 2004: Cwestiynau ar ddiwygio	29
Y Gofynion Tystiolaeth ar gyfer Cydnabod Rhywedd yn Gyfreithlon	31
Priodas a Phartneriaeth Sifil	36
Cost Cydnabod Rhywedd Cyfreithlon	38
Preifatrwydd a Datgelu Gwybodaeth	40
Effaith y broses gyfredol ar y rhai sydd â Nodweddion Gwarchodedig	42
Cydnabod Rhywedd: Ystyriaethau Ehangach	44
Cydnabod Rhywedd a Deddf Cydraddoldeb 2010.....	44
Cydnabod Rhywedd a Gwasanaethau Cyhoeddus eraill.....	53
Hunaniaethau Rhywedd Anneuaidd	54
Yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Awdurdodau y tu hwnt i'r DU	61
Casgliad	63
Atodiadau	65
Atodiad A: Ffurflen wybodaeth i ymatebwr	65
Atodiad B: Cwestiynau'r Ymgynghoriad.....	67
Atodiad C: Deddf Cydraddoldeb 2010 - rhestr o ddisgwyliadau	75
Atodiad D: Sut mae'r system cydnabod rhywedd cyfreithiol yn gweithio?	79

Rhagair y Gweinidog

Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i wneud y Deyrnas Unedig yn wlad sy'n gweithio i bawb. Rydym eisiau cael gwared ar y rhwystrau sy'n dal pobl yn ôl, i greu cyfleoedd cyfartal ar gyfer pobl i fynd mor bell y gall eu talent fynd â nhw. Yn y blynyddoedd diweddar, rydym wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl drawsryweddol yn eu hwynebu o fewn y DU. Rydym wedi cyflwyno prosiect £3 miliwn i helpu i fynd i'r afael â bwlio trawsffobig mewn ysgolion; rydym wedi rhoi mwy o arian i Wasanaethau Hunaniaeth Ryweddol y GIG; ac rydym wedi cynnal un o'r arolygon cenedlaethol mwyaf erioed o bobl LGBT yn y byd, gan dderbyn dros 14,000 o ymatebion gan bobl draws ac anneauaid.

Mae'r arolwg, fodd bynnag, wedi dangos i ni fod yna fwy i'w wneud. Mae pobl draws yn parhau i wynebu rhwystrau sylweddol wrth gymryd rhan lawn ym mywyd cyhoeddus. Mae nifer y troseddau casineb ar gynnydd. Mae cyfraddau hunan-niweidio a hunanladdiad, yn enwedig ymysg pobl ifanc draws yn achos pryder difrifol. Mae pobl draws yn parhau i wynebu gwahaniaethu a stigma, mewn cyflogaeth ac yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.

Un gwasanaeth cyhoeddus yr ydym yn gwybod bod pobl draws yn bryderus yn ei gylch yw'r broses gyfreithiol ar gyfer newid rhywedd fel y'i nodir yn Neddf Cydnabod Rhywedd 2004. Mae'r Ddeddf hon yn caniatáu i unigolion gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd, gan alluogi iddynt gael hawliau cyfreithiol y rhywedd y maent yn uniaethu ag o, a thystysgrif geni newydd yn eu rhywedd datganedig. Dywedodd llawer o ymatebwyr traws i'n harolwg LGBT eu bod yn gweld y system bresennol yn ymwithiol, costus, iselhaol ac yn drwm o ran gwaith papur. Er bod llawer o bobl draws eisiau cydnabyddiaeth gyfreithiol, ychydig iawn sy'n llwyddo. Mae'r system bresennol yn atal gormod o bobl draws rhag cael cydnabyddiaeth gyfreithiol o bwy ydynt, gan eu hamddifadu o'r urddas a'r parch sydd ynghlwm â hynny. Yn aml, mae'n gadael pobl draws yn y sefyllfa anodd o fyw mewn un rhywedd, ac yn dal ffurflenni hunaniaeth a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, cardiau credyd, trwydded yrru a dogfennau eraill mewn un rhywedd, ond tystysgrif geni a statws cyfreithiol mewn rhywedd arall.

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw cael eich barn ar sut y gall y Llywodraeth ei gwneud hi'n haws i bobl draws gael cydnabyddiaeth gyfreithiol. Mae rhai gwledydd eraill o amgylch y byd wedi cyflawni hyn drwy gael gwared ar yr angen am ddiagnosis meddygol a symleiddio rhannau eraill o'r broses. Dyma un opsiwn y mae'r Llywodraeth yn dymuno gofyn barn amdano, ond nid oes unrhyw benderfyniadau pendant am y dull terfynol wedi cael eu gwneud. Mae'r broses cydnabyddiaeth gyfreithiol yn broses ar wahân i'r llwybr y mae pobl draws yn ei ddilyn i sicrhau triniaeth feddygol y maent efallai'n dymuno ei chael, megis hormonau neu lawdriniaeth. Mae'r cwestiynau ynghylch cael gwared ar yr angen am ddiagnosis meddygol yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn mewn perthynas â'r broses cydnabyddiaeth gyfreithiol yn unig.

Rydym hefyd eisiau nodi'n glir mai ymgynghoriad archwiliol yw hwn ac nad oes gennym yr holl atebion. Dyna pam, wrth i ni ymgynghori, ein bod yn ystyriol o'r angen i ymgysylltu â'r holl gyfranogwyr. Rydym eisiau clywed yn benodol gan

grwpiau merched yr ydym yn gwybod eu bod wedi mynegi rhai pryderon ynglŷn â goblygiadau ein cynigion. I fod yn glir - mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y Ddeddf Cydnabod Rhywedd; nid ydym yn bwriadu diwygio Deddf Cydraddoleb 2010 a'r amddiffyniadau oddi mewn iddi. Rydym yn sylweddoli, fodd bynnag, fod yna bryderon fod y ddwy Ddeddf yn cyd-gyffwrdd ac rydym eisiau defnyddio'r ymgynghoriad hwn fel ffordd o gasglu barn am hyn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynrychioli cam pwysig yng ngwaith y Llywodraeth hon i wella cydraddoldeb ar gyfer pobl LGBT. Cyn yr ymgynghoriad hwn, roeddem yn falch o gyhoeddi Cynllun Gweithredu LGBT sy'n amlinellu'r camau pellach yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau LGBT, a llawer o'r materion eraill a godwyd yn yr arolwg LGBT. Dyma ran bwysig arall o'n gwaith o fewn y Llywodraeth i gael gwared ar unrhyw rwystrau a all atal pobl LGBT rhag byw bywydau llawn, hapus fel aelodau o gymdeithas a werthfawrogir.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich barn.

Y Gwir Anrhydeddus Penny Mordaunt AS

Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol a Gweinidog dros Ferched a Chydraddoldeb

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Pwnc

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn ar sut orau i ddiwygio'r broses o newid rhywedd unigolyn yn gyfreithiol. Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004. Nid ydym yn cynnig unrhyw welliannau i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ystyried y cwestiwn pa un a yw pobl draws yn bodoli, pa un a oes ganddynt yr hawl i newid eu rhywedd yn gyfreithiol, neu pa un a yw'n iawn i berson o unrhyw oed uniaethu â rhywedd arall, neu ddim o gwbl. Mae pobl draws ac anneauaid yn aelodau o'n cymdeithas a dylent gael eu trin â pharch. Mae gan bobl draws eisoes yr hawl i newid eu rhywedd yn gyfreithiol, ac nid oes unrhyw awgrym y bydd yr hawl hon yn cael ei dileu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn yn syml sut orau y gall y Llywodraeth wneud y system bresennol o dan y Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn wasanaeth gwell i'r bobl draws ac anneauaid hynny sy'n dymuno ei ddefnyddio.

Cwmpas daearyddol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r system cydnabod rhywedd gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr yn unig, er hyn ystyrir goblygiadau'r newid i'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Cynhaliodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad ei hun ar Ddeddf Cydnabod Rhywedd, a ddaeth i ben yn gynharach eleni.

Asesiad o'r effaith

Yn unol â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, fel y'i nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, mae Dadansoddiad Cydraddoldeb cychwynnol wedi cael ei gynhyrchu ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Bydd asesiad o gost a budd llawn, ynghyd â phroffion perthnasol eraill yn cael eu cynnal unwaith y bydd y Llywodraeth yn penderfynu ar y camau i'w cymryd, yn dilyn y canlyniadau o'r ymgynghoriad hwn. Bydd yr asesiad o'r effaith hwn yn cael ei gyhoeddi pan gyhoeddir ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn.

Cynulleidfa

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i bawb. Byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan:

- Aelodau o'r cyhoedd - yn enwedig y rhai hynny sydd wedi defnyddio, neu sydd wedi ystyried defnyddio, y darpariaethau presennol yn Neddf Cydnabod Rhywedd 2004;
- Unigolion sydd â hunaniaeth drawsryweddol a/neu anneauaid, a'u partneriaid, priod neu rieni;
- Sefydliadau sy'n gweithio â phobl draws ac o fewn y sector LGBT ehangach;
- Sefydliadau sy'n gweithio i gefnogi unigolion o rywedd penodol - megis grwpiau merched sy'n darparu cefnogaeth i ddioddefwyr trais neu ymosodiadau rhywiol;

- Sefydliadau a phobl grefyddol gyda chredoau crefyddol; ac,
- Ymarferwyr meddygol - yn enwedig y rhai hynny sydd ar hyn o bryd yn darparu, neu sydd wedi darparu, adroddiadau meddygol fel rhan o'r broses cydnabod rhywedd;
- Gweithwyr proffesiynol sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Adran 22, Deddf Cydnabod Rhywedd 2004, a busnesau y byddant efallai angen cyfeirio atynt.

Hyd

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn am 16 wythnos a bydd yn dod i ben ar 19 Hydref 2018.

Manylion cyswllt

Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn:

- Gallwch gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein.
- Gallwch e-bostio eich ymatebion i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn at: GRA.consultation@geo.gov.uk
- Gallwch ysgrifennu at Swyddfa Gydraddoldeb y Llywodraeth:
Ymgynghoriad Deddf Cydnabod Rhywedd
Government Equalities Office - 6th Floor Sanctuary Buildings
20 Great Smith Street, London
SW1P 3BT

Gallwch hefyd ofyn am gopiâu caled a fersiynau hawdd eu darllen drwy e-bostio GRA.consultation@geo.gov.uk

Dywedwch wrthym os ydych yn ymateb fel unigolyn neu pa un a ydych yn cynrychioli barn sefydliad.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad dywedwch wrthym pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli, maint y sefydliad, ac, lle bo'n bosibl, sut y casglwyd barn yr aelodau.

Preifatrwydd, datgelu gwybodaeth a diogelu data

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu trin yn unol ag adran 22 o'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd. Mae hyn yn diogelu preifatrwydd person sydd wedi gwneud cais am a/neu wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd drwy ei wneud yn dramgwydd troseddol i ddatgelu gwybodaeth a gasglwyd yn swyddogol am hanes rhywedd person neu am ei gais i'r Panel, oni bad bod eithriad penodol yn berthnasol.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Bydd Swyddfa Gydraddoldeb y Llywodraeth yn prosesu'ch data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, ac yn y rhan fwyaf o'r achosion golyga hyn na ddatgelir eich data personol i drydydd parti. Ni olyga hynny, wrth gwrs, y byddwn yn datgelu unrhyw wybodaeth a ddiogelir o dan Adran 22 o Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004.

Efallai y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ymatebion a dderbyniwyd gan sefydliadau. Os ydych eisiau i'r holl ymateb, neu ran o'r ymateb, gael ei drin yn gyfrinachol, eglurwch pam eich bod yn ei ystyried yn gyfrinachol. Os derbynnir cais i ddatgelu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych, byddwn yn ystyried eich eglurhad dros pam eich bod o'r farn ei bod yn gyfrinachol, ond ni ellir rhoi sicrwydd y cynhelir y cyfrinachedd hwnnw. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn ymrwmo'r Adran.

Camau nesaf

Ar ôl i'r ymgynghoriad gau, dadansoddir yr ymatebion. Bydd y Llywodraeth yna'n cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r ymatebion, gan gyflwyno ein dadansoddiad o'r hyn maent yn ei olygu ac yn nodi pa gamau mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad.

Terminoleg

Gwyddom fod y termau a ddefnyddir mewn perthynas â hunaniaeth ryweddol yn gallu bod yn gymhleth ac anghyfarwydd. Gwyddom y gellir dadlau ynghylch defnyddio rhai geiriau penodol. Rydym hefyd yn ymwybodol fod rhai geiriau a ddefnyddir mewn deddfwriaeth oherwydd eu hystyr cyfreithiol penodol, megis 'trawsrywiol', wedi dyddio. Drwy'r ymgynghoriad hwn rydym wedi ceisio defnyddio terminoleg a dderbynir yn gyffredinol. Ni fwriedir unrhyw dramgwydd neu anwaith.

Defnyddir y termau canlynol:

Rhywedd caffaeledig: Mae Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 yn disgrifio hyn fel y rhywedd y mae'r ymgeisydd yn byw ac yn ceisio cydnabyddiaeth gyfreithiol ynddo. Mae'n wahanol i'r rhyw a gofnodwyd ar enedigaeth ac yn golygu'n hytrach y rhywedd y mae'r person yn uniaethu ag ef. Gall fod yn ddyn neu'n ddynes. Er bod rhai pobl yn ffafrio defnyddio rhywedd 'profedig' neu 'benodedig' yn hytrach na rhywedd caffaeledig, defnyddir 'caffaeledig' yn y ddogfen hon o ganlyniad i'w ddefnydd penodol yn y Ddeddf Cydnabod Rhywedd.

Deddf Cydraddoldeb 2010: Deddf Seneddol a ddaeth ag ystod eang o hen gyfreithiau gwahaniaethu at ei gilydd ac a gyflwynodd sawl darpariaeth newydd i gryfhau cyfraith cydraddoldeb ymhellach. Ymysg pethau eraill mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw priodol i ystyriaethau cydraddoldeb wrth ddatblygu polisi ac mae'n amlinellu nifer o 'nodweddion gwarchodedig' ac yn gwahardd gwahaniaethu ar sail y nodweddion hyn. Mae un o'r rhain, 'ailbennu rhywedd', yn effeithio ar bobl draws.

Tystysgrif Cydnabod Rhywedd Lawn: Yn wahanol i Dystysgrif Cydnabod Rhywedd dros dro. Mae dystysgrif lawn yn dangos bod y deiliad wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cydnabyddiaeth gyfreithiol yn ei rywedd caffaeledig, fel y'i nodir yn Neddf Cydnabod Rhywedd 2004. O'r dyddiad cyhoeddi, mae rhywedd y deiliad yn dod yn rhywedd caffaeledig i bob diben. Mae dystysgrif lawn hefyd yn rhoi'r hawl i'r person gael dystysgrif geni newydd gyda'r marc rhyw wedi ei ddiweddarau.

Rhywedd: Mynegir yn aml yn nhermau gwrywdod a benyweidd-dra, mae rhywedd yn cael ei bennu gan ddiwylliant ac yn seiliedig ar y rhyw a bennwyd i bobl adeg eu geni.

Hunaniaeth rywedd: Ymdeimlad mewnol person o'i hunaniaeth ei hun. Nid oes rhaid i hyn fod yn ddyn neu'n ddynes. Gallai fod, er enghraifft, yn anneuaidd.

Dysfforia rhywedd: Diagnosis meddygol ar gyfer rhywun sy'n profi anesmwythder neu drallod oherwydd bod gwrthdaro rhwng eu rhyw a'u hunaniaeth ryweddol. Adwaenir hyn weithiau fel anhwylder hunaniaeth ryweddol neu drawsrywioledd.

Cyflwyniad rhywedd / Mynegiant rhywedd: Arwyddion allanol a ddefnyddir gan berson i gyfleu ei rywedd. Gall hyn fod yn wahanol i'w hunaniaeth ryweddol neu gall ei adlewyrchu.

Ailbennu rhywedd: Nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan berson 'nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd os yw'r person yn bwriadu mynd trwy, yn mynd trwy neu wedi mynd trwy broses (neu ran o broses) at ddiben ailbennu rhyw'r person drwy newid rhinweddau ffisiolegol neu eraill rhyw.'

Yn amodol ar rai eithriadau, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd, er enghraifft mewn cyflogaeth neu ddarpariaeth gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys trin gweithwyr neu ddefnyddwyr gwasanaethau yn llai ffafriol oherwydd camgredu bod person yn bwriadu mynd trwy, yn mynd trwy neu wedi mynd trwy'r broses o ailbennu ei rywedd.

Deddf Cydnabod Rhywedd 2004: Deddf Seneddol sy'n galluogi pobl draws i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd caffaeledig, cyn belled â bod y rhywedd hwnnw'n ddyn neu'n ddynes. Penderfynir ceisiadau am gydnabyddiaeth gyfreithiol a wneir o dan y Ddeddf gan Banel Cydnabod Rhywedd sy'n defnyddio'r gofynion tystiolaethol a nodir yn y Ddeddf. Yn dilyn cydnabyddiaeth gyfreithiol, mae gan berson hawl i gael tystysgrif geni newydd yn ei rywedd caffaeledig ac yn gyfreithiol mae rhywedd y person yn dod yn rywedd caffaeledig i bob diben.¹

Panel Cydnabod Rhywedd: Panel o aelodau meddygol a chyfreithiol, a weinyddir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Mae'r panel yn delio â cheisiadau am gydnabyddiaeth gyfreithiol o rywedd o dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004. Os yw'r ymgeisydd yn ymgeisio'n llwyddiannus bydd y panel yn dyroddi Tystysgrif Cydnabod Rhywedd lawn neu dros dro. Nid yw'r ymgeiswyr yn cyfarfod â'r panel yn bersonol gan y cyflwynir ceisiadau ar bapur.

Tystysgrif Cydnabod Rhywedd Dros Dro: Yn wahanol i Dystysgrif Cydnabod Rhywedd lawn. Dyroddir tystysgrif dros dro i ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cydnabyddiaeth gyfreithiol yn eu rhywedd caffaeledig fel y'i nodir yn Neddf Cydnabod Rhywedd 2004 ond sydd angen terfynu eu priodas neu bartneriaeth sifil cyn y gallant gael tystysgrif lawn. Gellir defnyddio'r dystysgrif dros dro i alluogi'r ymgeisydd neu eu priod i derfynu eu priodas neu bartneriaeth sifil ond nid oes ganddo unrhyw arwyddocâd neu ddiben cyfreithiol y tu hwnt i hyn.

Rhyngrywiolyn: Mae rhyngrywiolyn yn derm ymbarél ar gyfer pobl sydd â nodweddion rhyw (hormonau, cromosomau ac organau atgynhyrchiol mewnol/allanol) sy'n wahanol i'r rhai hynny a ddisgwylir mewn gwryw neu fenyw. Efallai y bydd rhyngrywiolion yn adnabod eu hunain fel dyn, dynes neu anneauidd.

Cydnabyddiaeth gyfreithiol: Yng nghyd-destun rhywedd mae hyn yn golygu bod y person yn cydnabod ei rywedd caffaeledig neu ei rhywedd caffaeledig, yn hytrach na'r rhyw a gofrestrwyd ar gofnod geni'r person pan fe'i ganwyd.

Rhywedd anneauidd: Term ymbarél ar gyfer person sy'n adnabod ei hun fel rhywun y tu allan i ddeuaidd rhywedd gwryw-benyw. Efallai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn gyfan gwbl ddyn na dynes, neu fel y ddau, neu'n ymdrin â rhywedd yn hollol

¹ Yn amodol ar rai eithriadau a nodir yn Neddf Cydnabod Rhywedd 2004 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

wahanol. Efallai y bydd pobl wahanol yn defnyddio geiriau gwahanol i ddisgrifio hunaniaeth eu rhywedd, megis rhywedd amhendant, di-ryw neu *genderqueer*.

Rhyw: Neilltuir gan ymarferwyr meddygol ar enedigaeth, ar sail nodweddion corfforol. Gall rhyw fod naill ai'n wryw neu'n fenyw.

Eithriad gwasanaethau i'r un rhyw neu ryw unigol: Defnyddir y termau hyn mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010, yn benodol paragraff 28 o Atodlen 3. Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaeth i ddynion neu ferched yn unig, neu sy'n darparu gwasanaethau ar wahân neu'n wahanol i ddynion a merched, i ymddwyn mewn ffordd a fyddai fel arall yn gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd anghyfreithlon, os yw hyn yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Gallai hyn ganiatáu, er enghraifft, lloches trais domestig ar gyfer merched i wrthod mynediad i berson traws, os yw'n gymesur gwneud hynny ac mae'r diben yn gyfreithlon.

Trawsryweddol / Traws: Termau ymbarél a ddefnyddir i ddisgrifio unigolion sydd â hunaniaeth ryweddol wahanol i'r rhyw a gofnodwyd ar enedigaeth. Efallai y bydd pobl anneuaidd yn ystyried eu hunain fel traws. Mae'r ymgynghoriad hwn yn defnyddio 'traws' yn bennaf.

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

1. Ar ein genedigaeth, mae ein rhieni yn cofrestru ein rhyw ac fe'i cofnodir fel naill ai gwryw neu fenyw ar ein tystysgrif geni. Mae rhyw yn seiliedig ar nodweddion corfforol. Wrth i ni ddatblygu, rydym yn dechrau darganfod synnwyr o'n rhywedd a sut rydym eisiau adnabod a chyflwyno ein hunain. I'r rhan fwyaf o bobl, bydd eu hunaniaeth ryweddol naill ai'n ddyn neu'n ddynes ac ni fydd yn wahanol i'w rhyw fel y cofnodwyd ar enedigaeth. Mae gan bobl draws, fodd bynnag, hunaniaeth ryweddol nad yw'r un fath â'r rhyw sydd wedi ei gofnodi ar eu tystysgrif geni. Gallai hyn olygu eu bod yn teimlo fel dyn er fe'i cofnodwyd fel merch, neu i'r gwrthwyneb. Gallai olygu nad ydynt yn teimlo fel dyn na dynes, neu fod ganddynt hunaniaeth ryweddol hylifol sy'n newid dros amser. Er nad ydym yn gwybod yn union faint o bobl draws sydd yna yn y DU, rydym yn amcangyfrif fod yna rhwng 200,000 a 500,000 o bobl sy'n adnabod eu hunain yn y ffordd hon. Mae Atodiad E yn trafod amcangyfrifon o faint y boblogaeth draws.
2. Nid yw uniaethu fel traws yn gyfwerth â salwch meddwl. Er gwaethaf hyn, ac er gwaethaf y cynnydd yr ydym wedi ei wneud yn y blynyddoedd diweddar, mae pobl draws yn parhau i wynebu rhwystrau sylweddol wrth gymryd rhan lawn ym mywyd cyhoeddus. Mae cyfraddau hunanladdiad a hunan-niweidio, yn enwedig ymysg pobl ifanc draws, yn rhy uchel. Mae pobl draws yn parhau i wynebu gwahaniaethu ac aflonyddu yn y gweithle, yn yr ysgol ac ar y stryd. Yn y pen draw gall hyn atal nifer rhag cyflawni eu potensial, a chanfod yr urddas a'r parch y maent yn ei haeddu.

Deddf Cydnabod Rhywedd 2004

3. Er mwyn cael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'i rywedd caffaeledig mae person traws yn gallu gwneud cais am dystysgrif geni newydd, drwy broses a nodir yn Neddf Cydnabod Rhywedd (GRA) 2004. Mae'r GRA yn amlinellu proses a set o ofynion tystiolaethol, y byddant, unwaith fe'i bodlonir, yn caniatáu pobl draws dros 18 oed i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u hunaniaeth ryweddol. Mae'r broses GRA ond yn ymdrin â'r hunaniaethau rhywedd dyn a dynes. Cyflwynir cydnabyddiaeth gyfreithiol ar ffurf Tystysgrif Cydnabod Rhywedd (GRC) a thystysgrif geni newydd. Mae GRC yn golygu, o'r dyddiad cyhoeddi, y bydd y person yn cael ei ystyried gan y gyfraith i gael y rhywedd y mae'n uniaethu ag o (dyn neu ddynes yn unig) yn hytrach na'r rhywedd sy'n cyd-fynd â'r rhyw a gofnodwyd ar enedigaeth.
4. Pan gyflwynwyd am y tro cyntaf, roedd y GRA yn ddarn o ddeddfwriaeth ar flaen y gad yn fyd-eang. Am y tro cyntaf yn y DU, galluogodd pobl draws i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd caffaeledig, ac yn unigryw yn y byd ar y pryd, i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol heb orfod cael triniaeth lawfeddygol yn gyntaf. Rhoddodd hawliau cyfreithiol pwysig i bobl draws, megis yr hawl i briodi yn eu rhywedd caffaeledig a'r hawl i bensiwn yn yr oedran cymwys i'r rhywedd hwnnw. Yn hanfodol, adlewyrchai'r egwyddor bwysig y dylai pobl draws gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd gan y Wladwriaeth.

5. I lawer o bobl draws, a sefydliadau sy'n cefnogi pobl draws, fodd bynnag, nid yw'r broses cydnabyddiaeth gyfreithiol bellach yn cyflawni. Ers i'r GRA ddod i rym, mae 4,910 o bobl wedi llwyddo i gael GRC – mae hyn yn llai na'r nifer o ymatebwyr traws, dynion a merched, i arolwg LGBT y Llywodraeth (oddeutu 6,900), ac yn llai fyth na maint amcan poblogaeth draws y DU). Dengys canlyniadau'r arolwg mai ond 12% o ymatebwyr traws yr arolwg a oedd wedi dechrau neu gwblhau eu trawsnewidiad a oedd wedi defnyddio'r broses a nodir yn y GRA. O'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r broses GRA, ond nid oedd ganddynt GRC ac erioed wedi ymgeisio am un, 7% yn unig ddywedodd na fyddai ganddynt ddiddordeb mewn mynd drwy'r broses. Mae hyn felly'n awgrymu bod yna ddiddordeb mewn defnyddio'r system GRA i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o rywedd, ond nad yw'r broses ei hun yn cael ei defnyddio.
6. Roedd ymatebwyr i'r arolwg LGBT yn glir: roeddynt eisiau cydnabyddiaeth gyfreithiol ond nid oeddynt wedi gwneud cais amdani oherwydd eu bod yn teimlo bod y broses gyfredol yn rhy fiwrocataidd, yn rhy ddrud ac yn rhy ymwithiol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflawni addewid a wnaethom ym mis Gorffennaf 2017 i gyflwyno ymgynghoriad ar sut orau i foderneiddio a symleiddio'r GRA.²
7. Mae'r Llywodraeth eisiau gwneud y broses cydnabyddiaeth gyfreithiol yn llai ymwithiol a biwrocataidd i bobl draws. Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am eich barn ar sut allwn gyflawni hyn. Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych ar nifer o agweddau'r broses GRA, gan gynnwys:
 - a) Yr angen i berson traws ddarparu dau adroddiad meddygol, un yn dangos tystiolaeth o ddiagnosis o ddysfforia rhywedd a'r llall yn amlinellu manylion unrhyw driniaeth a dderbyniwyd;
 - b) Yr angen i berson traws ddarparu ystod o ddogfennau sy'n profi ei fod wedi byw yn ei rywedd caffaeledig am o leiaf dwy flynedd;
 - c) Yr angen i berson traws gyflwyno datgeliad statudol o'i fwriad i fyw yn ei rywedd caffaeledig am oes;
 - d) Yr angen i ymgeiswyr priod gael caniatâd eu priod neu derfynu eu priodas;
 - e) Y gost i berson traws o fynd drwy'r broses GRA;
 - f) Sut mae'r Ddeddf yn diogelu preifatrwydd unigolion sydd wedi ymgeisio am GRC.
8. Mae'r Llywodraeth eisiau deall mwy am brofiadau pobl draws o'r broses o ymgeisio am GRC, ynghyd â defnyddio'r ymgynghoriad hwn i gasglu mwy o dystiolaeth am sut all unrhyw ddiwygiad i'r GRA effeithio ar fywydau pobl cyn penderfynu sut i weithredu. Os penderfynwn fod newidiadau yn angenrheidiol, ein nod yw cyflwyno deddfwriaeth sy'n diweddarau'r Ddeddf.

Deddf Cydraddoldeb 2010

² Gweler <https://www.gov.uk/government/news/new-action-to-promote-lgbt-equality>

9. Wrth i ni ymgynghori, mae'r Llywodraeth yn ystyriol o sut allai newid y gofynion ar gyfer GRC effeithio ar elfennau eraill o'r gyfraith a gwasanaethau cyhoeddus. Dymunwn ddeall mwy ynglŷn â'r partneriaethau hyn fel rhan o'r broses datblygu polisi.
10. Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y berthynas rhwng y GRA a Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ymgynghoriad hwn yn glir nad ydym yn bwriadu diwygio amddiffyniadau presennol yn y Ddeddf Gydraddoldeb. Mae'r Ddeddf Gydraddoldeb yn cynnwys 'ailbennu rhywedd' yn benodol fel nodwedd warchodedig. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r sefyllfaoedd prin lle gall gwahaniaethu yn erbyn person sydd â'r nodwedd warchodedig hon fod yn dderbyniol, megis wrth ddarparu gwasanaethau i'r un rhyw, cyn belled â bod y gwahaniaethu yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, rhedeg canolfan gymorth trais. Gwyddom fod pryderon wedi cael eu mynegi ynglŷn â sut all unrhyw newid i'r GRA effeithio ar yr amddiffyniadau hyn yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac rydym eisiau darganfod mwy am hyn. Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn deall sut mae'r broses gyfredol o newid rhywedd yn gyfreithiol yn effeithio ar y rhai hynny sydd â nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Datganoli

11. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried datganoli ac ystyriaethau rhyngwladol unrhyw newid yn y dyfodol i'r broses o gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o rywedd. Mae'r newidiadau arfaethedig i'r GRA yn yr ymgynghoriad hwn ond yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae cydnabod rhywedd wedi ei ddatganoli'n bennaf i Ogledd Iwerddon a'r Alban, er, ar hyn o bryd mae bob rhan o'r DU yn gweithredu'n fras yr un system ac fe lywodraethir y cyfan gan GRA 2004. Ym mis Tachwedd 2017, fodd bynnag, lansiodd Llywodraeth yr Alban ei ymgynghoriad ei hun ar ddiwygio'r GRA ar gyfer yr Alban yn unig felly mae'n bosibl y bydd yna fwy o ddargyfeirio yn y dyfodol.³

Hunaniaethau rhywedd anneuaidd

12. Derbyniodd y Llywodraeth oddeutu 7,400 o ymatebion i'r arolwg LGBT gan y rhai hynny sydd â hunaniaeth ryweddol nad yw'n gyfan gwbl wrywaidd neu fenywaidd (a adwaenir fel 'anneuaidd'). Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn cwestiwn agored am y mater o gydnabod pobl sydd â hunaniaeth ryweddol anneuaidd yn gyfreithiol. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol bod nifer cynyddol o bobl nad ydynt yn ystyried eu hunain yn wrywaidd nac yn fenywaidd. Rydym yn gweithio i benderfynu pa gamau a fyddai'n angenrheidiol i'r Llywodraeth eu cymryd i wella cydraddoldeb i bobl anneuaidd. Mae cydnabod hunaniaeth anneuaidd yn fater cymhleth, gyda nifer o oblygiadau i'r gyfraith a darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus. Yn ein Cynllun Gweithredu LGBT a lansiwyd yn ddiweddar, cyhoeddasom ein bwriad i gyhoeddi 'galwad am dystiolaeth' ar hunaniaethau rhywedd anneuaidd, yr hoffem ei defnyddio i archwilio'r goblygiadau posibl hyn yn fwy manwl ac i ddeall profiadau ac anghenion pobl anneuaidd sy'n byw yn y

³ Gweler: <https://consult.gov.scot/family-law/review-of-the-gender-recognition-act-2004/>

DU mewn mwy o fanylder. Rydym wedi cynnwys cwestiwn ar hunaniaethau rhywedd anneauaid yn yr ymgynghoriad hwn fel atodiad i'r ymarfer galw am dystiolaeth hwn, gan ganolbwyntio yma ar eich barn gychwynnol am gydnabod hunaniaeth anneauaid gan ei fod yn gysylltiedig â'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn benodol.

Rhyngrywiolyn

13. Rydym yn deall efallai bod angen i ryngrywolion wneud cais am GRC er mwyn newid eu rhyw, os cafodd ei gofnodi'n anghywir ar eu tystysgrif geni wreiddiol neu os ydynt eu hunain yn drawsryweddol. Efallai na fydd diagnosis o ddysfforia rhywedd er mwyn ymgeisio am GRC yn gweithio i ryngrywiolion os nad oes ganddynt ddysfforia, yn hytrach gwnaed camgymeriad meddygol wrth bennu rhywedd. Byddai cael gwared ar yr angen am ddiagnosis o ddysfforia rhywedd yn ei gwneud hi'n haws i ryngrywiolion wneud cais am GRC a chael tystysgrif geni gywir. Rydym eisiau deall os oes yna newidiadau pellach i broses ymgeisio GRC a fyddai'n helpu rhyngrywiolion os ydynt angen newid eu tystysgrif geni. Rydym felly wedi gofyn cwestiwn yn benodol i ryngrywiolion. Rydym hefyd eisiau deall sut mae polisiau ehangach y Llywodraeth yn effeithio ar ryngrywiolion, a sut y gall y Llywodraeth eu cefnogi. I'r diben hwn, byddwn yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar wahân i ryngrywolion yn ddiweddarach eleni.

Llwybr meddygol i bobl draws

14. Mae'r ymgynghoriad hwn ond yn ymdrin â'r broses gyfreithiol o gydnabod rhywedd. Mae yna llwybr ar wahân i gael triniaeth feddygol megis therapi hormonau a llawdriniaeth i bobl draws sydd eisiau'r cymorth meddygol hwnnw. Llywodraethir y llwybr meddygol hwn gan ganllawiau a rheoliadau ar wahân, fel y'i nodir gan GIG Lloegr ac nid yw eich rhywedd gyfreithiol yn berthnasol wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig unrhyw newidiadau i'r rheoliadau hyn, ac nid yw chwaith yn gofyn am unrhyw newid i sut mae person traws yn cael triniaeth feddygol. Nid yw chwaith yn gofyn am unrhyw newid i'r oed y mae pobl ifanc yn gallu cael triniaeth feddygol, sydd ar hyn o bryd yn 16 oed ar gyfer therapi hormonau ar y GIG, ac 18 oed ar gyfer llawdriniaeth ar y GIG. Cyfeirir at gael gwared ar yr angen am ddiagnosis o ddysfforia rhywedd gan fod hyn yn ofynnol ar hyn o bryd er mwyn ymgeisio am GRC. Os, o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth yn penderfynu newid y broses o gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o rywedd, ac i wneud hi'n haws cael GRC, ni fydd hyn yn rhoi hawl awtomatig i'r deiliad gael triniaeth feddygol. Bydd triniaeth feddygol yn parhau i fod ar ddisgresiwn y gweithwyr meddygol proffesiynol, ar sail achosion unigol.

Casgliad

15. Mae ymgynghoriad yn rhan hanfodol o ddatblygu polisi. Bydd y Llywodraeth yn ystyried yn ofalus barn pawb mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn a bydd yn cyhoeddi ymateb sy'n amlinellu sut y mae'n bwriadu gweithredu.
16. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i'r ymgynghoriad hwn fod mor eang, agored a hygyrch ag sy'n bosibl. I'r diben hwn, bydd y Llywodraeth yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori hon a byddwn yn

gweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i sicrhau bod pawb yn cael cyfleu i ddweud eu barn mewn amgylchedd parchus.

17. Yn olaf, mae'r Llywodraeth eisiau'r ymgynghoriad hwn fod yn agored i safbwyntiau a phersbectifau pawb. Gwyddom y gall sgysiau am gydraddoldeb trawsryweddol ennyn amrywiaeth eang o safbwyntiau. Mae gan bawb yr hawl i leisio eu barn a byddwn yn trin pob ymateb gyda'r un parch. Mae'r drafodaeth gyhoeddus dros y misoedd diwethaf ar brydiau wedi bod yn angharedig neu'n wahaniaethol hyd yn oed. Rydym yn erfyn ar bawb sy'n ymhel â'r maer hwn ac yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn i drin ei gilydd â pharch. Nid yw difrio neu sylwadau cas yn dderbyniol.

Cyflwyniad

1. Mae barn y Llywodraeth yn glir: nid yw uniaethu fel traws yn gyfwerth â salwch meddwl. Mae'n rhan greiddiol o fywyd pob dydd ac amrywiaeth dynol. Yn wir, mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi adolygu'r Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau, ICD 11, i sicrhau nad yw 'Anghyfathiant Rhywedd' (enw arall am ddysfforia rhywedd) bellach yn cael ei ystyried o dan 'Anhwylderau Meddwl ac Ymddygiad'.⁴
2. Bydd y rhan fwyaf o bobl draws yn mynd i'r afael â'r ffaith nad yw eu hunaniaeth ryweddol yn cyd-fynd â'r rhyw sydd ar eu tystysgrif geni drwy broses a elwir yn 'trawsnewid'. Mewn deddfwriaeth, yn fwy amlwg y Ddeddf Cydraddoldeb, gelwir y broses hon yn 'ailbennu rhywedd'. Yn fras, gall trawsnewid gynnwys amryw o newidiadau cymdeithasol, meddygol a/neu gyfreithiol, a ddisgrifir mewn manylder yn y tabl isod. Mae'n bosibl i bobl draws drawsnewid drwy newidiadau cymdeithasol yn unig heb unrhyw driniaeth feddygol. Bydd pawb yn trawsnewid mewn ffyrdd gwahanol.

Agweddau ar drawsnewid	Disgrifiad
Cymdeithasol	Bydd person traws yn gwneud newidiadau i'w fywyd cymdeithasol a'i amgylchedd. Er enghraifft, efallai y bydd yn: • Dechrau dweud wrth bobl am ei hunaniaeth ryweddol, megis cydweithwyr; • Mynegi ei hunaniaeth ryweddol drwy newid ei ddillad neu steil gwallt; • Gofyn i gael ei adnabod fel 'ef' neu 'hwy' yn hytrach na 'hi' neu i'r gwrthwyneb; • Dechrau defnyddio toiledau a chyfleusterau rhyw sengl i gyd-fynd â'i hunaniaeth ryweddol; • Defnyddio enw gwahanol; • Newid ei rywedd, teitl ac enw ar ddogfennau megis cardiau credyd, datganiadau banc, biliau, cofnodion meddygol a chofnodion cyflogaeth. • Newid ei rywedd, teitl ac enw ar ddogfennau hunaniaeth a gyhoeddwyd gan y llywodraeth.

⁴ Er, nid yw hyn yn lleihau gallu pobl draws i gael gofal iechyd er mwyn trawsnewid yn feddygol.

Meddygol	Bydd person traws yn mynd trwy driniaeth feddygol er mwyn newid un neu fwy o agweddau ar ei nodweddion rhyw fel ei fod yn profi llai o anghyfathiant â'i hunaniaeth ryweddol. Er enghraifft, efallai y bydd yn: • Cael therapi lleferydd i newid sain ei lais; • Cymryd hormonau, megis testosteron neu oestrogen; • Tyfu, neu gael gwared ar flew'r wyneb a/neu'r corff; • Mynd trwy lawdriniaeth ar y wyneb, bronnau/brest, genitalia a/neu ardaloedd eraill.
Cyfreithiol	Bydd person traws yn ceisio cael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'i rywedd caffaeledig. Yn y DU, mae hyn yn golygu'r broses a nodir yn Neddf Cydnabod Rhywedd 2004. Nid yw cydnabyddiaeth gyfreithiol yn dylanwadu ar driniaeth feddygol.

3. Gall trawsnewid fod yn anodd. Weithiau bydd pobl eraill, o gydweithwyr i rieni, yn gwrthod derbyn hunaniaeth ryweddol y person traws. Gall hyn arwain at wahaniaethu, aflonyddu a throseddau casineb. Weithiau gall fod yn anodd cael triniaeth feddygol oherwydd hyd y rhestrau aros neu'r gost, gan na ariennir pob triniaeth. Mae gan rai pobl draws gyflyrau iechyd hirdymor sy'n eu hatal rhag gallu cael rhai triniaethau meddygol. Weithiau mae'r rhwystrau i gydnabyddiaeth gyfreithiol yn rhy anodd i'w goresgyn.
4. Pan fydd person traws yn profi anesmwythder neu drallod o ganlyniad i'r gwrthdaro rhwng ei nodweddion rhyw a'i hunaniaeth ryweddol, gelwir hyn yn ddysfforia rhywedd. Mae diagnosis o ddysfforia rhywedd yn rhan bwysig o sicrhau cymorth y GIG er mwyn trawsnewid yn feddygol ac yn angenrheidiol ar hyn o bryd er mwyn trawsnewid yn gyfreithiol.
5. Mae gan y DU set o amddiffyniadau cyfreithiol cadarn sy'n diogelu pobl draws a phobl LGBT yn fwy cyffredinol ac sy'n gwella cydraddoldeb i'r grwpiau hyn. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl draws rhag gwahaniaethu mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cyflogaeth a darpariaeth gwasanaethau. Mae deddfwriaeth troseddau casineb yn ymdrin â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhywedd. Mae Deddf Cydnabod Rhywedd yn diogelu preifatrwydd pobl draws sydd â Thystysgrifau Cydnabod Rhywedd yn fwy effeithiol.
6. Cyn i'r GRA gael ei chyflwyno, ni allai pobl draws gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd caffaeledig. Er eu bod yn byw yn eu rhywedd caffaeledig gyda dogfennau megis eu pasbort wedi ei newid, a'u cydnabod felly'n gymdeithasol, yn gyfreithiol byddant yn cael eu hystyried fel y rhyw a gofnodwyd ar enedigaeth. Golygai hyn na allant, er enghraifft, briodi yn eu rhywedd caffaeledig, cael yr hawl i ymddeol a derbyn pensiwn y wladwriaeth yn yr oedran sy'n gymwys i'w rhywedd caffaeledig, neu ddarparu tystysgrif geni i unrhyw ddiben heb adnabod eu hunain fel traws - a allai arwain at sefyllfaoedd anodd neu beryglus hyd yn oed.

7. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y broses y mae pobl draws yn mynd trwyddi i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd caffaeledig. Yn y DU, mae pobl draws 18 oed neu hŷn yn gallu cael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd caffaeledig drwy ddilyn y broses a nodir yn y GRA. Adwaenir y broses hon fel proses sy'n seiliedig ar 'ailbennu', gan ei bod yn ofynnol ar hyn o bryd i bobl draws gasglu tystiolaeth a'i chyflwyno i banel a fydd yn penderfynu pa un a yw'r dystiolaeth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cydnabyddiaeth fel y'i nodir yn gyfraith.
8. Mae gwledydd eraill yn defnyddio model 'triniaeth', lle mae person traws ond yn gallu cael cydnabyddiaeth gyfreithiol os ydyw wedi cael rhyw fath o driniaeth feddygol. Gallai hyn fod yn llawdriniaeth, therapi hormonau cadarnhau rhywedd, neu gymysgedd o'r rhain. Mewn rhai gwledydd gall gynnwys mynnu bod y person traws yn mynd trwy sterileiddiad, rhywbeth nad yw'r DU yn ei gymeradwyo, ac sydd â goblygiadau difrifol ac annymunol i bobl draws.
9. Mae'r model olaf ar gyfer cydnabyddiaeth gyfreithiol yn fodel 'heb-asesiad'. Yn ei hanfod, mae hyn yn caniatáu i berson traws gwblhau ffurflen ei hunan, sy'n newid ei hunaniaeth ryweddol a chael ei gydnabod ar y sail honno, er hynny fel arfer gyda rhyw fath o ddatganiad statudol sy'n dangos difrifoldeb y bwriad. Dyma ddull gweddol newydd, ac un y mae nifer o bobl draws a grwpiau LGBT wedi ei groesawu, ac yn awyddus i'r DU ei ddefnyddio.

Sut mae'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn gweithio?

10. Yn grynno, mae'r GRA yn amlinellu rhestr o feini prawf y mae rhaid i berson traws ei bodloni i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'i hunaniaeth ryweddol, cyn belled â bod yr hunaniaeth honno'n ddyn neu'n ddynes. Mae'r person traws yn gorfod casglu tystiolaeth i brofi ei fod yn bodloni'r meini prawf a'i hanfon at y Panel Cydnabod Rhywedd (GRP), corff cyfreithiol sy'n cynnwys aelodau cyfreithiol a meddygol a weinyddir gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Er Mawrhydi. Mae'r GPR yn asesu'r dystiolaeth ac yn penderfynu pa un yw person traws yn bodloni'r meini prawf. Os yw'r cais yn llwyddiannus, yna bydd y person traws yn cael GRC.

Pa dystiolaeth sydd angen i berson traws ei darparu?

11. Mae'r broses GRA yn cynnwys tri llwybr ymgeisio gwahanol ac mae gan bob un maen prawf tystiolaethol gwahanol.

Llwybr ymgeisio	Beth yw'r prif feini prawf cymhwyso?
Llwybr Safonol - Defnyddir gan 95% o ymgeiswyr	- Rhaid i ymgeiswyr fod yn 18 oed neu hŷn. - Datganiad statudol o fwriad y person traws i fyw yn ei rywedd caffaeledig am oes. - Ffi ymgeisio o hyd at £140 - Dau adroddiad meddygol - yn cadarnhau bod gan yr ymgeisydd, neu ei fod wedi cael dysfforia rhywedd gan gynnwys manylion unrhyw driniaeth y mae'r ymgeisydd wedi ei chael i newid ei gorff, e.e. triniaeth hormonau neu lawdriniaeth. - Tystiolaeth fod yr ymgeisydd wedi byw'n llawn amser yn ei rywedd caffaeledig am o leiaf dwy flynedd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, dogfennaeth yn dangos enw'r unigolyn a'i farc rhywedd. - Os yn briod, y mae rhaid i'r partner priod arall gyhoeddi datganiad statudol o'i ganiatâd. ⁵ - Ni all ymgeisydd fod mewn partneriaeth sifil oni bai ei fod ef a'i bartner yn cael cydnabyddiaeth gyfreithiol ar yr un diwrnod.
Llwybr Amgen - Defnyddir gan 1% o ymgeiswyr, gan ei fod yn berthnasol i bobl sydd wedi trawsnewid yn gymdeithasol ac yn feddygol ers peth amser.	Mae hwn yr un fath â Llwybr safonol eithr: - Un adroddiad meddygol sydd ei angen - naill ai'n cadarnhau bod gan yr ymgeisydd, neu ei fod wedi cael dysfforia rhywedd neu ei fod wedi cael llawdriniaeth at ddibenion newid ei nodweddion rhywiol. - Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod mewn priodas⁶ neu bartneriaeth sifil warchodedig ar, neu cyn y dyddiad y gwneir y cais. - Mae tystiolaeth angen dangos bod yr ymgeisydd wedi byw'n llawn amser yn ei rywedd caffaeledig am o leiaf 6 mlynedd cyn 10 Rhagfyr 2014, ac yn parhau i wneud hynny.⁷ - Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn breswlydd cyffredin yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.

⁵ Cyflwynwyd y ddarpariaeth hon gan Ddeddf Priodas (cyplau o'r un rhyw) 2013. Cyn hyn roedd rhaid i ymgeiswyr gael ysgariad neu ddirymiad, gan nad oedd y gyfraith yn ymdrin â phriodas o'r un rhyw.

⁶ Mae priodas neu bartneriaeth sifil yn warchodedig os yw'n un o'r canlynol:

- cofrestredig o dan Gyfraith Cymru a Lloegr
- priodas a weinyddwyd yn yr Alban
- partneriaeth sifil a gofrestrwyd yn yr Alban
- priodas a gofrestrwyd o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU
- priodas ar fangreodd consylaidd y DU neu mewn canolfan lluoedd arfog, os dewisoch Gymru, Lloegr neu'r Alban fel y rhan berthnasol o'r DU

⁷ 10 Rhagfyr 2014 yw'r dyddiad y daeth Adran 12 o Ddeddf Priodas (cyplau o'r un rhyw) 2013 i rym.

Llwybr Tramor	- Rhaid i ymgeiswyr fod yn 18 oed neu hŷn.
	- Ffi ymgeisio o hyd at £140.
- Defnyddir gan 4% o ymgeiswyr	- Tystiolaeth fod yr ymgeisydd wedi cael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'i rywedd caffaeledig gan wlad neu diriogaeth a restrir mewn deddfwriaeth. Mae'r rhestr hon yn cynnwys awdurdodaethau gyda systemau cydnabod rhywedd cyffelyb i'r DU. ⁸

12. Unwaith y bydd y person traws wedi dewis ei lwybr ymgeisio ac wedi casglu'r dystiolaeth sy'n ofynnol, bydd yn cyflwyno ei ddogfennau ar ffurf ysgrifenedig i'r GRP. Bydd y GRP yn asesu'r dystiolaeth a ddarperir drwy edrych ar y dogfennau. Ym mron pob sefyllfa, ni fydd rhaid i'r person traws ymddangos o flaen y panel. Mae'n bosibl y bydd y GRP yn gofyn cwestiynau dilynol ar ffurf ysgrifenedig, efallai'n gofyn am fwy o dystiolaeth neu ddogfennaeth os nad ydynt yn argyhoeddedig fod y gofynion o dan y Ddeddf wedi eu bodloni. Os bydd cais yn aflwyddiannus, darperir rhesymau. Os yw'r cais yn llwyddiannus, yna bydd y person traws yn derbyn Tystysgrif Cydnabod Rhywedd. Os cofrestrwyd eu genedigaeth yn y DU, byddant hefyd yn cael tystysgrif geni newydd gan y Cofrestrydd Cyffredinol.

13. Ers 16 Tachwedd 2017, mae Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth wedi bod yn gyfrifol am y GRA. Yn dilyn trosglwyddiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.⁹ Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dal yn gyfrifol am y GRA.

14. Rhoddir eglurhad llawn o'r broses cydnabyddiaeth gyfreithiol yn Atodiad D.

Beth mae cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd yn ei olygu?

15. Unwaith y bydd y person traws wedi cael GRC, yna'n gyfreithiol mae ei rywedd yn dod yn rhywedd caffaeledig i bob diben ar wahân i'r rhai eithriadau a restrir yn y GRA. Mae GRC hefyd yn rhoi hawl i unigolyn gael tystysgrif geni newydd sy'n adlewyrchu'r rhywedd caffaeledig yn hytrach na'r rhywedd a gofnodwyd ar enedigaeth.

16. Nid yw cydnabyddiaeth gyfreithiol yn esgor ar driniaeth feddygol at ddibenion trawsnewid yn feddygol.

17. Bydd y rhan fwyaf o bobl draws eisoes wedi newid eu henw, unrhyw ffurflenni hunaniaeth a gyhoeddwyd gan y llywodraeth sydd ganddynt, eu trwydded yrru, eu cofnodion gwaith a'u manylion banc i adlewyrchu eu rhywedd caffaeledig. Gall meddu ar dystysgrif geni nad yw'n cyd-fynd â'r dogfennau eraill hyn olygu bod y person traws yn cael ei 'ddatgelu' heb ei gydsyniad fel traws pryd bynnag y bydd angen darparu ei dystysgrif geni at ddibenion gweinyddol. Mae hefyd yn golygu

⁸ Gweler Gorchymyn Cydnabod Rhywedd (Gwledydd a Thiriogaethau wedi eu Cymeradwyo) 2011 <http://www.legislation.gov.uk/uk/si/2011/1630/contents/made>. Er ei fod yn rhestru 41 o wledydd, ond rhai gwladwriaethau fydd yn cynnig cydnabod rhywedd. Os nad yw'r awdurdodaeth wedi ei rhestru, yna y mae rhaid i'r ymgeisydd wneud cais gan ddefnyddio'r Llwybr Ymgeisio Safonol.

⁹ Gweler Datganiad Gweinidogaethol Ysgrifenedig y Prif Weinidog - <http://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-statement/Commons/2017-11-16/HCWS253/>

bod ei rif Yswiriant Gwladol yn gysylltiedig â'i rywedd blaenorol a'i fod ar y gofrestr etholiadol fel ei rywedd blaenorol. Drwy newid eu rhywedd caffaeledig, a derbyn tystysgrif geni newydd, mae pobl draws yn gallu sicrhau bod eu holl ddogfennaeth yn cyd-fynd, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd chwithig neu ddryslyd wrth ddefnyddio gwasanaethau, neu sefyllfaoedd peryglus lle allant wynebu gwahaniaethu neu aflonyddu o ganlyniad i gael eu 'datgelu' fel traws.

18. Mae GRC hefyd yn rhoi'r urddas a'r parch i bobl draws a ddaw o gael eu rhywedd caffaeledig wedi ei gydnabod yn swyddogol gan y wladwriaeth.
19. Ar hyn o bryd, mae'r broses ar gyfer newid eich rhywedd cyfreithiol yn fras yr un fath yng Nghymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Os yw'r ymgeisydd yn newid ei rywedd cyfreithiol gan ddefnyddio'r GRA yna bydd y rhywedd hwnnw yn cael ei adnabod ledled y DU. Mae'r ymgynghoriad hwn ond yn berthnasol i'r system yng Nghymru a Lloegr.
20. Mae rhai cyfyngiadau i gydnabyddiaeth gyfreithiol. Er enghraifft, os oes gan rywun blant yna ni fydd eu rhywedd caffaeledig yn effeithio ar eu statws cyfreithiol fel tad neu fam y plant hynny. Felly os yw rhywun yn rhoi genedigaeth i blentyn, yn gyfreithiol byddant yn fam i'r plentyn hwnnw er petaent yn ddiweddarach yn gwneud cais llwyddiannus am GRC ac yn dod yn ddyn at ddibenion cyfreithiol. Nodir cyfyngiadau neu eithriadau eraill yn Neddf Cydnabod Rhywedd (gweler Atodiad C am fwy o fanylion).
21. Nid yw'r GRC yn adolygol ac nid yw'n ail ysgrifennu hanes rhywedd yr unigolyn nac yn effeithio ar yr hyn a wnaeth cyn iddi gael ei dyroddi, er enghraifft hanes troseddol neu hanes ariannol o fethdaliad. Nid yw chwaith yn atal sefydliadau sydd angen ymchwilio i'r materion hyn, megis y rhai hynny sy'n cynnal gwiriadau cofnodion troseddol, rhag gallu cael gafael ar y rhain.
22. Derbyniodd y GRA Gydsyniad Brenhinol yn 2004 a daeth ei darpariaethau i rym ar 4 Ebrill 2005. Ers hynny, mae 4,910 o unigolion wedi ymgeisio'n llwyddiannus am GRC. Mae oddeutu 3,600 (73%) wedi cael eu dyroddi i'r rhai hynny a gafodd eu neilltuo'n wrywaidd ar eu genedigaeth a 1,300 (27%) i'r rhai hynny a gafodd eu neilltuo'n fenywaidd ar eu genedigaeth.¹⁰ Yn y blynyddoedd diweddar mae'r cyfrannau hyn wedi newid fymryn, gyda'r gyfran a ddyroddwyd i'r rhai hynny a gafodd eu neilltuo'n fenywaidd ar eu genedigaeth yn cynyddu a'r gyfran a ddyroddwyd i'r rhai hynny a gafodd eu neilltuo'n wrywaidd ar eu genedigaeth yn lleihau.

¹⁰ Gweler y bwletin Ystadegau Chwarterol y Dystysgrif Cydnabod Rhywedd a Thribiwnlysoedd diweddaraf, a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder <https://www.gov.uk/government/collections/tribunals-statistics>

Pam fod angen diweddaru'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

23. Yn syml, mae'r achos o blaid newid fel a ganlyn. Mae unigolion trawsryweddol eisïau cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd caffaeledig a'r urddas a'r parch a ddaw yn sgïl hynny. Byddant yn aml wedi newid eu henw eisïoes, a dogfennau eraill, megis unrhyw ffurflenni hunaniaeth a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth sydd ganddynt, i adlewyrchu eu rhywedd caffaeledig. Mae hyn felly yn creu sefyllfa fiwrocrataidd anodd lle nad yw eu statws cyfreithiol a'u tystysgrif geni yn cyd-fynd â gweddiïl eu dogfennaeth a'u rhywedd.
24. I ddatrys hyn, fodd bynnag, y mae rhaid iddynt fynd drwy'r broses gyfredol o gael cynabyddiaeth gyfreithiol a nodir yn y GRA. Mae llawer o bobl draws yn teimlo bod y broses hon yn rhy ymwithiol, iselhaol ac yn drwm o ran gwaith papur. Gan ddadlau ymhellach bod yr angen am adroddiadd seiciatrig diagnostig, yn golygu bod y broses yn anfarwoli'r canfyddiad o'r oes o blaen, fod uniaethu fel traws yn gyfwerth â salwch meddwl. Fel rhan o'r broses, mae'r person traws yn gorfod casglu ystod o ddogfennaeth bersonol, gan gynnwys gwybodaeth am eu hanes meddygol, eu cyllid a'u hunaniaeth y byddant yn ei hanfon at bobl nad ydynt yn cyfarfod â hwy, sydd yna'n gwneud penderfyniad ynglŷn â'u hunaniaeth ryweddol. Ystyrir y ffi o £140 a'r costau cysylltiedig yn ddrud ac nid oes modd apelio'r penderfyniad oni bai ei fod yn ymwneud â phwynt cyfreithiol.¹¹
25. Yn y pen draw, mae pobl draws yn dadlau bod y system yn atal gormod o bobl rhag cael y gdnabyddiaeth gyfreithiol y maent ei heisïau. Mae'n fwrn ychwanegol ar bobl draws pan maent eisïoes yn wynebu cyfres o rwystrau eraill i gymryd rhan lawn yn y gymdeithas ehangach ac i gael y parch y maent yn ei haeddu.
26. Darbyyllir y Llywodraeth gan y dadleuon hyn. Rydym eisïau gwneud hi'n haws i bobl draws gael cydnabyddiaeth gyfreithiol, a dyna pam ein bod yn ymgynghori ar y ffordd orau i gyflawni hyn.

Er bod llawer o bobl draws eisïau cydnabyddiaeth gyfreithiol, ychydig iawn sy'n llwyddo

27. Cred y Llywodraeth fod y nifer o bobl sydd wedi ymgeisio'n llwyddiannus am GRC yn is na'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig.
28. Ers i ddarpariaethau'r GRA ddod i rym, mae 4,910 o Dystysgrifau Cydnabod Rhywedd wedi cael eu dyroddi, ar gyfartaledd o 300 y flwyddyn.¹² Mae'r

¹¹ Gellir apelio i'r Uchel Lys a'r Llys Teulu, ar bwynt cyfreithiol. Gellir apelio os yw'r unigolyn yn credu bod y panel heb ddilyn y broses a nodir yn y Ddeddf Cydnabod Rhywedd, er enghraifft drwy ddefnyddio prawf cyfreithiol arall neu gyflwyno meini prawf newydd. Ni all unigolion apelio oherwydd nad ydynt yn cytuno â phenderfyniad y panel. Ond un achos Saesneg ar bwynt cyfreithiol sydd wedi bod ers i ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym yn 2005, *Carpenter v Secretary of State for Justice*, ond fe wrthodwyd yr apêl.

¹² Gweler Ystadegau Chwarterol y Dystysgrif Cydnabod Rhywedd a Thribiwnlysoedd: Mis Gorffennaf i fis Medi 2017, a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder - <https://www.gov.uk/government/statistics/tribunals-and-gender-recognition-certificate-statistics-quarterly-july-to-september-2017>

cyfanswm hwn yn is na'r amcangyfrifon o faint y boblogaeth draws y mae'r Llywodraeth yn ymwybodol ohonynt. Mae'r amcangyfrifon hyn yn amrywio, ac nid oes amcangyfrif pendant, ond mae pob un yn fwy na'r nifer o unigolion sydd â GRC.¹³ Mae Atodiad E yn trafod yr amcangyfrifon amrywiol o faint y boblogaeth draws. Awgryma hyn fod y boblogaeth yn y DU rhywle rhwng 200,000 a 500,000 o bobl.

29. O'r ymatebwyr traws i'r arolwg LGBT, a oedd yn ymwybodol o'r broses GRA, ond nid oedd ganddynt GRC, ac erioed wedi ymgeisio am un, 7% yn unig ddywedodd na fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael un. Awgryma hyn felly fod yna ddiddordeb mewn defnyddio'r system GRA i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol.

Bydd gwella'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn helpu i wella cydraddoldeb ar gyfer pobl draws, sy'n parhau i wynebu ystod eang o rwystrau cymdeithasol

30. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol bod y problemau y mae pobl draws yn eu hwynebu i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd yn un o'r nifer o rwystrau y maent yn dod ar eu traws wrth ymgysylltu â'r gymdeithas ehangach. Mae'r arolwg LGBT yn tynnu sylw at hyn. Er enghraifft:

- Sgoriodd ymatebwyr i'r arolwg eu boddhad bywyd allan o 10. Y sgôr boddhad cymedrig ar gyfer holl ymatebwyr yr arolwg oedd 6.5. Roedd y sgôr boddhad cymedrig ar gyfer dynion traws yn 5.1, ar gyfer merched roedd yn 5.5. ac ar gyfer ymatebwyr anneuaidd roedd yn 5.5. Wrth gymharu'r rhain ag ystadegau ONS gan ddefnyddio'r un mesuriadau metrig, mae hyn yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer y boblogaeth gyffredinol sydd â chymedr o 7.7/10.¹⁴
- Roedd 37% o ymatebwyr traws wedi dioddef aflonyddwch ar lafar, bygythiadau a sylwadau niweidiol dros y 12 mis diwethaf oherwydd eu statws LGBT gan rywun nad oeddynt yn cyd-fyw â nhw. Adroddwyd am fygythiadau, trais corfforol a thrais rhywiol hefyd.
- Roedd llawer o ymatebwyr traws a oedd mewn addysg yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf wedi cael profiadau negyddol yn eu sefydliad addysgol gan eu bod yn LGBT, neu bobl yn honni eu bod. Dywedodd tua 1 o bob 3 o ymatebwyr traws mewn addysg eu bod wedi profi ymateb negyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan fod rhywun wedi datgelu eu statws LGBT heb eu caniatâd, a ffigwr tebyg yn sgil aflonyddwch ar lafar, bygythiadau a sylwadau niweidiol eraill. Dywedodd 1 o bob 10 mai'r rheswm oedd gan eu bod wedi cael eu heithrio o ddigwyddiadau neu weithgareddau.
- Dywedodd 42% o ymatebwyr traws a oedd wedi defnyddio neu geisio cael gwasanaethau arbenigol mewn clinigau hunaniaeth ryweddol nad oedd hynny'n 'hawdd o gwbl', gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (68%) yn nodi

¹³ Mae yna nifer o resymau pam nad oes amcangyfrif pendant o faint a chyfansoddiad y boblogaeth draws yn y DU. Mae cael mesuriadau cywir o boblogaethau bychain a gwasgarog yn anodd ac nid oes un dull safonol ar gyfer casglu data ar hunaniaeth ryweddol. Yn ogystal, efallai na fydd rhai unigolion yn fodlon datgelu eu bod yn draws oherwydd pryderon preifatrwydd ac i rai nid yw bod yn draws yn golygu hunaniaeth ryweddol am oes. Gwyddom hefyd fod yn well gan rai unigolion traws adnabod fel eu rhywedd caffaeledig yn unig yn hytrach na fel traws o gwbl.

¹⁴ ONS (2017). Lles personol yn y DU: Mis Hydref i fis Medi 2016. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/measuringnationalwellbeing/oct2015tosept2016>

rhedraau aros hir fel y prif reswm dros hyn.

- Dywedodd 16% o ymatebwyr traws a oedd wedi dechrau neu orffen trawsnewid eu bod wedi defnyddio neu dalu am wasanaethau gofal iechyd neu driniaeth feddygol y tu allan i'r DU (e.e. hormonau croesrywiol neu lawdriniaeth). Roedd 50% arall wedi ystyried hynny.
- Dywedodd dwy ran o dair (66%) o ymatebwyr traws eu bod yn osgoi dangos eu hunaniaeth ryweddol gan eu bod yn ofni ymatebion negyddol gan eraill. Roedd hyn yn broblem benodol yn y gwaith, ar drafnidiaeth gyhoeddus ac wrth gerdded ar strydoedd.

31. Y tu allan i'r arolwg LGBT, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o gyfres o ystadegau difrifol sy'n amlygu'r anghydraddoldebau parhaus y mae pobl draws yn eu hwynebu:

- Cofnodwyd 1,250 o droseddau casineb yn erbyn pobl draws gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn 2016-17, cynnydd o 45% ar y 858 yn 2015-16. Mae ffigyrau 2015-16 yn eu tro yn gynnydd o 41% ar y 607 yn 2014-15.¹⁵ Yn rhannol, mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i adroddiadau gwell gan yr heddlu a pharodrwydd cynyddol dioddefwyr i gyfaddef.
- Canfu Stonewall fod dau o bob pum person traws wedi dioddef troseddau casineb neu ddigwyddiad oherwydd eu hunaniaeth ryweddol dros y 12 mis diwethaf a bod un o bob pum person traws wedi dioddef trais trawsffobig ar-lein yn y mis diwethaf.¹⁶
- Canfu arolwg iechyd meddwl traws fod dros hanner ymatebwyr traws wedi hunan-niweidio ar ryw adeg yn eu bywyd a bod 84% wedi ystyried diweddu eu bywyd ar ryw adeg, gyda hanner ohonynt yn ceisio gwneud hynny o leiaf unwaith.¹⁷
- Mae athrawon ysgolion uwchradd yn ystyried myfyrwyr traws fel y rhai sy'n derbyn y lleiaf o gefnogaeth yn yr ysgol, gyda 7% yn dweud bod ysgolion yn eu cefnogi.¹⁸

32. Ni fydd diwygio'r broses cydnabod rhywedd gyfreithiol yn datrys rhai o'r rhwystrau hyn, ond mi fydd yn helpu. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi cynllun gweithredu LGBT ehangach a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r anghydraddoldebau parhaus y mae pobl LGBT yn eu hwynebu. Mae'r cynllun gweithredu'n ymateb i ganfyddiadau'r arolwg LGBT, nid yn unig ar gyfer pobl draws ond ar gyfer pobl LGBT yn fwy cyffredinol.

Roedd ymatebwyr traws i'r arolwg LGBT yn glir am y problemau gyda'r broses GRA

33. Yn yr arolwg LGBT, gofynnodd y Llywodraeth gyfres o gwestiynau i ymatebwyr

¹⁵ Gweler ystadegau Troseddau Casineb yng Nghymru a Lloegr y Swyddfa Gartref <https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2016-to-2017>

¹⁶ Gweler adroddiad LGBT ym Mhrydain Stonewall <http://www.stonewall.org.uk/comeoutforLGBT/lgbt-in-britain/hate-crime>

¹⁷ Gweler yr Astudiaeth Iechyd Meddwl Traws https://www.scottishtrans.org/wp-content/uploads/2013/03/trans_mh_study.pdf

¹⁸ Gweler Adolygiad Tair Blynedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Adroddiad 'Pa mor deg yw Prydain?' ar dudalen 320 https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/how_fair_is_britain_-_complete_report.pdf

traws am y broses GRA. Mae'r arolwg yn cynrychioli'r sampl mwyaf o bobl draws gan roi eu barn am y broses cydnabod rhywedd gyfreithiol hyd yn hyn, gyda 6,900 o bobl yn adnabod eu hunain fel traws (ac eithrio anneuaidd). Mae dadansoddiad llawn o'r arolwg, gan gynnwys dadansoddiad o ymatebion i gwestiwn testun agored terfynol lle'r oedd ymatebwyr yn gallu codi unrhyw fater yr oeddynt yn dymuno, ar gael nawr ac ystyrir canfyddiadau'r arolwg fel rhan o ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn.

34. Gofynnwyd i'r dynion a'r merched traws hynny nad oedd wedi cael GRC ond a oedd yn ymwybodol o'r broses, pam nad oeddynt wedi ymgeisio.¹⁹ Pan ofynnwyd pam nad oeddynt wedi ymgeisio:

- Dywedodd 44% o ymatebwyr na wnaethant fodloni'r gofynion;
- Dywedodd 39% fod y broses yn rhy fiwrocraidd;
- Dywedodd 34% fod y broses yn rhy ddur;
- Dywedodd 19% nad oeddynt yn gallu cael yr help sydd ei angen arnynt i gyflwyno cais llwyddiannus;
- Nid oedd 8% eisiau cyflwyno gwybodaeth feddygol; ac,
- Roedd 8% yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar yr wybodaeth feddygol sy'n ofynnol.

Gallai ymatebwyr ddarparu nifer o resymau os yn briodol, dyna pam fod y ffigyrau yn adio i greu cyfanswm dros 100%.

35. Mae'r anghysondeb rhwng y nifer â thystysgrif a'r hyn rydym yn ei wybod am y boblogaeth draws yn drawiadol. Mae'n codi'r cwestiwn pa un a yw'r system gyfredol yn rhwystr sylweddol i gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o rywedd.

Galw cynyddol am Wasanaethau Datblygu Hunaniaeth Ryweddol


36. Mae'r Llywodraeth hefyd yn ymwybodol bod y galw am wasanaethau megis Gwasanaethau Datblygu Hunaniaeth Rywedd yn cynyddu. Mae'r nifer o bobl ifanc dan 18 oed a gyfeirir at y Gwasanaeth Datblygu Hunaniaeth Rywedd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2009.²⁰ Comisiynir y gwasanaeth gan GIG Lloegr ac mae'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael problemau â'u hunaniaeth ryweddol. Yn 2009-10 derbyniodd y gwasanaeth 96 o atgyfeiriadau ond roedd hyn wedi cynyddu i 2,016 erbyn 2016-17, fel y dengys Ffigwr 1. Nid ydym yn gwybod yn union beth sy'n gyrru'r cynnydd hwn. Efallai ei fod oherwydd bod mwy o bobl yn teimlo y gallant ddatgelu'n gyhoeddus eu bod yn draws a gofyn am gymorth gan y GIG. Ar gyfer y gwasanaethau oedolion, gwyddom, er enghraifft, fod yna gynnydd o 20% - 40% flwyddyn ar ôl flwyddyn mewn atgyfeiriadau ar gyfer rhai gwasanaethau.²¹

¹⁹ Nid oedd un rhan o bump (19%) o ymatebwyr traws yn ymwybodol y gallant gael cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd caffaeledig drwy GRC.

²⁰ Gweler: <https://tavistockandportman.nhs.uk/documents/408/gids-service-statistics.pdf>

²¹ https://www.whatdotheyknow.com/request/waiting_times_for_charing_cross

Ffigwr 1: Nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed i'r Gwasanaeth Datblygu Hunaniaeth Rywedd, yn ôl y rhywedd a gofnodwyd ar enedigaeth



Pwyllgor Dethol ar Ferched a Chydraddoldeb

37. Mae canfyddiadau'r arolwg LGBT yn cydfynd â chanfyddiadau Pwyllgor Dethol ar Ferched a Chydraddoldebau (WESC) a gynhyrchodd yr adroddiad cyntaf erioed gan Bwyllgor Dethol ar gydraddoldeb trawsryweddol, ym mis Ionawr 2016.²² Disgrifiodd dystion y WESC y broses ymgeisio GRA fel un 'fiwrocraidd', 'drud' a 'gwaradwyddus.'
38. Yn benodol, beirniadwyd agweddau meddygol y broses gan dystion y WESC. Codwyd pryderon am yr angen am ddiagnosis o ddysfforia rhywedd. Honnwyd bod hyn yn 'pathologeiddio' hunaniaethau trawsryweddol, a all achosi gofid ac mae'n ddull amhriodol o ymdrin â hunaniaeth ryweddol, gan awgrymu mai salwch meddwl ydyw. Codwyd pryderon hefyd am yr angen am ail adroddiad meddygol sy'n cynnwys unrhyw driniaeth a gafodd yr ymgeisydd, er enghraifft, triniaeth neu lawdriniaeth hormonau croesrywiol. Yn ôl y dystion cawsant brofiad o gael cwestiynau ymwithiol yn ysgrifenedig gan y GRP ynglŷn â'u hanes rhywiol a llawfeddygol, a oedd yn ddiangen, yn ddiraddiol ac yn creu gofid yn eu barn nhw.
39. Gwnaed sylwadau mwy cyffredinol hefyd gan ymatebwyr i'r archwiliad WESC am briodoldeb panel o bobl, sef panel nad yw'n cwrdd â'r sawl sy'n ymgeisio am gydnabyddiaeth gyfreithlon, ond sy'n gwneud penderfyniadau am deimladau rhyweddol mewnol unigolyn. Honnwyd mai mater i'r unigolyn yw hyn ac nid mater i rywun arall benderfynu arno, yn enwedig os yw hynny ar draul yr unigolyn.
40. Archwiliwyd elfennau eraill o'r broses hefyd gan WESC – sef y terfyn oedran gofynnol, y gwaharddiad ar ddatgelu gwybodaeth yn y GRA a'r angen i gael cydsyniad gan briod cyn gallu cymeradwyo GRC llawn i ymgeisydd sydd yn

²² Gweler <https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/women-and-equalities-committee/inquiries/parliament-2015/transgender-equality/>

briod.

41. Wrth eu hystyried gyda'i gilydd, dengys y dystiolaeth hon fod y GRA yn wasanaeth cyhoeddus nad yw'n gweithredu ar ran ei ddefnyddwyr. Mae'r system bresennol yn atal gormod o bobl draws rhag cael cydnabyddiaeth gyfreithiol o bwy ydynt, gan eu hamddifadu o'r urddas a'r parch sydd ynghlwm â hynny. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad dewis yw bod yn draws. Gan hynny, ni ddylai unrhyw rwystrau diangen atal pobl draws rhag byw bywydau hapus a llawn, ac yn yr un modd nid ydym ninnau'n dymuno gweld rhwystrau diangen yn atal unrhyw ddinesydd arall.

Dulliau Rhyngwladol

42. Yn gynharach, disgrifiwyd y gwahanol 'fodelau' o gydnabod rhywedd cyfreithlon. Yn ddiweddar, bu gwledydd yn symud tuag at fodel o heb asesiad hunan-ddatgan. Mae'r gwledydd sydd wedi mabwysiadu'r math hwn o fodel yn cynnwys Norwy, Denmarc, Malta, Colombia, Yr Ariannin a Gweriniaeth Iwerddon. Mae rhai taleithiau Canada a'r Unol Daleithiau, fel Quebec ac Oregon, hefyd wedi gwneud yr un modd.
43. Rhoddodd Gweriniaeth Iwerddon y math yma o system ar waith yn 2015. Gall unigolyn a gafodd ei gofrestru fel un a aned neu a fabwysiadwyd yno, neu sy'n breswlydd yno fel arfer, gael ei rywedd o ddewis fel dyn neu ddynes wedi ei chydabod a chael newid ei rywedd neu gyfreithlon. Rhaid i'r unigolyn gyflwyno ffurflen sy'n ymgorffori datganiad statudol i'r Adran Diogelwch Cymdeithasol, gan ddatgan fod ef neu hi:
- â'r bwriad pendant a phwrpasol o fyw yn ei rywedd o ddewis am weddill ei oes;
 - yn deall goblygiadau'r cais; ac yn
 - gwneud y cais ei hun yn wirfoddol.
44. Rhaid i'r datganiad statudol gael ei dystio gan unigolyn sydd ag awdurdod i dderbyn datganiadau statudol yng Ngweriniaeth Iwerddon, fel notari cyhoeddus neu gomisiynydd llwon.
45. Mae trefniant Denmarc ychydig yn wahanol ar gyfer hyn. Gall unigolyn drawsryweddol o Ddenmarc newid ei rywedd yn unol â'r hyn a gofnodir ar Gofrestr Ganolog Pobl Denmarc, ar sail ei ddatganiad ysgrifenedig fel unigolyn 'sydd â naws o fod yn perthyn i'r rhyw arall'. Nid yw'r datganiad angen unrhyw dyst ychwanegol neu ddilysiad pellach. Fodd bynnag, nid yw ei rywedd cyfreithlon newydd yn cael ei gydnabod hyd nes iddo ail gadarnhau ei gais wedi cyfnod o chwe mis o fyfrio.
46. Mae gan wledydd a thiriogaethau eraill fodel yn seiliedig ar asesiad, ond un nad yw'n gofyn am ddiagnosis meddygol. Mae Ffrainc a'r Almaen yn enghreifftiau o hyn, ac felly hefyd British Columbia.
47. O 2014, caniataodd British Columbia unigolyn a aned yno gyflwyno cais i'r Asiantaeth Ystadegau Bywyd. Gall yr ymgeisydd ofyn am newid ar ei dystysgrif geni o fenywaidd i wrywaidd neu i'r gwrthwyneb. Rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno:
- cais yn cynnwys datganiad personol a ymgwymerwyd ganddo, ei fod yn ei

gydnabod ac yn bwriadu cynnal ei hunaniaeth rywedd sy'n cydfynd â'i gais dewisol; a

- datganiad gan feddyg neu seicolegydd sy'n cadarnhau hunaniaeth ryweddol yr ymgeisydd.

48. Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi ymgynghori ar ddiwygio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd ac mae'r Llywodraeth yn awr yn dymuno ymgynghori ar sut ellid hefyd diwygio'r GRA 2004 yng Nghymru a Lloegr.

Deddf Cydnabod Rhywedd 2004: Cwestiynau ar ddiwygio

49. Mae'r Llywodraeth yn dymuno ei gwneud hi'n llai ymwithiol a biwrocraataidd i bobl draws gael cydnabyddiaeth gyfreithiol am eu rhywedd. Mae'r adran hon o'r ymgynghoriad yn trafod ein cynigion mewn mwy o fanylder.
50. Wrth helpu i benderfynu sut y dylem weithredu, hoffem glywed rhagor gan bobl draws am eu profiadau yn gyffredinol gyda'r broses GRA. O'r arolwg LGBT cafwyd gwybodaeth feintiol ddefnyddiol ar y rhesymau pam na chafwyd ceisiadau gan bobl a allasai fod wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, ni chafwyd manylder ar hynny yn yr arolwg. Ni chawsom ychwaith lawer o wybodaeth ar beth mae cael GRC yn ei olygu neu a allai olygu i unigolyn traws. Gofynnwn y ddau gwestiwn canlynol felly.

Cwestiwn 1

Os ydych chi'n berson traws, a ydych chi wedi gwneud cais yn flaenorol am, neu a ydych chi'n gwneud cais ar hyn o bryd, am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd?

◆ Do/Ydw

◆ Naddo/Nac ydw

Os ydych, dywedwch wrthym am eich profiadau o'r broses.

Os nad ydych, dywedwch wrthym pam nad ydych chi wedi gwneud cais?

Os ydych chi wedi gwneud cais, a wnaethoch lwyddo i ennill Tystysgrif Cydnabod Rhywedd?

◆ Do/Ydw

◆ Naddo/Nac ydw

◆ Yn disgwyl penderfyniad

Diogelir yr wybodaeth a ddarperir fel ymateb i'r cwestiwn hwn dan ddarpariaeth Adran 22 o'r Ddeddf Cydnabyddiaeth Rhywedd, fel sy'n berthnasol.

Efallai y bydd enghreifftiau a roddir yn cael eu cyhoeddi yn yr ymateb i'r ymgynghoriaeth ond bydd rhai yn llwyr ddienw.

Cwestiwn 2

Os ydych yn berson traws, dywedwch wrthym beth mae, neu beth fyddai, cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd yn ei olygu i chi.

Diogelir yr wybodaeth a ddarperir fel ymateb i'r cwestiwn hwn dan ddarpariaeth Adran 22 o'r Ddeddf Cydnabyddiaeth Rhywedd, fel sy'n berthnasol.

Efallai y bydd enghreifftiau a roddir yn cael eu cyhoeddi yn yr ymateb i'r ymgynghoriaeth ond bydd rhai yn llwyr ddienw.

Y Gofynion Tystiolaeth ar gyfer Cydnabod Rhywedd yn Gyfreithlon

51. Yn yr adran hon o'r ymgynghoriad rydym yn ystyried y gofynion tystiolaeth canlynol ar gyfer cydnabod yn gyfreithlon:

- Yr angen i ddarparu adroddiadau meddygol sy'n tystiolaethu dysfforia rhywedd a/neu driniaeth;
- Yr angen i gasglu dogfennaeth sy'n profi bod person traws wedi bod yn byw am ddwy flynedd o leiaf gyda'i rywedd caffaeledig; a'r
- Angen i ddarparu datganiad statudol o fwriad y person traws i fyw yn ei rywedd caffaeledig am oes.

Gorfod darparu tystiolaeth feddygol

52. Mae'r rhan helaeth o geisiadau GRA (dros 95%) yn defnyddio'r trac ymgeisio 'safonol'. Gyda'r trefniant hwnnw, gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu dau adroddiad meddygol.

53. Rhaid i'r adroddiad cyntaf ddangos bod gan yr ymgeisydd ddysfforia rhywedd, neu ei fod wedi ei gael.²³ Rhaid i ymarferydd meddygol cofrestredig ddarparu'r adroddiad hwn, neu seicolegydd cofrestredig sy'n ymarfer ym maes dysfforia rhywedd. Mae 96 o ymarferwyr o'r fath yn y DU.²⁴ Rhaid i'r ail adroddiad amlinellu unrhyw driniaeth a gafodd yr ymgeisydd neu sydd ar y gweill er dibenion addasu ei nodweddion rhywedd. Rhaid i hyn hefyd gael ei ddarparu gan ymarferydd meddygol cofrestredig, ond nid oes raid i'r ymarferydd fod yn ymarfer ym maes dysfforia rhywedd.

54. Mae llawer o bobl draws wedi datgan y farn bod yr angen am ddiagnosis o ddysfforia rhywedd yn israddiol ac yn portreadu hunaniaeth yr ymgeisydd fel un sydd â phroblem feddyliol. Yn hytrach nag uniolgyr yn medru cadarnhau ei hunaniaeth ryweddol ei hun, mae'n gorfod dibynnu ar y proffesiwn meddygol er mwyn i'w hunaniaeth ryweddol gael ei chydabod yn gyfreithlon.

55. Cred rhai pobl draws hefyd fod y GRP yn ymwthiol os yw'n ceisio rhagor o wybodaeth am hanes y driniaeth feddygol a'r diagnosis, yn enwedig os bydd angen i'r ymgeisydd egluro pam na chwblhawyd unrhyw driniaeth i addasu nodweddion rhywiol. Ystyrir hyn fel rhywbeth diangen ac sy'n creu gofid. Honnir hefyd bod gorfod casglu adroddiadau gan wahanol ymarferwyr meddygol yn gallu bod yn feichus ac yn ddrud.

56. Nodwyd hefyd bod y trefniadau presennol yn eithrio unigolion sy'n dymuno cael eu cydnabod yn gyfreithlon ond nad ydynt yn profi dysfforia rhywedd yn unol â'r diffiniad meddygol – h.y. nid ydynt yn dioddef unrhyw anhwylder neu drallod. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid i ni fod hyn yn effeithio'n benodol ar unigolion sydd â nodweddion rhyngrywiol lle aseiniwyd y rhywioldeb anghywir pan gawsant eu geni.

²³ Bydd y panel hefyd yn derbyn diagnosis o anhwylder hunaniaeth ryweddol neu drawsrywioldd, sydd yn ddau derm a fathwyd cyn y defnydd o'r term o ddysfforia rhywedd.

²⁴ Mae rhestr ar gael ar wefan y Panel Cydnabod Rhywedd.

57. Dylid nodi nad oes unrhyw awgrym y dylid cael gwared ar yr angen am ddiagnosis o ddysfforia rhywedd o'r llwybr triniaeth feddygol i bobl draws. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyfeirio at y broses o gydnabyddiaeth gyfreithlon yn unig.
58. Byddai cael gwared ar y gofynion hyn o dystiolaeth yn golygu cael gwared ar yr angen am adroddiad meddygol – mewn perthynas â dysfforia rhyweddol neu unrhyw driniaeth a gafwyd. Er nad oes gan gydnabyddiaeth gyfreithlon, nawr nac o hyn ymlaen, unrhyw ddylanwad ar yr hawl i gael triniaeth feddygol, byddai hyn yn datgysylltu'r broses drawsnewid feddygol o'r broses drawsnewid gyfreithlon. Mae'r Llywodraeth y dymuno deall y safbwyntiau ar hyn.

Cwestiwn 3

A ydych chi'n credu y dylai fod yna ofyniad yn y dyfodol am ddiagnosis o ddysfforia rhywedd?

◆ Do/Ydw

◆ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb.

Cwestiwn 4

A ydych chi'n credu y dylai fod yn ofyniad am adroddiad sy'n manylu'r driniaeth a gafwyd?

◆ Do/Ydw

◆ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb.

Tystiolaeth o fyw mewn rhywedd caffaeledig

59. Rhaid i ymgeiswyr GRC ar y trac ymgeisio 'safonol' brofi hefyd eu bod wedi bod yn byw yn barhaus yn eu rhywedd caffaeledig am ddwy flynedd o leiaf cyn dyddiad eu cais. Fel tystiolaeth, mae'r GRP yn gofyn am gael gweld detholiad o ddogfennau yn gysylltiedig â'r ddwy flynedd hynny. Rhestrir y dogfennau hyn fel canllaw, nid yn gyfreithiol. Gallant gynnwys trwyddedau gyrru, pasbortau, llythyrau gan fanciau neu sefydliadau ariannol eraill, biliau cyfleustodau neu dystysgrifau academiaidd.
60. Honnir gan rai pobl fod dwy flynedd yn rhy hir i brofi ymrwymiad o fod yn byw yn y rhywedd caffaeledig, yn enwedig gan mai am flwyddyn yn unig sydd yn rhaid i unigolyn fyw yn ei rhywedd caffaeledig cyn bod yn gymwys i gael llawdriniaeth ailbennu rhywedd fel rhan o drawsnewid meddygol. Ystyrir y cyfnod dwy flynedd yn fymptyol hefyd.
61. Gall y gofyniad fod yn neilltuol o anodd i bobl ifanc ei fodloni gan na fydd y ddogfennaeth ofynnol ganddynt efallai hyd nes iddynt gyrraedd 18 oed. O'r ymatebwyr trawsryweddol ac anneauidd i'r arolwg LGBT Cenedlaethol, dywedodd tua 35% eu bod wedi dechrau trawsnewid cyn cyrraedd 18 oed (ac ar

gyfer dynion trawsryweddol, dechreuodd 53% ohonynt drawsnewid cyn iddynt gyrraedd 18 oed). Dechreuodd 32% arall o ymatebwyr trawsnewidiol ac anneauidd drawsnewid rhwng 18 a 24 oed. Gall cael y ddogfennaeth angenrheidiol fod yn anoddach fyth os na chafodd y person trawsryweddol gefnogaeth ei rieni neu ofalwyr pan gyhoeddodd ei fod yn drawsryweddol. Yn gyffredinol, mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r pryderon ynglŷn â chael y ddogfennaeth angenrheidiol yn y rhywedd caffaeledig ac yn yr enw newydd.

62. Gwyddom fod 39% o'r ymatebwyr traws i'r arolwg LGBT, a oedd yn ymwybodol o'r broses GRC ond na chafodd un a heb erioed ymgeisio am un, o'r farn fod y broses yn rhy fiwrocataidd. Honnwyd bod gorfod casglu chwech neu saith eitem o dystiolaeth (ac ymgysylltu â'r sefydliad neu'r awdurdod perthnasol er mwyn newid yr hunaniaeth rywedd arnynt), yn feichus. Gall y wybodaeth a ddarperir fod yn sensitif hefyd (e.e. cyfriflenni banc, gwybodaeth am dreth, llythyrau gan feddyg teulu) ac os bydd y GRP yn gofyn cwestiynnau dilynol yna gall hynny deimlo'n ymwithiol iawn.
63. Byddai tynnu'r gofyniad o brofi byw am ddwy flynedd yn lleihau'r baich a roddir ar bobl draws. Byddai yn eu hatal rhag gorfod casglu dystiolaeth sy'n cymryd llawer iawn o'u hamser ac sy'n ddrud. Byddai'n golygu nad oes raid iddynt gyflwyno dystiolaeth i banel nad ydynt yn ei gwrdd. I bobl ifanc, byddai hefyd yn ei gwneud hi'n haws iddynt sicrhau cydnabyddiaeth gyfreithlon wrth iddynt gychwyn eu bywyd fel oedolyn yn 18 oed.
64. Byddai lleihau, yn hytrach na dileu, y cyfnod dwy flynedd yn lleihau'r amser y gall gymryd i bobl draws drawsnewid yn gyfreithlon.
65. Gallai lleihau neu ddileu'r gofyniad dwy flynedd ei gwneud hi'n haws i bobl drawsryweddol gael eu derbyn yn gynt mewn cymdeithas.
66. Petai'r gofyniad profi byw am ddwy flynedd yn cael ei ddileu, byddai gennym ddiddordeb cael barn pobl ar gyflwyno cyfnod o fyfyrto i mewn i'r broses. Mae cyfnod o'r fath yn bodoli mewn gwledydd eraill, fel Denmarc a Gwlad Belg. Byddai hyn yn golygu y byddai person traws yn gorfod disgwyl cyfnod penodol o amser, fel chwe mis er enghraifft, rhwng cyflwyno ei gais a derbyn GRC. Yr egwyddor fyddai rhoi amser i berson traws ystyried goblygiadau a difrifoldeb ei benderfyniad. Y nod hefyd yw lleihau'r risg y byddai'r person traws yn newid ei feddwl.

Cwestiwn 5

Dan y system cydnabod rhywedd ar hyn o bryd, rhaid i ymgeisydd ddarparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi byw yn ei rhywedd caffaeledig am ddwy flynedd o leiaf.

(A) A ydych yn credu y dylai ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ei fod wedi byw yn eu rhywedd caffaeledig am gyfnod o amser cyn gwneud cais?

- ☐ Do/Ydw
- ☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb.

(B) Os ateboch ydw i (A), a ydych yn credu bod yr opsiynau tystiolaeth bresennol yn addas, neu a ellid eu diwygio?

(C) Os ateboch ydw i (A), am ba gyfnod o amser y dylai ymgeisydd orfod darparu tystiolaeth ar ei gyfer?

- ☐ Dwy flynedd neu fwy;
- ☐ Rhwng blwyddyn a dwy flynedd;
- ☐ Rhwng chwe mis a blwyddyn;
- ☐ Chwe mis neu lai.

(D) Os ateboch nac ydw i (A), a ddylai fod cyfnod o fyfyrto rhwng gwneud y cais a dyfarnu gyda Thystysgrif Cydnabod Rhywedd?

Gorfod darparu datganiad statudol

67. Rhaid i ymgeiswyr GRC ar y traciau cais 'safonol' ac 'amgen' gyflwyno datganiad statudol fel rhan o'u cais. Rhaid i'r datganiad nodi eu bwriad i fyw'n barhaol yn eu rhywedd caffaeledig am oes.

68. Rhaid llofnodi datganiadau statudol ym mhresenoldeb unigolyn sydd ag awdurdod i weinyddu llwon yn gyfreithlon, fel cyfreithiwr cymwys, ynad neu gomisiynydd llwon.

69. Mae'n ofyniad cyfreithlon y dylai datganiadau statudol gynnwys y geiriad canlynol:

"I (name) do solemnly and sincerely declare, that/as follows... .. and I make this solemn declaration conscientiously believing the same to be true, and by virtue of the provisions of the Statutory Declarations Act 1835."

70. Mae'n drosedd gwneud datganiad statudol ffug yn fwriadol.²⁵ Gall y gosb am drosedd o'r fath olygu dwy flynedd o garchar, dirwy ddiderfyn neu'r ddau.

71. Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn cael gwybod a ddylid cael rhyw fath o ddatganiad statudol yn ofynnol gan ymgeiswyr GRC, waeth pa newidiadau eraill a wneir i'r broses. Wrth gael datganiad statudol, byddai hynny'n adlewyrchu goblygiadau cyfreithiol pwysig cydnabod rhywedd. Mae'n sicrhau lefel o ardystiad

²⁵ Gweler Adran 5 y Ddeddf Anudon 1911.

bod y cais yn un diliys ac yn gweithredu fel sicrwydd ynghyd â chosbau cyfreithiol os tramgwyddir y system.

Cwestiwn 6

Ar hyn o bryd, rhaid i ymgeiswyr am dystysgrif cydnabod rhywedd wneud datganiad statudol fel rhan o'r broses.

(A) A ydych yn credu y dylid cadw'r gofyniad hwn, waeth pa newidiadau eraill a wneir i'r system cydnabod rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb.

(B) Os ateboch ydw i (A), a ydych yn credu y dylai'r datganiad statudol nodi bod yr ymgeisydd yn bwriadu 'byw'n barhaus yn y rhywedd caffaeledig am oes'?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

(C) Os ateboch nac ydw i (A), a ydych yn credu y dylid cael unrhyw fath arall o ddiogelwch i ddangos difrifoldeb y bwriad?

Priodas a Phartneriaeth Sifil

72. Yn yr adran hon, ystyriwn y gofyniad bod yn rhaid i ymgeiswyr traws priod gael caniatâd eu priod er mwyn cyflwyno cais llwyddiannus. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddefnyddio'r ymgynghoriad fel ffordd o gasglu tystiolaeth ar y gofyniad hwn.
73. Cyn y Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, roedd yn rhaid i bobl draws a phriod a oedd yn dymuno cael cydnabyddiaeth gyfreithlon ysgaru neu ddiddymu eu priodas cyn ymgeisio. Ar yr adeg honno, nid oedd yn bosibl i gyplau o'r un rhyw fod yn briod a chanlyniad cydnabyddiaeth gyfreithlon fyddai newid y berthynas o un o wahanol ryw i un o'r un rhyw.
74. Yn dilyn dyfodiad priodas o'r un rhyw, daeth yn bosibl i briodasau barhau ar ol i un aelod o'r briodas gael GRC. O ganlyniad i ddeddfwriaeth priodasau o'r un rhyw, tynnwyd y gofyniad bod yn rhaid i ymgeiswyr priod ysgaru neu ddiddymu eu priodas, a'i ddisodli gyda gofyniad bod yn rhaid i'r priod nad yw'n draws roi caniatâd, drwy ddatganiad statudol, i'r briodas barhau ar ôl dyddiad y gydnabyddiaeth gyfreithlon.²⁶ Mae hyn yn berthnasol os oedd y briodas wreiddiol rhwng dyn a dynes, neu gwpl o'r un rhyw.
75. Os nad yw'r priod yn rhoi caniatâd, yna bydd y GRP yn dyfarnu 'GRP' dros dro i'r ymgeisydd traws, ar yr amod bod amodau eraill (diagnosis o ddysfforai rhywedd ac ati) yn cael eu bodloni. Gellir defnyddio'r GRC dros dro gan yr ymgeisydd neu ei briod fel sail i ddiddymu'r briodas. Unwaith y diddymir y briodas, fe gyhoeddir y GRC. Nid oes gan y GRC dros dro unrhyw arwyddocâd cyfreithiol ar wahân i alluogi i'r briodas gael ei diddymu ac nid yw'n gweithredu fel cydnabyddiaeth gyfreithiol o rywedd caffaeledig.
76. Ers i'r GRA ddod i rym cyhoeddwyd dros 196 o dystysgrifau dros dro, gyda 130 ohonynt wedi'u trosi'n GRC llawn, sef cyfradd drosi o 66%²⁷.
77. Mae'r sefyllfa ar gyfer partneriaethau sifil yn wahanol. Mae partneriaethau sifil ar gael i gyplau o'r un rhyw yn unig. Rhaid i ymgeiswyr am GRC sydd mewn partneriaeth sifil ddiweddu'r bartneriaeth honno (neu ei throsi'n briodas) er mwyn llwyddo gyda'r cais. Fodd bynnag, mae'n bosibl i bartneriaethau sifil barhau os dyfernir GRC i'r ddau bartner sifil ar yr un pryd. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r ddau unigolyn gael eu GRC ar yr un diwrnod a rhaid iddynt fodloni'r meini prawf eraill. Os bydd ymgeisydd a'i bartner sifil yn penderfynu trosi eu partneriaeth sifil yn briodas, yna byddai'r ymgeisydd yn gorfod dilyn y broses ar gyfer ymgeiswyr priod.
78. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o amryw o bryderon ynglŷn â'r angen am ganiatâd priod a bod y ddarpariaeth hon yn bryder mawr ymysg pobl draws. Yn

²⁶ Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon gan na all cyplau o'r un rhyw briodi yno. Mae'r sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon yr un fath â'r sefyllfa fel ag yr oedd yng Nghymru a Lloegr cyn y Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013 – ni chaniateir i ymgeiswyr fod yn briod os ydynt yn dymuno cael GRC a rhaid iddynt ysgaru cyn cyflwyno cais.

²⁷ <https://www.gov.uk/government/statistics/tribunals-and-gender-recognitions-certificates-statistics-quarterly-january-to-march-2018>

seiliedig ar ymatebion i'r arolwg LGBT, ymgysylltiad y Llywodraeth cyn yr ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid ac ymatebion yr Archwiliad WESC ar gydraddoldeb trawsryweddol, deallwn mai'r prif bryderon yw:

- Bod yr angen am ganiatâd priod yn ymestyn y gallu i wneud penderfyniadau am hunaniaeth ryweddol person traws i rywun arall, tu hwnt i'r pŵer a roddir i'r GRP;
- Os nad yw'r caniatâd yn cael ei roi, gall hyn oedi'r broses cydnabod rhywedd cyfreithlon yn sylweddol, wrth i ddiddymiad y briodas ddigwydd. Gall hyn gymryd amser maith os yw'r diddymiad yn anodd, efallai gan ei fod yn ymwneud â threfniadau ariannol neu gyswllt plant cymhleth. Gall trefniadau diddymu cymhleth fod yn ddrud hefyd;
- Gall oedi bwriadol gyda chaniatâd gael ei ddefnyddio o bosib gan briod bygythiol gan arwain at gamdriniaeth ddomestig. Gall roi elfen ychwanegol o reolaeth i'r priod; ac
- Efallai na fydd caniatâd priod yn bosibl, er enghraifft os na ellir cysylltu â'r priod neu os oes ganddo ef neu hi anhwylderau meddyliol.

79. Ar y llaw arall, gellid dadlau, gan fod priodas yn gytundeb rhwng dau unigolyn, ei bod hi'n briodol i'r ddau briod gael barn gyfartal ar ddyfodol y cytundeb hwnnw os bydd newid sylfaenol, fel newid rhywedd un ohonynt. Dyma oedd y prif egwyddor wrth wraidd cyflwyno'r darpariaethau caniatâd priodasol yn neddfwriaeth priodasau o'r un rhyw. Gellid dadlau y gellid cyflawni hyn gyda gofyniad i hysbysu'ch priod os ymgeisiwch am GRC, yn hytrach na gofyniad i gael ei ganiatâd.

80. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddefnyddio'r ymgynghoriad fel ffordd o gasglu tystiolaeth am y darpariaethau caniatâd priodasol, gyda'r nod o'u haddasu yn unol â'r bwriad trosfwaol o wella'r broses cydnabod rhywedd cyfreithiol.

Cwestiwn 7

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddeall mwy ynghylch y ddarpariaeth caniatâd priod ar gyfer person priod yn y Ddeddf Cydnabod Rhywedd. A ydych yn cytuno gyda'r darpariaethau presennol?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb. Os credwch y dylid newid y darpariaethau, sut credwch y dylid eu newid?

Cost Cydnabod Rhywedd Cyfreithlon

81. Yn yr adran hon rydym yn ystyried y gost o sicrhau cydnabyddiaeth gyfreithlon. Mae'r Llywodraeth yn ystyried gostwng costau cydnabod fel rhan o wella'r broses GRA.
82. Ar gyfer GRC mae'r GRA yn mynnu bod ymgeiswyr yn talu ffi ymgeisio. Y ffi safonol yw £140, er gellir lleihau'r swm drwy gynllun o gwtogiad os yw'r ymgeisydd ar incwm a chyfalaf isel. Nid yw'r ffi wedi newid ers i'r GRA ddod i rym yn 2005.
83. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol hefyd y gall ymgeiswyr wynebu costau ychwanegol wrth geisio adroddiadau meddygol sy'n angenrheidiol ar gyfer y broses GRA. Mae gan y GIG ffi safonol a argymhellir o £80 am gynhyrchu'r adroddiadau hyn ond ni wyddwn beth yw hyd a lled y costau hyn yn ymarferol na pha mor aml y codir y ffioedd hynny. Yn ol pobl draws, mae costau hefyd ynghlwm â chael tyst ar gyfer y datganiad statudol.
84. Dywedodd ychydig dros draean o'r ymatebwyr traws i'r arolwg LGBT nad oedd â GRC ond a oedd yn ymwybodol o'r broses, mai un o'r rhesymau nad oeddynt wedi ymgeisio oedd oherwydd ei fod yn rhy ddrud. Yn gyffredinol, gwyddom fod llawer o bobl draws o'r farn na ddylid codi ffi am gydnabyddiaeth gyfreithiol fel mater o egwyddor. Rydym yn ymwybodol o achosion lle ni phroseswyd ceisiadau GRC gan fod rhywun wedi gwrthod talu'r ffi.
85. Rydym yn ymwybodol hefyd o'r ddadl y gall ymgeisio am gwtogiad i'r ffi fod yn feichus. Rhaid cwblhau ffurflen. Yn y gorffennol golygodd cynhyrchu nifer o ddogfennau i brofi'ch lefel o incwm a/neu'ch cynilion, fel cyfriflenni banc, slipiau cyflog a ffurflenni treth. Barn pobl drawsryweddol yw bod hyn yn faich ychwanegol i'r hyn a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori.
86. Mae'r cwynion yn adlewyrchu pryderon ehanagach am gynllun cwtogiad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, sy'n berthnasol i'r rhan fwyaf o awdurdodaethau'r HMCT sy'n codi ffi. I ymdrin â'r rhain a phryderon tebyg, mae'r HMCTS wedi cyflwyno rhai diwygiadau. Er enghraifft, ym mis Hydref 2015, ail lansiwyd y cynllun fel Help gyda Ffioedd, a oedd yn cynnwys:
- Fersiwn ddiwygiedig a symlach o'r canllaw (Ffurflen EX 160A) a ffurflen gais symlach.
 - Trefniant symlach lle nad oedd raid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o incwm fel mater o drefn mwyach; a
 - Cyflwyno dolen ddigidol i'r Adran Gwaith a Phensiwnau gyda chyfrifiannell gymhwysedd i helpu staff y llys i bennu ar unwaith y gostyngiad ffi yn ddyledus i'r ymgeisydd.
87. Ymhellach, ym mis Gorffennaf 2016, cyflwynodd HMCTS gyfleuster yn caniatáu ymgeiswyr i ymgeisio am Help gyda Ffioedd ar-lein.
88. Wrth benderfynu a ddylem ostwng y gost o ymgeisio am gydnabod rhywedd cyfreithiol, ac os felly, sut orau i wneud hynny, bydd angen i ni ystyried amryw o ffactorau. Y rheol arferol, a osodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus, yw y dylai ffioedd i gael defnyddio gwasanaethau cyhoeddus gael eu gosod ar lefel sydd â'r nod o

adfer y costau llawn, a dim mwy, o'r gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, dan drefniant presennol y ffi, o'r wybodaeth a roddwyd i'r Panel, gwelir bod incwm o ffioedd yn llawer iawn is na'r lefel llawn o adfer costau. Mae'n arferol i'r Llywodraeth godi ffi am wasanaethau, fel cynhyrchu pasbort neu adnewyddu trwydded yrru. Mae gwledydd eraill yn codi ffioedd yn rheolaidd am gydnabyddiaeth gyfreithlon; er enghraifft, mae Gweriniaeth Iwerddon yn gweithredu model 'hunan-ddatgan' ac yn codi 20 Euro i ymgeisio. Yn ogystal, gellid dadlau bod codi ffi yn gweithio fel ffordd o ddiogelu rhag ceisiadau maleisus neu ffug.

89. Ar y llaw arall, gallai'r gost o gynnal proses gydnabod gyfreithlon yng Nghymru a Lloegr fod yn is yn y dyfodol, os tynnir y gofynion tystiolaeth feddygol a cheir gwelliant gyda'r elfennau sy'n weddill. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ddylai defnyddwyr barhau i gyfrannu tuag at y gost o'r broses honno ac os flely, beth ddylai'r ffi briodol fod. Ymhellach, mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod llawer o bobl draws o'r farn bod y costau cyfredol yn llwyddo i rwystro ceisiadau dilys a gwirioneddol.
90. Ar hyn o bryd dymunwn ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i gasglu tystiolaeth ar gostau a fforddiadwyedd y broses ar hyn o bryd, er mwyn bwydo gwybodaeth ar gyfer ein penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys y ffi ymgeisio a chostau pellach, fel casglu adroddiadau meddygol neu gael datganiad statudol.

Cwestiwn 8

Ar hyn o bryd, rhaid i ymgeiswyr dalu £140 i wneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd.

(A) A ydych yn credu y dylid tynnu'r ffi o'r broses gwneud cais am gydnabod rhywedd gyfreithiol?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

(B) Os ateboch nac ydw i (A), a ydych yn credu y dylid lleihau'r ffi?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddeall mwy am y gost ariannol o sicrhau cydnabod rhywedd cyfreithiol, y tu hwnt i'r ffi ymgeisio o £140.

(C) Pa gostau ariannol eraill a wyneba pobl draws wrth wneud cais am dystysgrif cydnabod rhywedd a beth yw effaith y costau hyn?

Preifatrwydd a Datgelu Gwybodaeth

91. Yn y rhan hon o'r ymgynghoriad edrychwn ar adran benodol o'r GRA sy'n diogelu preifatrwydd y bobl draws a ymgeisiodd am GRC. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddeall mwy ynglŷn â sut mae'r diogelwch yma'n gweithio er mwyn i ni fod yn sicr bod y GRA yn gweithio'n iawn er budd pobl draws.

92. Nod Adran 22 o'r GRA yw diogelu preifatrwydd y bobl sydd â GRC neu sydd wedi ymgeisio am un. Mae'n drosedd, gyda chosb hyd at £5,000, i unigolyn sydd wedi caffael 'gwybodaeth a ddiogelir' mewn swydd swyddogol, i ddatgelu'r wybodaeth honno. Disgrifir 'gwybodaeth a ddiogelir' yn y Ddeddf. Mae'n wybodaeth am berson sydd wedi ymgeisio am GRC sydd yn ymwneud â'r cais neu rywedd yr ymgeisydd cyn y cais. Mae'r GRA yn rhestru rhai amgylchiadau lle nad yw datgelu gwybodaeth a ddiogelir yn drosedd. Yr amgylchiadau hynny yw:

- Pan mae'r unigolyn y mae'r wybodaeth ynghlwm ag ef neu hi yn anhysbys;
- Mae'r person wedi rhoi ei ganiatâd i ddatgelu'r wybodaeth;
- Mae'r wybodaeth yn ymwneud â rhywedd yr unigolyn cyn iddo ddod yn rhywedd caffaeledig ac nid yw'r unigolyn a ddatgelodd yr wybodaeth yn gwybod nac yn credu fod GRC lawn wedi'i chyhoeddi;
- Mae llys neu dribiwnlys yn gorchymyn y datgeliad neu gwnaed y datgeliad er dibenion gweithrediadau'r llys;
- Mae'r datgeliad er dibenion atal neu archwilio trosedd;
- Gwneir y datgeliad i Gofrestr Ganolog Cymru, Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon;
- Gwneir y datgeliad er dibenion y system nawdd cymdeithasol neu gynllun pensiwn; neu
- Mae'r datgeliad yn unol ag unrhyw ddatgeliad arall, fel Deddf Cwmnïau 2006.

93. Ar ôl cyflwyno'r GRA, cyflwynwyd ail ddeddfwriaeth yn amlinellu amryw o amgylchiadau eraill lle nad yw datgeliad yn creu trosedd.²⁸ Yr amgylchiadau ychwanegol hyn yw:

- Diben y datgeliad yw er mwyn ceisio cyngor cyfreithiol;
- Mae'r datgeliad mewn perthynas â dibenion neilltuol o grefydd gyfundrefnol, fel penderfynu arwain gwasanaeth priodas neu beidio neu i benodi unigolyn fel gweinidog crefyddol;
- Mae'r datgeliad er dibenion gweithiwr iechyd proffesiynol ac mae'r person sy'n gwneud y datgeliad yn credu'n rhesymol bod y sawl dan sylw wedi rhoi ei ganiatâd neu na all roi caniatâd;
- Gwneir y datgeliad gan asiantaeth cyfeirio credyd neu ar ei rhan ble bodlonir rhai amodau penodol; ac,
- Mae'r datgeliad er dibenion ac mewn perthynas ac ansolfedd neu fethdal.

²⁸ Gweler Gorchymyn Cydnabod Rhywedd (Datgelu Gwybodaeth) (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) (Rhif 2) 2005. Mae gorchymyn tebyg ond ar wahân yn bodoli ar gyfer yr Alban.

94. Archwiliwyd y darpariaethau datgelu gan WESC yn eu harchwiliad yn 2015 ar gydraddoldeb trawsryweddol. Amlygwyd pryder neilltuol ganddynt ymysg pobl draws ynglŷn â'r eithriadau ynghlwm â gweithdrefnau llys, gyda thystiolaeth o'r Gymdeithas Ymchwil ac Addysg ar Hunaniaeth Rhywedd yn awgrymu bod pobl draws yn aml yn cael eu 'hamlygu' yn y llys mewn ffordd amhriodol. Cawsant dystiolaeth hefyd y gallai sefydliadau fod yn rhy wyladwrus ac yn ddiangen yn sgil y darpariaethau ac o ganlyniad yn peidio â chofnodi data ar eu systemau ynglŷn â phobl draws er dibenion monitro cydraddoldeb.
95. Prif ffocws arall y Pwyllgor oedd ar ddiffyg erlyniadau am dramgwyddo Adran 22. Nid yw'r Llywodraeth yn ymwybodol o unrhyw erlyniadau ers i'r GRA ddod i rym. Gan fod datgeliad gwaharddedig yn golygu trosedd ddiannod (i'w chyflwyno mewn llys ynadon), llywodraethir yr erlyniad gan Adran 127 o Ddeddf Llys Ynadon 1980, sy'n datgan bod rhaid i'r wybodaeth ynglŷn ag erlyniad (sef datgeliad anghyfreithlon yn yr achos hwn) gael ei chyflwyno o flaen y llys cyn pen chwe mis ers cyflawni'r drosedd. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Llys, honnwyd bod y cyfnod hwn o chwe mis yn rhy fyr. Gallai, er enghraifft, olygu bod rhywun sy'n canfod bum mis ar ôl y datgeliad bod y datgeliad hwnnw wedi digwydd, â mis yn unig yn weddill cyn y gellid cyflwyno erlyniad. Ar y llaw arall, gallai prinder erlyniadau olygu bod gweision cyhoeddus ac eraill yn eu swyddogaethau swyddogol, yn ymwybodol o'r amserlen ac yn glynu at ddarpariaethau'r Ddeddf. Gallai rhesymau eraill gynnwys pobl draws ddim yn adrodd datgeliadau i'r heddlu neu'r heddlu yn peidio ag archwilio.
96. Pryder arall y mae'r Llywodraeth yn ymwybodol ohono ynglŷn ag Adran 22 yw'r diffiniad o 'weithiwr ieuchyd' er dibenion y ddarpariaeth yn caniatáu datgeliad i unigolyn o'r fath. Honnir, drwy beidio â chynnwys seicolegwyr clinigol, nad yw'r adran hon wedi rhoi sylw digonol i'r rôl y mae seicolegwyr yn ei chwarae wrth ymdrin â phobl draws.
97. Mae gennym dystiolaeth ymylol hefyd fod pobl a allai ymgeisio am swyddi ac sydd â GRC, yn ei chael hi'n anodd ymgeisio am swyddi, gan fod Adran 22 yn creu rhwystr honedig i unigolion fedru profi eu hanes gyrfa a'u cymwysterau. Byddem yn ddiolchgar o gael gwybodaeth ar sut all anghenion yr unigolyn i ddiogelu ei hanes rhywedd gwrdd ag anghenion y cyflogwr – er mwyn gwirio cymwysterau, y gallu i weithio, ac ati.
98. Dymuna'r Llywodraeth weld y diogelwch yn y GRA yn gweithio'n effeithiol er budd pobl draws. Rydym yn awyddus i ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i gasglu mwy o dystiolaeth ar sut y bu Adran 22 o'r GRA yn gweithio.

Cwestiwn 9

A ydych yn credu fod darpariaethau preifatrwydd a datgelu gwybodaeth yn adran 22 o'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn ddigonol?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os nad ydych, sut y credwch y dylid ei newid?

Effaith y broses gyfredol ar y rhai sydd â Nodweddion Gwarchodedig

99. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl yn gyfreithlon rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas yn gyffredinol. Disodlodd y deddfwriaethau atal gwahaniaethu blaenorol gydag un Ddeddf, gan wneud y gyfraith yn haws ei deall a chryfhau'r diogelwch mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'n amlinellu'r gwahanol ffyrdd o drin rhywun yn anghyfreithlon. Nid yw'r ymgynghoriad yn gofyn am wneud newidiadau i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

100. Mae'r Ddeddf yn amlinellu pa nodweddion a ddiogelir yn ôl y gyfraith. Y rhestr yw:

- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

101. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio pob un o'r categorïau hyn fel a ganlyn:

Oed: Person o oed neilltuol (er enghraifft 52 oed) neu gyfres o oedran (er enghraifft 18 i 30 oed).

Anabledd: Mae gan berson anabledd os oes ganddo ef neu hi amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu'r person hwnnw i wneud tasgau arferol beunyddiol.

Ailbennu rhywedd: Mae gan unigolyn nodwedd gwarchodedig ailbennu rhywedd os yw'r unigolyn yn bwriadu mynd trwy, yn mynd trwy neu wedi mynd trwy broses (neu ran o broses) at ddiben ailbennu rhyw'r unigolyn drwy newid rhinweddau ffisiolegol neu eraill rhyw.

Priodas a phartneriaeth sifil: Person sydd yn briod neu sy'n bartner sifil.

Beichiogrwydd a mamolaeth: Beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl genedigaeth ac yn gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth yn y cyd-destun cyflogaeth. Yn y cyd-destun nad yw'n ymwneud â gwaith neu swydd, diogelir gwahaniaethu ar sail mamolaeth am 26 wythnos ar ôl yr enedigaeth ac mae hyn yn cynnwys trin y fenyw yn anffafriol gan ei bod hi'n bwydo o'r fron.

Hil: Mae'n cyfeirio at y nodwedd warchodedig o hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir yn ôl eu hil, lliw a chenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), tarddiad ethnig neu genedlaethol.

Crefydd a chred: Mae crefydd yn cyfeirio at unrhyw grefydd, gan gynnwys dim crefydd. Mae cred yn cyfeirio at unrhyw gred grefyddol neu athronyddol, gan gynnwys dim cred. Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu'ch ffordd o fyw, iddo gael ei gynnwys yn y diffiniad.

Rhyw: Dyn neu ddynes.

Cyfeiriadedd Rhywiol: A yw atyniad rhywiol unigolyn tuag at ei ryw ei hun, y rhyw arall neu'r ddau.

102. Dymuna'r Llywodraeth ddeall sut mae'r broses bresennol o ymgeisio am GRC yn effeithio ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig. Os ydych yn rhan o un neu ragor o'r categorïau o nodweddion gwarchodedig a nodir uchod, a'ch bod wedi ystyried, neu'n ystyried ymgeisio am GRC, neu wedi ymgeisio o'r blaen, neu yn y broses o ymgeisio am GRC, rhowch fwy o wybodaeth i ni am eich profiadau.
103. Dymuna'r Llywodraeth ddeall sut mae'r broses bresennol o ymgeisio am GRC yn effeithio ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig. Cewch roi eich barn i ni hyd yn oed os nad ydych yn y categori nodwedd warchodedig honnw. Er enghraifft, efallai mai elusen ydych chi sy'n gweithio â phobl draws BAME ac yn dymuno sôn wrthym am sut mae'r nodwedd warchodedig honno o hil yn effeithio ar y bobl draws hynny sy'n ymgeisio am GRC, neu eu bod yn dymuno defnyddio'r broses ymgeisio bresennol.

Cwestiwn 10

Os ydych yn rhywun sydd naill ai wedi, neu eisiau gwneud trawsnewid rhywedd cyfreithiol, ac mae gennych un neu fwy o'r nodweddion diogelwch, pa nodweddion diogelwch sy'n addas ar eich cyfer chi? Gallwch roi tic mewn mwy nag un blwch.

- ☐ Oed
- ☐ Anabledd
- ☐ Ailbennu rhywedd
- ☐ Priodas a phartneriaeth sifil
- ☐ Beichiogrwydd a mamolaeth
- ☐ Hil
- ☐ Crefydd neu gred
- ☐ Rhyw
- ☐ Cyfeiriadedd rhywiol

Rhowch fwy o wybodaeth i ni ynghylch sut mae eich nodweddion gwarchodedig wedi effeithio ar eich safbwyntiau ar y broses ymgeisio am GRC.

Cwestiwn 11

A hoffech ddweud unrhyw beth wrthym am sut mae'r broses o wneud cais am GRC yn effeithio ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig?

Cydnabod Rhywedd: Ystyriaethau Ehangach

104. Wrth i ni ymgynghori ar ddiwygio'r GRA, rydym yn ystyriol o sut allai newid y gofynion ar gyfer GRC effeithio ar elfennau eraill o'r gyfraith a gwasanaethau cyhoeddus. Dymunwn ddeall mwy ynglŷn â'r partneriaethau hyn fel rhan o'r broses datblygu polisi.
105. Yn neilltuol, mae gennym ddiddordeb yn y berthynas rhwng y GRA a Deddf Cydraddoldeb 2010. Isod, gosodwn ein safbwynt ar hyn o bryd ar beth allai'r newidiadau ei olygu yn ogystal ag egluro'n gadarn nad yw'n fwriad gan y Llywodraeth i newid y Ddeddf Cydraddoldeb.

Cydnabod Rhywedd a Deddf Cydraddoldeb 2010

Cefndir

106. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu unigolyn ar sail 'ailbennu rhywedd', er enghraifft mewn cyflogaeth neu ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus. Mae gan unigolyn nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd os yw'n bwriadu mynd trwy, yn mynd trwy neu wedi mynd trwy broses (neu ran o broses) at ddiben ailbennu rhyw'r unigolyn drwy newid rhinweddau ffisiolegol neu eraill rhyw.²⁹ Mae gan unigolyn sy'n ymgeisio am GRC, neu'n cael un, nodweddion gwarchodedig o ailbennu rhywedd ond mae'r warchodaeth yn ehangach na deiliaid GRC yn unig.
107. Mae gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd hefyd yn cynnwys trin unigolyn yn llai ffafriol oherwydd camgredu bod yr unigolyn yn bwriadu mynd trwy, yn mynd trwy neu wedi mynd trwy'r broses o ailbennu ei rhywedd. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gweithredu fel diogelwch pwysig ar gyfer hawliau pobl draws yn y DU ac nid oes gan y Llywodraeth unrhyw fwriad o wanhau'r elfennau hyn o ddiogelwch.
108. Nid yw'r gwaharddiad ar wahaniaethu yn absoliwt, serch hynny. Mae'r Ddeddf yn amlinellu amryw o sefyllfaoedd cyfyngedig a ganiateir ond a fyddai fel arall yn enghreifftiau o wahaniaethu yn erbyn unigolion sydd â'r nodwedd warchodedig o 'ailbennu rhywedd'. Disgrifir yr eithriadau hyn yn llawn yn Atodiad C o'r ymgynghoriad hwn ond a amlinellir isod hefyd.
109. Gall sefydliadau ddewis gwneud defnydd llawn o'r eithriadau yn y Ddeddf Cydraddoldeb, ond os cânt eu defnyddio rhaid gwneud hynny'n gyfreithlon. Mae amryw o'r eithriadau wedi eu cyfiawnhau. Er enghraifft, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn galluogi darparwyr i gynnig gwasanaethau un-rhyw sy'n eithrio pobl draws cyn belled â'i bod hi'n addas gwneud hynny a chyflawnir nod dyls. Gallai enghraifft o wasanaeth un-rhyw fod yn lloches rhag trais domestig yn erbyn menywod. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o amryw o wasanaethau lloches

²⁹ Gweler Adran 7 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/7>

sydd yn croesawu pobl draws yn llwyr ac sy'n caniatáu menywod traws, ond mae yr un mor ymwybodol o wasanaethau a allai, mewn rhai sefyllfaoedd, ddewis eithrio menywod traws a'u cyfeirio yn hytrach at wasanaeth gwahanol – mae hynny'n gyfreithlon os gellir cyfiawnhau hynny'n foddhaol.

Safbwynt y Llywodraeth

110. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r eithriadau presennol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig 'ailbennu rhywedd'. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y codwyd pryderon am oblygiadau posib o ddiwygio'r GRA ar weithrediad y nodweddion hyn. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn awyddus i gasglu tystiolaeth a barn yn gyffredinol ynglŷn â'r goblygiadau posib o ddiwygiad y GRA ynghlwm â'r Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn bwydo gwybodaeth i'r Llywodraeth fedru gwneud penderfyniadau. Yn neilltuol, mae gan y Llywodraeth ddiddordeb ar beth allai cael GRC ei olygu o safbwynt eithriadau yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Rydym yn ymdrin â phob un o'r eithriadau yn eu tro isod.

Chwaraeon

111. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu atal pobl draws rhag cymryd rhan mewn rhai cystadlaethau chwaraeon yn ôl yr angen er mwyn sicrhau tegwch neu ddiogelwch y cystadleuwyr.³⁰ Mae'r eithriad hwn yn berthnasol i chwaraeon neu weithgareddau cystadleuol yn unig lle byddai cryfder corfforol, stamina neu faint y corff un rhyw yn rhoi'r bobl hynny dan anfantais ar gyfartaledd o'i gymharu â phobl o'r rhyw arall. Mae nifer o gyrrff chwaraeon cenedlaethol yn darparu canllawiau ar sut i gynnwys pobl drawsryweddol mewn chwaraeon cystadleuol.³¹

112. Mae'r Grŵp Cydraddoldeb y Cyngor Chwaraeon yn y broses o ddiweddarau ei ganllaw traws presennol a bydd Sport England yn darparu canllaw pellach ar gyfranogiad gan bobl draws mewn chwaraeon, yn benodol i gefnogi darparwyr hamdden a chwaraeon a dylunwyr cyfleusterau i helpu i rymuso pobl draws wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â ble a sut i gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff.

Cwestiwn 12

A ydych chi'n credu y bydd cyfranogiad pobl draws mewn chwaraeon, fel y llywodraethir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhowch resymau dros eich ateb.

³⁰ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/195>

³¹ Gweler, er enghraifft, y canllaw gan Grŵp Cydraddoldeb y Cyngor Chwaraeon <http://equalityinsport.org/publications/>

Gwasanaethau rhywedd sengl ac ar wahân

113. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn galluogi darparwyr gwasanaethau i gynnig gwasanaethau ar wahân neu wahanol i ddynion a merched, neu i un rhyw yn unig, yn amodol ar rai meini prawf neilltuol. Gall y gwasanaethau hyn drin pobl sydd â'r nodwedd warchodedig o ailbennu rhywedd, yn wahanol, neu eu heithrio'n llwyr, ond dim ond os yw'r weithred yn fodd cymesur o gyflawni nod dilys.³²
114. Fel enghraifft, mae gwrthod gadael i fenyw drawsryweddol sydd â GRC neu beidio ddefnyddio toiled³³ merched mewn tafarn yn debygol o fod yn anghyfreithlon³⁴, ond gallai lloches i fenywod yn unig, i rai sydd wedi dioddef trais domestig, gynnig gwasanaeth ar wahân i fenyw draws os gellir profi y byddai defnyddwyr gwasanaeth eraill yn cael eu heffeithio wrth gynnwys y fenyw draws fel rhan o'r gwasanaeth arferol.
115. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol, yn dilyn cyhoeddi'r ymgynghoriad, y bu llawer iawn o sylwadau a thrafod ynglŷn ag effeithiau posib diwygio'r GRA o ran eithrio'r gwasanaeth un-rhyw yn y Ddeddf Cydraddoldeb.
116. Rydym am ddatgan yn glir – nid ydym yn cynnig newid yr eithriadau presennol ar gydraddoldeb mewn perthynas â gwasanaethau un-rhyw a rhyw ar wahân yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Bydd yn bosibl o hyd i eithrio unigolion gyda'r nodwedd warchodedig o ailbennu rhywedd o wasanaethau un-rhyw neu ryw ar wahân os bydd gwneud hynny yn fodd cymesur o fodloni nod dilys. Bydd y ffaith bod gan berson traws gydnabyddiaeth rywedd gyfreithlon yn ffurfio rhan o benderfyniad darparwr gwasanaeth o safbwynt a ddylid darparu gwasanaeth gwahanol, neu ddim gwasanaeth o gwbl, i berson traws, ond nid yw bod â GRC yn ateb derbyniol.
117. Gellir eithrio pobl draws sydd â GRC o wasanaethau un-rhyw, neu roi gwasanaeth gwahanol iddynt, os yw'n addas gwneud hynny yn seiliedig ar ffeithiau'r achos unigol hwnnw. Er y dylai dibyniaeth ar yr eithriad hwn fod yn brin, bydd ei angen amlaf mae'n debyg mewn meysydd neilltuol o anodd a sensitif, fel yn narpariaeth llochesi i ferched sydd wedi dioddef trais domestig. Byddai penderfynu a yw hi'n addas eithrio person traws yn gorfod cael ei wneud gan y darparwr gwasanaeth ar gyfer pob achos yn unigol, gan ystyried anghenion y person traws a'r effaith ar y defnyddwyr gwasanaeth eraill. Bydd llochesi'n parhau i wneud asesiadau risg deallus o'r defnyddwyr gwasanaeth posib. Mae angen asesiadau o'r fath ar gyfer pob defnyddiwr, draws neu ddim: er enghraifft, efallai y bydd y lloches yn dymuno atal menyw lesbiaidd ymosodol rhag dod i mewn i'r lloches pan fydd ei phartner a gafodd ei chamdrin yn aros yno, neu eithrio menyw gan fod ganddi hanes o drais a natur fregus yn feddyliol.

³² <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/notes/division/3/16/20/7>

³³ Mae yna ystod o droseddau difrifol y gellir cyhuddo unrhyw un o unrhyw rywedd o'u cyflawni, sydd yn aflonyddu neu fygwth rhywun yn rhywiol, yn ceisio ymosod neu'n sbecian neu'n recordio rhywun arall o unrhyw ryw mewn toiled.

³⁴ <http://www.lawcentres.org.uk/policy/news/news/kirklees-law-centre-wins-landmark-transgender-discrimination-case>

Cwestiwn 13

(A) A ydych chi'n credu y bydd gweithredu'r eithriadau ar gyfer gwasanaethau un rhywedd a rhywedd ar wahân yng nghyswllt ailbennu rhywedd yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael ei effeithio drwy wrth y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

(B) Os ydych yn darparu gwasanaeth rhywedd sengl neu ar wahân, a ydych yn teimlo'n hyderus yn dehongli'r Ddeddf Gydraddoldeb 2010 yng ngoleuni'r eithriadau hyn?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

(C) Os ydych yn berson traws sydd wedi profi trais yn y cartref neu ymosodiad rhywiol, a oeddech yn gallu cael mynediad at gefnogaeth?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

(D) Os ateboch 'oeddwn' i (C), a oedd y cymorth hwn yn ddigonol?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Gofynion galwedigaethol

118. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu cyflogwyr i fynnu bod swydd ond ar gael i bobl nad yw'r nodwedd warchodedig o ailbennu rhywedd ganddynt, os bydd hynny'n hanfodol i'r swydd ac yn ffordd gymesur o gyflawni nod dilys. Er enghraifft, gallai ysbyty benderfynu bod bydwaig yn gorfod bod yn fenywaidd ac nid yn fenyw draws.³⁵

119. Barn y Llywodraeth yw na fyddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei thanseilio gan newidiadau i'r broses o gydnabod cyfreithiol a osodir yn y GRA. Bydd cael GRC yn ffactor y bydd cyflogwyr yn ei ystyried wrth benderfynu a yw gosod gofyniad

³⁵ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/9/part/1/crossheading/general>

galwedigaethol yn ffordd addas o gyflawni'r nod dilys, ond nid dyma yw'r unig ffactor.

Cwestiwn 14

A ydych chi'n credu y bydd gweithredu'r gofyniad am eithriad galwedigaethol yng nghyswllt ailbennu rhywedd yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

Llety cymunol

120. Diffinnir llety cymunol fel llety preswyl sy'n cynnwys llety cwsig a rennir i'w ddefnyddio gan bobl o'r un rhyw yn unig, am resymau preifatrwydd. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu i lety cymunol, fel neuaddau preswyl, fod ar gyfer un rhyw yn unig ac i bobl draws gael llety ar wahân wedi ei baratoi ar eu cyfer, neu ddim o gwbl, lle nad yw hyn yn ffordd addas o gyflawni'r nod dilys.³⁶

121. Barn y Llywodraeth yw na fyddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei thanseilio gan newidiadau i'r broses o gydnabod cyfreithiol a osodir yn y GRA. Bydd cael GRC yn ffactor y bydd sefydliadau neu ddarparwyr llety yn ei ystyried wrth gynnig llety cymunol, ond nid dyma yw'r unig ffactor.

Cwestiwn 15

A ydych chi'n credu y bydd gweithredu'r eithriad o lety cymunol mewn perthynas ag ailbennu rhywedd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

Lluoedd Arfog

122. Wrth sicrhau bod y lluoedd arfog yn barod o ran effeithlonrwydd, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd (yn ogystal ag oed, rhyw ac anabledd).³⁷ Er mai dyma yw'r gyfraith, mae pob cangen o'r Lluoedd Arfog yn y DU yn caniatáu milwyr trawsryweddol i wasanaethu. Nid yw'r Llywodraeth o'r farn felly y byddai diwygio'r GRA yn cael effaith ar yr eithriad hwn. Ymhellach, rhaid i'r penderfyniad ynglŷn â'i ddefnyddio neu beidio fod yn seiliedig ar 'effeithlonrwydd milwrol' ac nid yw'r GRC yn berthnasol i hynny.

³⁶ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/notes/division/3/16/40/3>

³⁷ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/3/part/1/crossheading/armed-forces>

Cwestiwn 16

A ydych chi'n credu y bydd gweithredu eithriad y lluoedd arfog yng nghyswllt pobl draws yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

Priodas

123. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu i'r rhai sy'n awdurdodi neu'n difrifoli priodasau yn unol â defodau crefyddol, wrthod priodi person y credant sydd wedi cael cydnabyddiaeth gyfreithlon o'i rywedd dan y GRA.³⁸ Mae'r eithriad hwn yn crybwyll y GRA yn benodol, yn hytrach na chyfeirio at y categori ehangach o 'ailbennu rhywedd.' Os bydd y newidiadau i'r GRA yn golygu y cydnabyddir rhywedd mwy o bobl draws yn gyfreithlon yna efallai y gwelwn fwy o ddefnydd o'r eithriad hwn.

Cwestiwn 17

A ydych chi'n credu y bydd gweithredu'r eithriad priodasol yng nghyswllt pobl draws yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

Yswiriant

124. Pan fydd cyflogwyr yn darparu blwydd-daliadau, polisïau yswiriant bywyd, polisïau yswiriant damweiniau neu 'fater tebyg arall yn ymwneud ag asesu risg', mae'r Ddeddf cydraddoldeb yn caniatáu i'r cyflogwr, dan rai amodau penodol, ddarparu gwahanol breimiymau i bobl drawsryweddol (a menywod a dynion; pobl sydd wedi priodi neu ddim wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil; ac ar sail beichiogrwydd neu famolaeth) yn eu cynnyrch yswiriant, cyn belled â'i bod hi'n rhesymol gwneud hynny yng ngoleuni data actiwaraid neu ddibynadwy arall.³⁹ Nid yw'r llywodraeth yn ymwybodol o unrhyw bolisïau yswiriant cyflogwr sy'n gwahaniaethu'n benodol ar gyfer unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig

³⁸ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/3/part/6>

³⁹ Gweler paragraff 20 o Atodlen 9 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/9>. Pan gyflwynwyd Deddf Cydraddoldeb 2010 am y tro cyntaf, roedd yr eithriad hwn yn berthnasol i bob cynnyrch yswiriant. Newidiodd hynny yn dilyn y penderfyniad yn achos *Test-Achats v Council of Ministers* yn 2011.

ailbennu rhywedd, felly nid ydym o'r farn y byddai diwygio'r GRC yn cael unrhyw effaith ymarferol wrth weithredu'r eithriad hwn.

Cwestiwn 18

A ydych yn credu y bydd gweithredu'r eithriad yswiriant yng nghyswllt pobl draws yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhowch resymau dros eich ateb.

Cydnabod Rhywedd a Gwasanaethau Cyhoeddus eraill

125. Ar wahân i'r Ddeddf Cydraddoldeb, rydym yn cydnabod fod yna elfennau penodol o ddeddfwriaeth neu wasanaethau cyhoeddus neilltuol sy'n trin dynion a merched yn wahanol. Bydd diweddarau'r GRA yn ei gwneud hi'n haws i bobl draws sicrhau cydnabyddiaeth gyfreithlon am eu rhywedd caffaeledig. Dymunwn wybod pa effaith y gallai hyn ei gael, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ariannol.
126. Gwasanaethau cyhoeddus lle mae dynion a merched yn cael eu trin yn wahanol yn cynnwys:
- Carchardai un rhyw, ysgolion ac ysbytai diogelwch llym;
 - Gwobrau a bwrsariau ar gyfer un rhyw yn benodol;
 - Adeiladau neu sefydliadau ffydd;
 - Campfeydd, chwaraeon a sesiynau nofio un rhyw;
 - Comisiynu gwasanaethau i gefnogi trais domestig;
 - Gwasanaethau sgrinio meddygol ar gyfer un rhyw yn benodol;
 - Toiledau ac ystafelloedd newid, a,
 - Gwahanol hawliau cyfreithiol ar fudd-daliadau, pensiwn ac absenoldeb (mamolaeth/tadolaeth) i ddynion a menywod.
127. Caniateir y rhan fwyaf o'r rhain drwy eithriadau yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, mae'r Llywodraeth yn aml yn cynhyrchu canllawiau ar sut y dylid ystyried pobl draws sy'n ceisio gwneud defnydd o'r gwasanaethau.
128. Er enghraifft, mae gan wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi bolisiau manwl ar sut i reoli troseddwytr traws, a ddylid eu rhoi mewn carchar i ddynion neu ferched, derbyn triniaeth yn y carchar, ac ati. Tra bod cael GRC yn ffactor yn y penderfyniadau hyn, mae proses a reolir hefyd yn ystyried 'profiad byw' a barn y carcharor law yn llaw ag asesiad risg unigol, sy'n ffurfio rhan graidd y broses gwneud penderfyniadau. Mae darpariaeth o fewn y rheoliadau presennol sy'n gosod menyw (gan gynnwys y rhai sydd wedi trawsnewid yn gyfreithlon) o fewn y sefydliad carchar i ddynion. Os asesir y risg i garcharorion eraill a/neu staff yn un uchel iawn, yna gellir ei chadw hi fel carcharor benywaidd yn y sefydliad dynion. Mae'n bwysig nodi hefyd bod gan y sefydliad menywod brotocolau ar gyfer rheoli amryw o fenywod nad ydynt yn draws sydd â cholffarnau am drais yn erbyn menywod, gan gynnwys llofruddiaeth ac ymosodiadau rhywiol.
129. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i gasglu tystiolaeth ar y goblygiadau posib o ddiwygio'r broses cydnabod rhywedd. Bydd hyn yn ein helpu i wneud y penderfyniadau polisi mwyaf posibl a datblygu asesiadau effaith cadarn.

Cwestiwn 19

A ydych chi'n credu y bydd newidiadau i'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn effeithio ar elfennau o'r gyfraith a gwasanaethau cyhoeddus heblaw Deddf Cydraddoldeb 2010?

☐ Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhowch resymau dros eich ateb.

Hunaniaethau Rhywedd Anneuaidd

130. Mae'r Llywodraeth yn diffinio unigolyn anneuaidd fel rhywun sy'n cael ei adnabod y tu allan i ddeuaidd rhywedd gwryw-benyw. Efallai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn gyfan gwbl yn ddyn na dynes, neu'r ddau, neu eu bod yn ymdrin â rhywedd yn hollol wahanol. Defnyddir y gair anneuaidd yma fel term cwmpasog. Efallai y byddai gwahanol bobl yn defnyddio geiriau gwahanol i ddisgrifio hunaniaeth eu rhywedd, megis rhywedd amhendant, di-ryw neu'n *genderqueer*.
131. Mae'r GRA yn galluogi unigolyn i newid y rhywedd a nodwyd ar eu tystysgrif geni, naill ai o wrywaidd i fenywaidd neu'r ffordd arall. Nid yw'n rhoi unrhyw ddarpariaeth ar gyfer adnabod unrhyw rywedd arall.
132. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol yr ymddengys bod nifer cynyddol o bobl sydd ddim yn adnabod eu hunain yn gyfan gwbl wrywaidd neu fenywaidd. Fel yr holl bobl draws, rydym yn dymuno i bobl sy'n adnabod eu hunain yn y modd hwn fyw bywydau heb wahaniaethu yn unol â phwy y credant yw eu cymeriad go iawn. Rydym yn gweithio i benderfynu pa weithred a fyddai'n angenrheidiol i'r Llywodraeth ei wneud er mwyn cyflawni hyn.
133. Mae cydnabyddiaeth anneuaidd yn fater cymhleth, ond yn cynnwys nifer o oblygiadau i'r gyfraith a darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus. Er enghraifft, mae rhai deddfau yn darparu ar gyfer hawliau cyfreithiol gwahanol sy'n ddibynol ar rywedd unigolyn (e.e. oedran Pensiwn y Wladwriaeth). Gall y ddarpariaeth o wasanaeth cyhoeddus hefyd fod yn wahanol gan ddibynnu ar rywedd yr unigolyn (e.e. wardiau ysbyty un rhyw). Mae systemau gweinyddol a ThGCh y sectorau cyhoeddus yn gyffredinol yn awgrymu dau rywedd yn unig. Petai'r Llywodraeth yn adnabod rhywedd ar wahân i wryw neu fenyw, byddai angen ystyriaeth ynglŷn â sut y byddai hynny'n effeithio ar y deddfau a'r gwasanaethau hynny yn ymwneud â rhywedd ac yn cael ei effeithio ganddynt. Efallai y byddai angen newid sylweddol i ddeddfwriaeth i sicrhau cydlynad cyfreithiol a gweinyddol.
134. Yn ein Cynllun Gweithredu LGBT a lansiwyd yn ddiweddar, cyhoeddodd ein bwriad i godi 'galwad am dystiolaeth' ar hunaniaethau rhyweddol anneuaidd, a hoffwn eu defnyddio i archwilio'r goblygiadau posib hyn yn fwy manwl ac i ddeall profiadau ac anghenion pobl anneuaidd sy'n byw yn y DU mewn, mwy o fanylder. Rydym wedi cynnwys cwestiwn ar hunaniaethau rhyweddol anneuaidd yn yr ymgynghoriad hwn fel atodiad i'r ymarfer galw am dystiolaeth, gan ganolbwyntio yma ar eich safbwyntiau cychwynol ynglŷn ag adnabyddiaeth anneuaidd *gan ei fod yn gysylltiedig â'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn benodol*.
135. Petai'r GRA yn cael ei ymestyn i ddarparu cydnabyddiaeth gyfreithiol i hunaniaethau rhyweddol anneuaidd, byddai angen ystyried rhai o'r materion yn y system bresennol gan gynnwys:
- Y gofyniad presennol i ymgeiswyr gael, neu wedi cael, ddiagnosis o ddysfforia rhywedd: canfyddodd ein Harolwg LGBT bod yr ymatebwyr anneuaidd yn llai tebygol o ymweld â gwasanaethau arbenigol ar hunaniaeth ryweddol yn y flwyddyn cyn yr arolwg o'u cymharu â'r ymatebwyr traws. Hoffem wybod mwy ynghylch hyn.
 - Y gofyniad presennol i ymgeiswyr gasglu gwerth dwy flynedd o dystiolaeth eu

bod wedi byw yn eu rhywedd caffaeledig: ar hyn o bryd, byddai'r gofyniad hwn yn anodd, yn anorchfygol hyd yn oed, i unigolyn anneuaidd orfod ei gyrraedd, am y prif reswm, nid yw'n bosibl adnabod fel rhywun anneuaidd ar y dogfennau a'r ffurflenni cymhwys.

- Y gofyniad presennol i ymgeiswyr wneud datganiad statudol eu bod yn bwriadu byw yn eu rhywedd caffaeledig am oes: hoffem glywed safbwyntiau ymatebwyr ynglŷn ag a ydynt yn credu y dylid gofyn i bobl anneuaidd ymrwymo i fyw'n barhaol mewn rhywedd penodol.

136. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno unrhyw gynigion i ymestyn y GRA i ddarparu cydnabyddiaeth gyfreithiol i drydydd rhywedd, neu rywedd anneuaidd. Yn hytrach, mae'n gofyn yn syml am safbwyntiau cychwynol ymatebwyr am y mater cymleth hwn. Gyda'r alwad am dystiolaeth, bydd y safbwyntiau hyn yn ein cynorthwyo i feithrin ein sylfaen dystiolaeth ymhellach.

Cefndir

137. Nid yw'r Llywodraeth yn ymwybodol o amcangyfrifiad dibynadwy o faint y boblogaeth anneuaidd yn y DU. Gall fod yn anodd arolygu is-setiau o'r boblogaeth os, fel pobl anneuaidd, y credir eu bod yn fychan (ac yn aml, yn guddiedig). Yn ychwanegol, mae'r ffaith y defnyddir y term i drafod ystod eang o brofiadau, mynegiadau a hunaniaethau - ac efallai nad yw rhai pobl anneuaidd "allan" oni bai am sefyllfaoedd hollol breifat - yn golygu nad yw cael amcangyfrif dibynadwy ynghylch maint y boblogaeth anneuaidd yn bosibl ar hyn o bryd.

138. Er nad oes gennym amcangyfrif dibynadwy o faint y boblogaeth anneuaidd yn y DU, awgryma'r dystiolaeth ei fod yn cynyddu ac yn uwch na'r hyn a feddylion. Adnabuwyd bron i 7,410 (7%) o sampl yr Arolwg LGBT fel anneuaidd a derbyniom ymatebion gan 6,910 o ymatebwyr traws a oedd wedi trawsnewid, neu yn y broses o drawsnewid o wryw i fenyw neu o fenyw i wryw. Mae nifer o sefydliadau LGBT, megis Stonewall a Genered Intelligence, bellach yn cynnwys materion anneuaidd o fewn eu gwaith eiriolaeth ar draws; dywed rhanddeiliaid wrthym yn aml bod mwy a mwy o bobl (yn arbennig pobl ifanc) yn adnabod eu hunain yn y modd hwn. Roedd ymatebwyr ifanc i'r Arolwg LGBT yn fwy tebygol o adnabod eu hunain fel anneuaidd o'u cymharu â'r ymatebwyr hŷn: Roedd 12% o ymatebwyr 16-17 oed a 9% o ymatebwyr 18-24 oed yn adnabod eu hunain fel anneuaidd, o'i gymharu â 4% a 6% o ymatebwyr a oedd yn 25 oed neu'n hŷn.

139. Ni chydnabyddir rhyweddau anneuaidd yng nghyfraith y DU. Dan ddeddf y Deyrnas Unedig, ystyrir rhywedd unigolion gan y wladwriaeth fel yr un a nodir ar eu tystysgrif geni, naill ai'n wryw neu'n fenyw. Nid oes deddfwriaeth yn bod yn y DU sy'n myfyrio ynghylch bodolaeth rhywedd arall. Yn ogystal, mae cyfres o ddeddfau sy'n seiliedig yn benodol ar rywedd neu'n darparu'n wahanol yn ddibynnol ar ryw/rhywedd yr unigolyn. Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys: deddfwriaeth yn gysylltiedig â phriodas a phartneriaethau sifil; deddfwriaeth yn gysylltiedig â beichiogrwydd; a deddfwriaeth yn gysylltiedig â hawliau a buddion mamolaeth.

140. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diogelu pobl anneuaidd y credir bod ganddynt y nodwedd warchodedig o "ailbennu rhywedd". A dywedodd Gwasanaeth Erlyn y Goron efallai y caiff pobl "ddi-ryw, anneuaidd neu rywedd

amhendant” dan y diffiniad o “hunaniaeth drawsrywiol” mewn deddfwriaeth trosedd casineb.⁴⁰

141. Yn yr ymateb i Arolwg LGBT cenedlaethol y Llywodraeth, roedd 7,410 (7%) o'r ymatebwyr yn adnabod eu hunain fel anneuaidd.

- Pan ofynnwyd iddynt sgorio bodlonrwydd eu bywyd allan o 10, nododd yr ymatebwyr anneuaidd gyfartaledd o 5.5, o'u cymharu â chyfartaledd o 6.5 i holl ymatebwyr yr arolwg. Y sgôr ar gyfartaledd ar gyfer poblogaeth gyffredinol y DU yw 7.7.⁴¹
- Dywedodd tri chwarter (76%) o ymatebwyr anneuaidd eu bod wedi osgoi dangos hunaniaeth eu rhywedd gan eu bod yn ofni ymatebion negyddol.
- Roedd llawer o ymatebwyr anneuaidd a oedd mewn addysg yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf wedi cael profiadau negyddol yn eu sefydliad addysgol oherwydd eu statws LGBT. Er enghraifft, dywedodd 30% o'r rhai mewn addysg eu bod wedi cael ymateb negyddol gan gynnwys aflonyddwch llafar, bygythiadau a sylwadau niweidiol eraill yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.
- Roedd 14% o ymatebwyr anneuaidd yr arolwg wedi ceisio cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn ystod y 12 mis cyn yr arolwg ond wedi bod yn aflwyddiannus wrth wneud hynny.

Safbwynt y Llywodraeth

142. Rydym yn dymuno i bobl sy'n adnabod eu hunain fel anneuaidd fedru byw bywydau heb wahaniaethu yn unol â phwy y credant ydynt yn wirioneddol. Rydym yn ymdrechu i benderfynu pa weithred fyddai'n angenrheidiol i'r Llywodraeth ei gwneud er mwyn cyflawni hyn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ystyriol o'r canlyniadau ymarferol ar gyfer rhannau eraill o'r gyfraith a'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus ynghylch rhywedd deuaidd, os caiff rhywedd anneuaidd ei gydnabod yn y GRA.

143. Rydym felly'n dymuno defnyddio'r ymgynghoriad hwn a'n galwad am dystiolaeth fel camau cyntaf i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r mater cymleth hwn. Trwy ein galwad am dystiolaeth, rydym yn dymuno: deall profiadau, a'r rhwystrau a wyneba pobl anneuaidd yn y DU yn well; cael safbwyntiau pobl ynghylch sut y credant y gallai'r gymdeithas fod yn fwy cynhwysol tuag at y rheiny sy'n ystyried eu hunain yn anneuaidd; ac archwilio'n fwy manwl y goblygiadau posib mewn rhannau eraill o'r gyfraith a chymdeithas o gydnabod rhywedd nad yw'n wrywaidd na benywaidd. Yn yr ymgynghoriad hwn, mae gennym ddiddordeb penodol mewn safbwyntiau'r ymatebwyr ynghylch a ddylai'r, a sut ddylai'r GRA newid i fedru cydnabod y bobl hynny sy'n adnabod eu hunain fel anneuaidd. Bydd ein galwad ni am dystiolaeth yn cwmparu ystyriaethau ehangach.

⁴⁰ Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Hate Crime: Public Statement on Prosecuting Homophobic, Biphobic and Transphobic Hate Crime* (August 2017), p.3; gweler yma: <https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/homophobic-biphobic-transphobic-hate-crime-public-statement-2017.pdf>.

⁴¹ ONS (2017). Lles personol yn y DU: Mis Hydref 2015 i fis Medi 2016. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/measuringnationalwellbeing/oct2015tosept2016_

Cwestiwn 20

Ar hyn o bryd nid yw cyfraith y DU yn cydnabod unrhyw rywedd arall ar wahân i wryw a benyw.

A ydych chi'n meddwl bod angen newid i'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd i ymdrin agi unigolion sy'n ystyried eu hunain yn anneuaid?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os hoffech weld newidiadau, rhowch fwy o fanylion yn eich ateb.

Rhyngrywiolyn

144. Mae rhyngrywiolyn yn derm cwmpasog ar gyfer pobl sydd â nodweddion rhywedd (hormonau, cromosomau ac organau atgynhyrchiol mewnol/allanol) sy'n wahanol i'r rheiny a ddisgwylir mewn gwryw neu fenyw.
145. Caiff rhywedd ei neilltuo ar enedigaeth, ar sail nodweddion corfforol. Yn nodweddiadol, mae gan ddynion bidyn, ceilliau, cromosomau XY a lefelau uwch o destosteron. Yn nodweddiadol, mae gan ferched fagina, croth, cromosomau XX a lefelau uwch o estrogen. Bydd gan bobl rhyngrywiol amrywiaeth yn un neu fwy o'r rhain. Er enghraifft, efallai bod ganddynt organau cenhedlu annodweddiadol, fagina ond dim croth neu eu bod yn wrywaidd yn gorfforol ond ddim yn cynhyrchu digon o destosteron i ddatblygu nodweddion gwrywaidd eilradd yn y glasoed. Nid yw rhyngrywiol yn hunaniaeth ryweddol nac yn gyfeiriadedd rhywiol, felly efallai bod, neu nid yw, pobl rhyngrywiol yn ystyried eu hunain yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol na thraws.
146. Caiff rhai pobl rhyngrywiol ddiagnosis o gyflwr meddygol. Er enghraifft, gelwir un cyflwr cyffredinol yn *Congenital Adrenal Hyperplasia* (CAH). Mae CAH yn gyflwr genetig sy'n effeithio ar ddatblygiad yr hormonau sy'n rheoli glasoed. Gall arwain at organau atgynhyrchiol annodweddiadol a chynhyrchiad annigonol o'r hormon straen cortisol, a all fod angen sylw helaeth i'w reoli. Mae cyflyrau eraill y gellir rhoi diagnosis arnynt yn cynnwys Syndrom Turner (merched wedi'u geni heb gromosom X, gydag effeithiau megis anallu i atgynhyrchu) a Syndrom Klinefelter (dynion wedi'u geni gyda chromosomau XXY, a allai achosi tyfiant o fronau a cheilliau bychain).
147. Rydym yn cydnabod bod safbwyntiau eang ynghylch terminoleg. Yn yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwn y term 'rhyngrywiolyn' er y cydnabyddwn efallai bod gwrthwynebiad i hyn. Er enghraifft, mae'r term 'amrywiaethau mewn nodweddion rhywedd' (VSC) yn dod yn fwy cyffredin.
148. Prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes ynghylch profiadau pobl rhyngrywiol sy'n rhyngweithio gyda'r GRA. Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb mewn dysgu, a datblygu gwell dealltwriaeth, o brofiadau bobl rhyngrywiol o'r broses gyfreithiol o gydnabod rhywedd a'u safbwyntiau nhw ynghylch sut y dylid gwella'r system.

Cefndir

149. Nid yw'r Llywodraeth yn ymwybodol o amcangyfrif cadarn o faint y boblogaeth rhyngrywiol yn y DU. Mae hyn yn hynod o anodd oherwydd efallai na fydd rhai amrywiaethau rhyngrywiol fyth yn amlwg, efallai nad yw rhai pobl yn datgelu'r wybodaeth hon ac nid oes dull safonol ynghylch casglu data. Yn ôl yr arbenigwyr yn Swyddfa Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, 'amcangyfrifir bod rhwng 0.05% a 1.7% o blant yn cael eu geni gyda nodweddion

rhyngrywiol'.⁴² Mae'n bosibl bod cyffredinrwydd genitalia annodweddiadol ar enedigaeth plant mor uchel ag 1 mewn 300 o enedigaethau⁴³, ond mae'n bosibl bod cyffredinrwydd cyflwr a all arwain at amwysedd genitalia ar enedigaeth plant fod mor isel ag 1 mewn 5000 o enedigaethau.⁴⁴

150. Yn yr adborth i Arolwg Cenedlaethol LGBT y Llywodraeth, roedd 1,980 (2%) o'r ymatebwyr yn ystyried eu hunain fel rhyngrywiol.⁴⁵
- O fewn y sampl hwn, roedd 25% o bobl rhyngrywiol yn ystyried eu hunain fel anneauaid, 17% fel merched traws a 7% fel dynion traws. Nid oedd y 51% arall yn ystyried eu hunain fel traws.
 - Roedd gan 17% o ymatebwyr traws rhyngrywiol yn berchen GRC.⁴⁶
 - Pan ofynnwyd i ymatebwyr rhyngrywiol a oedd yn ymwybodol o'r broses GRC pam nad oeddynt wedi gwneud cais am GRC: Dywedodd 13% nad ganddynt ddiddordeb gwneud cais am un, dywedodd 12% mai'r rheswm oedd nad oeddynt yn awyddus i rannu eu gwybodaeth feddygol.
151. Mae'r Llywodraeth yn ymdrechu i ddeall y materion unigryw sy'n dod i ran pobl rhyngrywiol ac yn cynllunio polisiau sy'n ystyriol o anghenion pobl rhyngrywiol.
152. Rydym yn cydnabod fod ystod o faterion sy'n berthnasol i bobl rhyngrywiol, gan gynnwys, ymyrraeth feddygol ddiangen ar blant, cywiro tystysgrifau geni, rhwystrau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd, darpariaeth seicogymdeithasol, grwpiau cefnogi, yn ogystal â materion ym myd addysg a'r gweithle. Mae'r materion hyn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad GRA.
153. Yn ein Cynllun Gweithredu LGBT a lansiwyd yn ddiweddar, cyhoeddodd ein bwriad i godi 'galwad am dystiolaeth' ar hunaniaethau rhyweddol anneauaid, a hoffwn eu defnyddio i archwilio'r goblygiadau posib hyn yn fwy manwl ac i ddeall profiadau ac anghenion pobl anneauaid sy'n byw yn y DU mewn, mwy o fanylder. Rydym wedi cynnwys cwestiwn ar bobl rhyngrywiol yn yr ymgynghoriad hwn fel atodiad i'r ymarfer galw am dystiolaeth, gan ganolbwyntio yma ar eich safbwyntiau cychwynol ynglŷn â'r broses gyfreithiol cydnabod rhywedd gan ei fod yn gysylltiedig â'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn benodol.
154. Mae gwledydd eraill wedi mabwysiadu dulliau gwahanol at bobl rhyngrywiol. Mae Deddf Hunaniaeth Ryweddol, Mynegiant Rhywedd a Nodweddion Rhywedd 2015 Malta, er enghraifft yn galluogi pobl rhyngrywiol i wneud cais am

⁴² https://unfe.org/system/unfe-65-Intersex_Factsheet_ENGLISH.pdf

⁴³ Ahmed, S.F., Dobbie, R., Finlayson, A.R. et al. (2004) Regional & temporal variation in the occurrence of genital anomalies amongst singleton births, 1988–1997 Yr Alban. Archives of Disease Childhood, 89, F149–F151.

⁴⁴ Thyen, U., Lanz, K., Holterhus, P.M. et al. (2006) Epidemiology and initial management of ambiguous genitalia at birth in Germany. Hormone Research, 66, 195–203.

⁴⁵ Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddynt yn ystyried eu hunain fel rhyngrywiolyn. Bwriad y cwestiwn oedd darparu'r Llywodraeth gyda dealltwriaethau newydd o'r materion a wynebwr gan bobl sy'n rhyngrywiol. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn deall y pryderon sydd wedi codi ynghylch cynnwys cwestiwn wedi'i seilio ar rhyngrywiaeth mewn arolwg LGBT. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad yw rhai pobl drawsrywiol yn ystyried eu hunain fel rhan o'r acronym ymbarél yma.

⁴⁶ Gall pobl rhyngrywiol hefyd brofi dysfforia rhywedd a chael hunaniaeth ryweddol nad yw'n unol â'r hyn a neilltuwyd iddynt ar eu genedigaeth. Roedd pobl rhyngrywiol gyda hunaniaeth drawsrywiol yn gallu ateb y cwestiynau trawsnewid rhywedd yn yr arolwg. Defnyddia'r rhan hon y term 'rhyngrywiol traws' i ddisgrifio'r ymatebwyr a oedd yn ystyried eu hunain fel naill ai merch draws neu ddyn traws sy'n meddu hunaniaeth rhyngrywiol.

gydnabyddiaeth rhywedd gyfreithiol anneauaid o'r rhywedd maent yn uniaethu ag ef.

Sefyllfa'r Llywodraeth

155. Mae'r llywodraeth yn cydnabod efallai y byddai pobl ryngrywiol sydd wedi'u pennu â'r rhywedd anghywir ar ôl genedigaeth yn dymuno gwneud cais am GRC i wneud y newid hwn. Ni wyddom faint o bobl sydd wedi gwneud hyn neu sydd wedi ceisio gwneud hyn. Rydym yn cydnabod efallai bod pobl rhyngrywiol yn wynebu rhwystrau wrth gael cydnabyddiaeth rhywedd gyfreithiol oherwydd yr angen am ddiagnosis o dysfforia rhywedd. Hoffwn ddeall mwy am farn pobl ryngrywiol am y gofyniad hwn.
156. Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ynghylch a oes angen tynnu'r diagnosis o ddysfforia rhywedd o'r broses GRC ac rydym yn cydnabod y byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl ryngrywiol feddu'r gydnabyddiaeth gyfreithiol. Mae gan y Llywodraeth ddiddordeb hefyd mewn cael gwybod am argymhellion eraill ar newid a fyddai'n cefnogi pobl ryngrywiol yn y broses gyfreithiol o gydnabod rhywedd.

Cwestiwn 21

(A) A oes gennych chi amrywiaethau yn nodweddion eich rhywedd?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Fel yr amlinellir yng nghwestiwn 3, mae'r Llywodraeth yn dymuno deall a ddylai fod unrhyw angen yn y dyfodol am adroddiad gyda manylion diagnosis dysfforia rhywedd, ac unrhyw angen am adroddiad gyda manylion y driniaeth a dderbynioch.

(B) A fyddai cael gwared â'r anghenion hyn o fudd i chi?

(C) Pa newidiadau eraill sy'n angenrheidiol i'r GRA a fyddai o fudd i bobl rhyngrywiol?

Yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Awdurdodau y tu hwnt i'r DU

Cydnabyddiaeth Ddomestig

157. Ar hyn o bryd, mae'r GRA yn gosod yn fras yr un system ar gyfer cydnabod rhywedd caffaeledig ledled y DU, a bydd rhywedd unigolyn a gydnabyddir gan gyfraith Lloegr a Chymru yn cael ei gydnabod fel cyfraith yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r GRA yn rheoli'r rhyngweithiad rhwng y systemau cofrestru yn Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yng ngweinyddiaeth y system cydnabod rhywedd.
158. Mae'r ymgynghoriad hwn ond yn gysylltiedig â'r dyfodol i'r gweithrediad o gydnabyddiaeth rhywedd yn Lloegr a Chymru ac at ddibenion y gyfraith yn Lloegr a Chymru.

Yr Alban

159. Ar 9 Dachwedd 2017 lansiodd Llywodraeth yr Alban ei hadolygiad⁴⁷ ynghylch a ddylid a sut ddylid newid y GRA yn gysylltiedig â'r gyfraith yn yr Alban. Caewyd hwn ar 1 Mawrth 2018. Roedd ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban yn bennaf yn mynd i'r afael â: sefydlu trefniadau newydd i ddelio â chydabod rhywedd cyfreithiol, lleihau'r oedran gofynnol ar gyfer gwneud cais am gydnabod rhywedd ac opsiynau ar gyfer cydnabod unigolion anneauaid.
160. Mae cydnabod rhywedd wedi'i ddatganoli yn yr Alban. Golyga hynny y gallai'r Alban gael ei system ei hunan ar gyfer cydnabod rhywedd os yw'n dymuno. Nid yw rhai meysydd sy'n cael eu trin gan y GRA wedi'u datganoli fodd bynnag, megis hawliau pensiwn a buddion. Mae ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban yn glir wrth ddatgan yr hyn sydd ac sydd heb ei ddatganoli o ran ei chynigion, ac ar ba elfennau, yn y dyfodol, y bydd angen iddynt weithio arno o bosib gyda Llywodraeth y DU.
161. Mae Llywodraeth y DU yn ymroddedig i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban ar ei chynigion, yn arbennig ar gyflwyno ei chynigion sydd heb eu datganoli, cydnabyddiaeth gilyddol o dystysgrifau a gyhoeddwyd mewn gwahanol rannau o'r DU ledled y DU (byddai hyn yn cynnwys y rheiny a godwyd dan y system bresennol a'r rheiny a godir yn y dyfodol), anghenion preswyl sydd efallai eu hangen ar ymgeiswyr a goblygiadau unrhyw wahaniaethau mewn hawliau cyfreithiol yn sgil cyhoeddi GRC yn yr Alban o'i gymharu â Chymru a Lloegr.

Gogledd Iwerddon

162. Yn yr un modd a'r Alban, mae cydnabod rhywedd wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â Gogledd Iwerddon ac ni fydd y newidiadau a gynigir yn y ddogfen hon yn newid gweithrediad y system cydnabod rhywedd yng Ngogledd Iwerddon.

⁴⁷ <https://consult.gov.scot/family-law/review-of-the-gender-recognition-act-2004/>

163. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Gogledd Iwerddon i sicrhau y bydd unrhyw system cydnabod rhywedd y dyfodol yng Nghymru a Lloegr yn gweithredu'n addas ledled y DU, gan gynnwys Gogledd Iwerddon.

Cymru

164. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys Cymru a bydd unrhyw newid deddfwriaethol yn weithredol yng Nghymru hefyd. Nid yw cydnabyddiaeth rhywedd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i'r broses cydnabod rhywedd a byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n eang gyda rhanddeiliaid Cymru yn ystod yr ymgynghoriad.

Cydnabyddiaeth Dramor

165. Ar hyn o bryd, os gallai unigolyn arddangos eu bod wedi cael cydnabyddiaeth o'u rhywedd caffaeledig dan ddeddf o wlad neu diriogaeth cymeradwy, yna byddant yn gymwys am GRC yn y DU fel mater o drefn. Mae cymeradwyaeth gwlad neu diriogaeth yn seiliedig ar y cwestiwn a yw'r broses cydnabod rhywedd tramor yn gyfwerth yn ymarferol â'r hyn a amlinellir yn y GRA. Mae ymgeiswyr sydd â chydnabyddiaeth dramor yn gwneud cais i'r GRP am gydnabyddiaeth gyfreithiol gan ddefnyddio'r system cais tramor.
166. Mae cyfanswm o 109 o systemau cydnabod rhywedd wedi'u canfod yn nhabl gwledydd a thiriogaethau cymeradwy.⁴⁸ Mae hyn yn cynnwys sawl system is-genedlaethol - caiff y broses cydnabod rhywedd ei phennu gan wladwriaethau a thaleithiau unigol yn yr Unol Daleithiau, Awstralia a Chanada. Diweddarwyd y rhestr o wledydd a thiriogaethau cymeradwy ddiwethaf yn 2011.⁴⁹
167. Ni all ymgeiswyr tramor sydd wedi ennill cydnabyddiaeth o'u rhywedd caffaeledig mewn gwlad neu diriogaeth sydd ddim ar y rhestr o wledydd neu diriogaethau cymeradwy ennill cydnabyddiaeth yn y dull hwn, a bydd rhaid iddynt wneud cais am GRC drwy ddefnyddio'r camau ymgeisio 'safonol' neu 'arall'.
168. Mewn unrhyw fersiwn o'r GRA y dyfodol, bydd angen i'r Llywodraeth ystyried sut mae mynd ati i fynd i'r afael â chydnabyddiaeth gyfreithiol a geir dramor. Mae cydnabyddiaeth gan wledydd neu diriogaethau eraill o GRCs domestig presennol neu i'r dyfodol yn fater i'r awdurdodaeth dramor. Bydd Llywodraeth y DU yn ymdrechu i sicrhau bod systemau cydnabod rhywedd cilyddol yn cael eu gosod.

⁴⁸ Gweler: <http://formfinder.hmctsformfinder.justice.gov.uk/t491-eng.pdf>

⁴⁹ Gweler: <https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2011/1630/contents/made>

Casgliad

169. I lawer o bobl draws, nid yw'r broses gydnabyddiaeth a nodir yn y Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn cyflawni fel gwasanaeth cyhoeddus. Nid oes digon o bobl draws yn gallu cael y gydnabyddiaeth gyfreithiol o'u hunaniaeth rywedd sydd ei hangen arnynt. Ar hyn o bryd, rhoddir gormod o rwystrau yn eu ffordd. Dyweda pobl draws bod y broses yn rhy fiwrocataidd, costus ac ymwithiol, a'i bod yn patholegu hunaniaethau traws mewn modd anaddas, drwy bortreadu bod yn draws fel salwch meddyliol. Mae'r Llywodraeth yn dymuno unioni hyn.
170. Cwestiyna'r ymgynghoriad hwn y ffyrdd o newid y broses bresennol a fyddai'n moderneiddio a symleiddio'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd. Rydym wedi gofyn ynghylch tynnu'r holl ofynion am dystiolaeth feddygol o'r broses cydnabyddiaeth gyfreithiol a byrhau'r hyn sydd ar ôl. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ofalus. Os penderfynwn fod newidiadau yn angenrheidiol, ein nod yw cyflwyno deddfwriaeth sy'n diweddarau'r Ddeddf.
171. Wrth i ni ymgynghori, mae'r Llywodraeth yn ystyriol o sut y gallai newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd effeithio ar rannau eraill o'r gyfraith a gwasanaethau cyhoeddus, yn benodol y Ddeddf Cydraddoldeb. Rydym yn dymuno deall mwy ynghylch y partneriaethau hyn fel rhan o'r broses datblygu polisi.
172. Nid yw'r Llywodraeth wedi creu unrhyw asesiad effaith law yn llaw â'r ymgynghoriad hwn, er ein bod wedi cyhoeddi asesiad cychwynol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus gyda'r ymgynghoriad. Byddwn yn creu asesiad effaith cyflawn, sylweddol unwaith y cawn wybod sut i weithredu, lawn yn llaw â chyhoeddiad yn cynnwys dadansoddiad y Llywodraeth o ymatebion yr ymgynghoriad a'r camau nesaf.
173. Yn olaf, mae'r Llywodraeth yn awyddus i'r ymgynghoriad hwn fod yn agored i bob safbwynt a phersbectif. Gwyddom y gall sgysiau am gydraddoldeb trawsryweddol ennyn amrywiaeth eang o safbwyntiau. Mae gan bawb yr hawl i leisio'u llais a byddwn yn trin yr holl ymatebwyr gyda pharch cyfartal. Er mwyn i bolisi'r Llywodraeth fod mor wybodus ag sy'n bosibl, rydym eisiau sicrhau ein bod yn cofnodi safbwynt pawb. Os nad ydych yn teimlo eich bod yn dweud eich barn drwy ateb y cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y bocs isod i gyflwyno unrhyw safbwyntiau pellach sydd gennych ynghylch y Ddeddf Cydnabod Rhywedd.

Cwestiwn 22

A oes gennych unrhyw safbwyntiau eraill ynghylch Deddf Cydnabod Rhywedd 2004?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os ateboch oes, ychwanegwch eich sylwadau.

Atodiadau

Atodiad A: Ffurflen wybodaeth i ymatebwr

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chwblhau a'i chyflwyno gyda'ch ymateb i'r ymgynghoriad.

A ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu sefydliad?

☐

Unigolyn

☐

Sefydliad

Enw llawn neu enw'r sefydliad

Rhif ffôn

Cyfeiriad

Cod post

E-bost

Hoffa'r Llywodraeth gael eich caniatâd chi i gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu trin yn unol ag adran 22 o Ddeddf Cydnabod Rhywedd. Mae hyn yn diogelu preifatrwydd person sydd wedi gwneud cais am a/neu wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd drwy ei wneud yn dramgwydd troseddol i ddatgelu gwybodaeth a gasglwyd yn swyddogol am hanes rhywedd person neu am ei gais i'r Panel, oni bad bod eithriad penodol yn berthnasol. Un o'r eithriadau yw os yw'r unigolyn yn rhoi ei ganiatâd i ddatgelu'r wybodaeth.

☐

Cyhoeddwch fy ymateb, gan gynnwys fy enw

☐

Cyhoeddwch fy ymateb ar ffurf anhysbys yn unig

☐

Peidiwch â chyhoeddi fy ymateb

Efallai y dymuna'r Llywodraeth gysylltu â chi eto yn y dyfodol, ond bydd angen eich caniatâd arnom i wneud hynny. A ydych yn hapus i'r Llywodraeth gysylltu â chi eto ynghylch yr ymgynghoriad hwn?

☐

Ydw

☐

Nac ydw

Efallai bydd gwybodaeth a ddarperir fel ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn destun cyhoeddi neu ddatgelu dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data GDPR 2018 neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Bydd Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth yn prosesu'ch data personol yn unol â Deddf Diogelu Data a GDPR 2018, ac yn y rhan fwyaf o'r achosion golyga hyn na ddatgelir eich data personol i drydydd parti.

Efallai bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ymatebion a dderbyniwyd gan sefydliadau. Os ydych eisiau i'r holl ymateb, neu ran o'r ymateb, gael ei drin yn gyfrinachol, eglurwch pam eich bod yn ei ystyried yn gyfrinachol. Os derbynnir cais am ddatgeliad o'r wybodaeth a ddarparwyd gennych, byddwn yn ystyried eich eglurhad dros pam eich bod o'r farn ei fod yn gyfrinachol, ond ni ellir rhoi sicrwydd y cynhelir y cyfrinachedd hwnnw. Ni fydd ymwrthodiad cyfrinachol awtomatig a gynhyrchwyd gan eich system TG, ei hun, yn cael ei ystyried fel un sy'n rhwymo'r Adran.

Atodiad B: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1

Os ydych chi'n berson traws, a ydych chi wedi gwneud cais yn flaenorol am, neu a ydych chi'n gwneud cais ar hyn o bryd, am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os ydych, dywedwch wrthym am eich profiadau o'r broses.

Os nad ydych, dywedwch wrthym pam nad ydych chi wedi gwneud cais?

Os ydych chi wedi gwneud cais, a wnaethoch lwyddo i ennill Tystysgrif Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

☐ Yn disgwyl penderfyniad

Diogelir yr wybodaeth a ddarperir fel ymateb i'r cwestiwn hwn dan ddarpariaeth Adran 22 o'r Ddeddf Cydnabyddiaeth Rhywedd, fel sy'n berthnasol.

Efallai y bydd enghreifftiau a roddir yn cael eu cyhoeddi yn yr ymateb i'r ymgynghoriaeth ond bydd rhai yn llwyr ddienw.

Cwestiwn 2

Os ydych yn berson traws, dywedwch wrthym beth mae, neu beth fyddai, cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd yn ei olygu i chi.

Diogelir yr wybodaeth a ddarperir fel ymateb i'r cwestiwn hwn dan ddarpariaeth Adran 22 o'r Ddeddf Cydnabyddiaeth Rhywedd, fel sy'n berthnasol.

Efallai y bydd enghreifftiau a roddir yn cael eu cyhoeddi yn yr ymateb i'r ymgynghoriaeth ond bydd rhai yn llwyr ddienw.

Cwestiwn 3

A ydych chi'n credu y dylai fod yna ofyniad yn y dyfodol am ddiagnosis o ddysfforia rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb.

Cwestiwn 4

A ydych chi'n credu y dylai fod yn ofyniad am adroddiad sy'n manylu'r driniaeth a gafwyd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb.

Cwestiwn 5

Dan y system cydnabod rhywedd ar hyn o bryd, rhaid i ymgeisydd ddarparu tystiolaeth i ddangos ei fod wedi byw yn ei rhywedd caffaeledig am ddwy flynedd o leiaf.

(A) A ydych yn credu y dylai ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ei fod wedi byw yn eu rywedd caffaeledig am gyfnod o amser cyn gwneud cais?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb.

(B) Os ateboch ydw i (A), a ydych yn credu bod yr opsiynau tystiolaeth bresennol yn addas, neu a ellid eu diwygio?

(C) Os ateboch ydw i (A), am ba gyfnod o amser y dylai ymgeisydd orfod darparu tystiolaeth ar ei gyfer?

☐ Dwy flynedd neu fwy;

☐ Rhwng blwyddyn a dwy flynedd;

☐ Rhwng chwe mis a blwyddyn;

☐ Chwe mis neu lai.

(D) Os ateboch nac ydw i (A), a ddylai fod cyfnod o fyfyrrio rhwng gwneud y cais a dyfarnu gyda Thystysgrif Cydnabod Rhywedd?

Cwestiwn 6

Ar hyn o bryd, rhaid i ymgeiswyr tystysgrif cydnabod rhywedd wneud datganiad statudol fel rhan o'r broses.

(A) A ydych yn credu y dylid cadw'r gofyniad hwn, waeth pa newidiadau eraill a wneir i'r system cydnabod rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb.

(B) Os ateboch ydw i (A), a ydych yn credu y dylai'r datganiad statudol nodi bod yr ymgeisydd yn bwriadu 'byw'n barhaus yn y rhywedd caffaeledig am oes'?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

(C) Os ateboch nac ydw i (A), a ydych yn credu y dylid cael unrhyw fath arall o ddiogelwch i ddangos difrifoldeb y bwriad?

Cwestiwn 7

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddeall mwy ynghylch y ddarpariaeth caniatâd priod ar gyfer person priod yn y Ddeddf Cydnabod Rhywedd. A ydych yn cytuno gyda'r darpariaethau presennol?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, eglurwch resymau eich ateb. Os credwch y dylid newid y darpariaethau, sut credwch y dylid eu newid?

Cwestiwn 8

Ar hyn o bryd, rhaid i ymgeiswyr dalu £140 i wneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd.

(A) A ydych yn credu y dylid tynnu'r ffi o'r broses gwneud cais am gydnabod rhywedd cyfreithiol?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

(B) Os ateboch nac ydw i (A), a ydych yn credu y dylid lleihau'r ffi?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i ddeall mwy am y gost ariannol o sicrhau cydnabod rhywedd cyfreithiol, y tu hwnt i'r ffi ymgeisio o £140.

(C) Pa gostau ariannol arall a wyneba pobl draws wrth wneud cais am dystysgrif cydnabod rhywedd a beth yw effaith y costau hyn?

Cwestiwn 9

A ydych yn credu fod darpariaethau preifatrwydd a datgelu gwybodaeth yn adran 22 o'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn ddigonol?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os nad ydych, sut y credwch y dylid ei newid?

Cwestiwn 10

Os ydych yn rhywun sydd naill ai wedi, neu eisiau gwneud trawsnewid rhywedd cyfreithiol, ac mae gennych un neu fwy o'r nodweddion diogelwch, pa nodweddion diogelwch sy'n addas ar eich cyfer chi? Gallwch roi tic mewn mwy nag un blwch.

- ☐ Oedran
- ☐ Anabledd
- ☐ Ailbennu rhywedd
- ☐ Priodas a phartneriaeth sifil
- ☐ Beichiogrwydd a mamolaeth
- ☐ Hil
- ☐ Crefydd neu gred
- ☐ Rhyw
- ☐ Cyfeiriadedd rhywiol

Rhowch fwy o wybodaeth i ni ynghylch sut mae eich nodweddion gwarchodedig wedi effeithio ar eich safbwyntiau ar y broses ymgeisio am GRC.

Cwestiwn 11

A hoffech ddweud unrhyw beth wrthym am sut mae'r broses o wneud cais am GRC yn effeithio ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig?

Cwestiwn 12

A ydych chi'n credu y bydd cyfranogiad pobl draws mewn chwaraeon, fel y llywodraethir gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

- ☐ Do/Ydw
- ☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhowch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 13

(D) A ydych chi'n credu y bydd gweithredu'r eithriadau ar gyfer gwasanaethau un rhywedd a rhywedd ar wahân yng nghyswllt ailbennu rhywedd yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael ei effeithio drwy wrth y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

(E) Os ydych yn darparu gwasanaeth rhywedd sengl neu ar wahân, a ydych yn teimlo'n hyderus yn dehongli'r Ddeddf Gydraddoldeb 2010 yng ngoleuni'r eithriadau hyn?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

(F) Os ydych yn berson traws sydd wedi profi trais yn y cartref neu ymosodiad rhywiol, a oeddech yn gallu cael mynediad at gefnogaeth?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

(D) Os ateboch 'oeddwn' i (C), a oedd y cymorth hwn yn ddigonol?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Cwestiwn 14

A ydych chi'n credu y bydd gweithredu'r gofyniad am eithriad galwedigaethol yng nghyswllt ailbennu rhywedd yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 15

A ydych chi'n credu y bydd gweithredu'r eithriad o lety cymunol mewn perthynas ag ailbennu rhywedd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 16

A ydych chi'n credu y bydd gweithredu eithriad y lluoedd arfog yng nghyswllt pobl draws yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 17

A ydych chi'n credu y bydd gweithredu'r eithriad priodasol yng nghyswllt pobl draws yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 18

A ydych yn credu y bydd gweithredu'r eithriad yswiriant yng nghyswllt pobl draws yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei effeithio wrth newid y Ddeddf Cydnabod Rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhwch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 19

A ydych chi'n credu y bydd newidiadau i'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd yn effeithio ar elfennau o'r gyfraith a gwasanaethau cyhoeddus heblaw Deddf Cydraddoldeb 2010?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os gwelwch yn dda, rhowch resymau dros eich ateb.

Cwestiwn 20

Ar hyn o bryd nid yw cyfraith y DU yn cydnabod unrhyw rywedd arall ar wahân i wryw a benyw.

A ydych chi'n meddwl bod angen newid i'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd i ymdrin ag unigolion sy'n ystyried eu hunain yn anneuaid?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os hoffech weld newidiadau, ymhelaethwch ar eich ateb.

Cwestiwn 21

(A) A oes gennych chi amrywiaethau yn nodweddion eich rhywedd?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Fel yr amlinellir yng nghwestiwn 3, mae'r Llywodraeth yn dymuno deall a ddylai fod unrhyw angen yn y dyfodol am adroddiad gyda manylion diagnosis dysfforia rhywedd, ac unrhyw angen am adroddiad gyda manylion y driniaeth a dderbynioch.

(B) A fyddai cael gwared â'r anghenion hyn o fudd i chi?

(C) Pa newidiadau eraill sy'n angenrheidiol i'r GRA a fyddai o fudd i bobl rhngrywiol?

Cwestiwn 22

A oes gennych unrhyw safbwyntiau eraill ynghylch Deddf Cydnabod Rhywedd 2004?

☐ Do/Ydw

☐ Naddo/Nac ydw

Os ateboch oes, ychwanegwch eich sylwadau.

Atodiad C: Deddf Cydraddoldeb 2010 - rhestr o ddisgwyliadau

Amlinella'r Atodiad hwn yr amryw eithriadau a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb i'r sefyllfa ragosodedig na ddylid gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â nodwedd warchodedig o ailbennu rhywedd.

Chwaraeon

Mae Adran 195⁵⁰ yn ei gwneud hi'n gyfreithiol cyfyngu cyfranogiad pobl draws mewn cystadlaethau chwaraeon os yw hynny'n angenrheidiol i gynnal cystadleuaeth deg neu ddiogel, ond nid am unrhyw reswm arall. Mae hyn yn disodli darpariaethau cyffelyb a oedd yn Neddf Cydnabod Rhywedd 2004 yn wreiddiol.

Gwasanaethau rhywedd sengl ac ar wahân

Mae Atodlen 3, Rhan 7 yn nodi'r eithriad i wasanaethau un rhyw ac ar wahân.⁵¹

Gall darparwr gwasanaeth gyflwyno gwasanaethau ar wahân i ddynion a merched ble na fyddai gwasanaeth cyfunol mor effeithiol. Ym mhob achos, bydd rhaid i'r fath ddarpariaeth gael ei chyfiawnhau. Felly, er enghraifft, ni fyddai'n anghyfreithlon i elusen osod hostelau ar wahân, un ar gyfer dynion digartref ac un ar gyfer merched digartref, ble mae'r hostelau yn darparu'r un lefel o wasanaeth i ddynion a merched gan fod lefel yr angen yr un fath ond ni fyddai hostel neillryw mor effeithiol.

Caniateir gwasanaethau un rhyw:

- pan mai dim ond pobl o'r un rhyw sydd ei angen;
- mae darpariaeth ar y cyd ar gyfer y ddau rywedd ond nid yw hynny'n effeithiol ar ei ben ei hun;
- pe byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i ddynion a merched ar y cyd, ni fyddai mor effeithiol ac nid yw'n rhesymol ymarferol i ddarparu gwasanaethau ar wahân i'r ddau rhywedd;
- darperir hwy mewn ysbyty neu fan arall ble mae'r defnyddwyr angen sylw arbennig (neu mewn rhannau o sefydliad o'r fath);
- y gellir eu defnyddio gan fwy nag un person ac efallai bydd merch yn gwrthwynebu presenoldeb dyn (neu fel arall); neu
- efallai y byddent yn cynnwys cyswllt corfforol rhwng defnyddiwr a rhywun arall ac efallai y bydd y person arall yn gwrthwynebu petai'r defnyddiwr arall o'r rhywedd arall.

⁵⁰ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/195>

⁵¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/3/part/7/crossheading/gender-reassignment>

Ym mhob achos, rhaid i'r ddarpariaeth ar wahân gael ei chyfiawnhau'n wrthrychol⁵².

Byddai'r eithriadau hyn yn caniatáu, er enghraifft:

- gwasanaeth sgrinio am ganser y groth i'w ddarparu i ferched yn unig, gan mai merched yn unig sydd angen y gwasanaeth;
- grŵp cefnogi tadau i'w drefnu gan feithrinfa breifat gan fod presenoldeb annigonol gan ddynion yn y grŵp rhieni;
- uned gymorth trais domestig i'w drefnu gan awdurdod lleol ar gyfer merched yn unig ond nid oes uned ddynion yn unig oherwydd gan nad oes digon o alw;
- wardiau dynion a merched ar wahân i'w darparu mewn ysbyty;
- ystafelloedd newid dynion a merched ar wahân i'w darparu mewn siop adrannol;
- gwasanaeth tylino'r corff i'w ddarparu i ferched yn unig gan therapydd tylino fenywaidd sydd â busnes ei hun yn gweithio yng nghartref ei chleientiaid gan y byddai'n teimlo'n anghyfforddus yn tylino dynion yn yr amgylchedd hwnnw.

Wrth gyflwyno gwasanaethau rhywedd sengl neu ar wahân, mae eithriad i'r gwaharddiad cyffredinol o wahaniaethu ailbennu rhywedd. Rhaid i wahardd person traws rhag cael mynediad at wasanaeth gael ei gyfiawnhau'n wrthrychol. Yr enghraifft a roddir yn y nodiadau eglurhaol yw:

“Mae sesiwn gwnsela grŵp yn cael ei darparu i ddioddefwyr benywaidd o drais yn y cartref. Nid yw'r trefnwyr yn caniatáu i bobl draws fynychu gan eu bod yn barnu na fyddai'r cleientiaid sy'n mynychu eisoes yn gwneud hynny rhagor petai person traws gwryw-i-fenyw yno hefyd. Byddai hyn yn gyfreithiol”

Gofynion galwedigaethol

Mae Atodlen 9, Rhan 1 (cyffredinol) ynghylch gofynion galwedigaethol⁵³ yn darparu eithriad cyffredinol i beth fyddai gwahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon yng nghyswllt gwaith. Mae'r eithriad hwn yn gymwys pan mae rhywedd penodol, hil, anabledd, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu oedran - neu beidio â bod yn berson traws, priod neu bartner sifil - yn ofyniad i'r gwaith, ac nad yw'r person a dargedir yn cyrraedd y gofyniad (neu, ac eithrio'r achos gyda rhywedd, ddim yn ei gyflawni'n foddhaol yn ôl gofyniad y person sy'n ei osod). Rhaid i'r gofyniad fod yn hanfodol i'r swydd, ac nid yn un o sawl ffactor pwysig. Rhaid iddo hefyd beidio â bod yn ffug neu'n esgus. Yn ogystal, rhaid cymhwyso'r gofyniad yn gymesur i gyrraedd nod cyfreithlon.

⁵² Y prawf cyfiawnhau gwrthrychol yw pan mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth brofi defnydd o eithriad yn 'fodd cymesur i gyflawni nod cyfreithlon'.

⁵³ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/9/part/1/crossheading/general>

Yr enghraifft a roddir yn y nodiadau eglurhaol i'r Ddeddf Cydraddoldeb yw:

“Rhaid i gwnselydd sy’n gweithio gyda dioddefwyr trais rhywiol fod yn ferch, nid person traws, hyd yn oed os oes ganddi Dystysgrif Cydnabyddiaeth Rhywedd, er mwyn osgoi achosi mwy o drallod iddynt.”

Mae Atodlen 9, Rhan 1 (gofynion crefyddol⁵⁴) yn gymwys i gyflogaeth sydd at ddibenion crefydd wedi'i threfnu, sydd â'r bwriad i orchuddio ystod gul iawn o gyflogaeth: gweinidogion crefydd a nifer fechan o swyddi lleig, gan gynnwys y rheiny sy'n bod i hyrwyddo a chynrychioli crefydd. Pan mae cyflogaeth at ddibenion crefydd wedi'i threfnu, mae'r paragraff hwn yn caniatáu'r cyflogwr i gyflwyno gofyniad i'r ymgeiswyr fod yn rhywedd penodol, neu beidio â bod yn berson traws, neu i wneud gofyniad sy'n gysylltiedig â statws priodasol neu bartneriaeth sifil neu gyfeiriadedd rhywiol y gweithiwr, ond dim ond os –

- bydd penodi rhywun sy'n cyrraedd y gofyniad dan sylw yn fodd cymesur o gydymffurfio ag athrawiaethau'r grefydd; neu,
- oherwydd natur neu gyd-destun y gyflogaeth, mae cyflogi rhywun sy'n cyrraedd y gofyniad yn fodd cymesur o osgoi gwrthdaro gyda safbwyntiau cryfion nifer sylweddol o ddilynwyr y grefydd.

Rhaid i'r gofyniad fod yn hanfodol i'r swydd, ac nid yn un o sawl ffactor pwysig. Rhaid iddo hefyd beidio â bod yn ffug neu'n esgus.

Llety cymunol

Mae gan Atodlen 23 (eithriadau rhywedd) eithriad ar wahân ynghylch llety cymunol⁵⁵. Mae'r paragraff hwn yn darparu eithriad i'r gwaharddiad cyffredinol o wahaniaethu ar sail rhywedd ac ailbennu rhywedd. Mae'n caniatáu i lety cymunol gael ei gyfyngu i un rhywedd yn unig, cyhyd y bydd y llety yn cael ei reoli mor deg ag sy'n bosibl ar gyfer dynion a merched. Mae'n gosod ffactorau y bydd rhaid eu hystyried wrth gyfyngu llety cymunedol i un rhywedd yn unig, ac yn darparu bod rhaid i driniaeth wahaniaethol o bobl draws fod wedi'i chyfiawnhau'n wrthrychol. Diffinnir llety cymunol fel llety preswyl, sy'n cynnwys llety cysgu cyfunol, ac y dylid ei ddefnyddio gan aelodau o'r un rhywedd yn unig am resymau preifatrwydd.

Lluoedd Arfog

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cynnwys eithriadau sy'n gysylltiedig â'r Lluoedd Arfog. Mae'r eithriadau yn caniatáu gwahaniaethu o ran rhai nodweddion amddiffynnol, gan gynnwys ailbennu rhywedd. Mae'r eithriadau yn gymwys yng nghyswllt y ddarpariaeth o wasanaethau neu berfformio swyddogaethau cyhoeddus (Rhan 3) a gwaith (Rhan 5). Yng nghyswllt darpariaeth gwasanaethau neu berfformio swyddogaethau cyhoeddus, bydd gwahaniaethu ar sail rhywedd yn gyfreithiol cyhyd â'i fod yn digwydd i sicrhau ymladd effeithiol. Ar gyfer gwaith, gall

⁵⁴ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/9/part/1/crossheading/religious-requirements-relating-to-sex-marriage-etc-sexual-orientation>

⁵⁵ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/23/crossheading/communal-accommodation>

person traws gael ei wahardd rhag gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog os gellir dangos ei fod yn fodd cymesur o sicrhau ymladd effeithiol.

Dan y rheolau presennol, fodd bynnag, gall pobl draws wasanaethu yn y Llynges Frenhinol, y Môr Filwyr Brenhinol, y Fyddin a'r Lluoedd Awyr Brenhinol. Gallant hefyd wasanaethu yn unrhyw un o'r cefnluoedd. Nid oes gan GRC unrhyw berthnasedd i 'effeithiolrwydd ymladd'. Fel canlyniad, nid yw'r Llywodraeth yn credu y byddai diwygio'r GRA yn cael effaith ar yr eithriad Lluoedd Arfog.

Priodas

Mae Atodlen 3, Rhan 6 ynghylch priodas⁵⁶ yn cynnwys eithriadau o'r gwaharddiad cyffredinol o wahaniaethu ailbennu rhywedd yn rhan 29 o'r Ddeddf ar gyfer y gweinyddiad crefyddol o briodasau. Gall person sydd â Thystysgrif Cydnabod Rhywedd lawn a gafwyd dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 briodi rhywun o'r rhywedd cyferbyniol i'w rhywedd caffaeledig ef neu hi. Mae Deddf Priodas 1949 yn gosod gofyniad ar offeiriad yn Eglwys Lloegr neu glerc yn Urddau Cysegredig yr Eglwys yng Nghymru i briodi unrhyw un a driga yn ei blwyf ef neu ei phlwyf hi, neu sy'n bodloni meini prawf cysylltiedig. Fodd bynnag, mae rhan 5B o'r Ddeddf Briodas yn cynnwys eithriad ble y cred offeiriad neu'r clerc bod rhywedd un o'r unigolion yn gaffaeledig dan y GRA. Nid oedd y ddeddfwriaeth a ragflaenodd y Ddeddf hon yn gwahardd gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd ym maes swyddogaethau cyhoeddus. Gan y gwaharddwyd hyn yn ddiweddarach gan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r paragraff hwn yn diogelu'r sefyllfa drwy ddarparu eithriad i glerigwyr Anglicanaidd yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â'r rheiny o gredoau eraill yng Nghymru a Lloegr ble mae angen eu caniatâd i gynnal priodasau mewn safleoedd crefyddol sydd wedi'u cofrestru dan y Ddeddf Briodas, ac eraill sydd efallai'n gweinyddu priodasau.

Yswiriant

Cafodd yr eithriadau gwreiddiol yn Atodlen 3, Rhan 5 ynghylch Yswiriant eu tynnu i adlewyrchu newid i ddeddf yr Undeb Ewropeaidd wedi dyfarniad gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn Achos C-236/09 ar 1 Mawrth 2011 (Prawf Achats).

Fodd bynnag, mae yswiriant gwaith⁵⁷ yn dal i fod yn berthnasol. Mae'r paragraff hwn yn berthnasol lle bydd blwydd-daliadau, polisiâu yswiriant bywyd neu faterion cyffelyb sy'n cynnwys asesiad risg yn cael eu darparu ym maes cyflogaeth. Mae'n caniatáu'r cyflogwr i ddarparu taliad am breimiymau neu fuddion sy'n wahanol i ddynion a merched, pobl briod a di-briod neu mewn partneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth neu ailbennu rhywedd, mor rhesymol â phosib yng ngoleuni'r data actwaraidd neu unrhyw ddata dibynadwy arall.

⁵⁶ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/3/part/6>

⁵⁷ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/9/part/3/crossheading/insurance-contracts-etc>

Atodiad D: Sut mae'r system cydnabod rhywedd cyfreithiol yn gweithio?

1. Mae Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 (GRA) yn nodi'r broses sy'n caniatáu unigolion sydd dros 18 oed dderbyn cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd caffaeledig. Caiff ymgeiswyr llwyddiannus Dystysgrif Cydnabod Rhywedd (GRC). Mae'r broses yn cynnwys cyflwyno amryw o ffurflenni o dystiolaeth ragnodedig i Banel Cydnabod Rhywedd (GRP), sy'n penderfynu a yw'r ymgeisydd wedi bodloni'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf i gael cydnabyddiaeth.
2. Effaith y GRC yw bod rhywedd yr unigolyn yn dod yn rhywedd caffaeledig i'r unigolyn at bob dibenion ar wahân i'r rhai eithriadau a nodir yn y Ddeddf. Mae GRC llawn yn rhoi hawl i unigolyn gael tystysgrif geni newydd yn adlewyrchu'r rhywedd caffaeledig yn hytrach na'r rhywedd a nodwyd ar eu genedigaeth.
3. Ers 16 Tachwedd 2017, cyfrifoldeb Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth yw'r GRA. Roedd hyn yn sgil trosglwyddiad o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.⁵⁸ Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n gangen o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, yn dal eu gafael ar y cyfrifoldeb o'r GRA.

Hanes

4. Cyn y cyflwynwyd y GRA, nid oedd pobl draws yn gallu derbyn cydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd caffaeledig. Wrth iddynt fyw yn eu rhywedd caffaeledig, ac yn cael eu cydnabod fel hynny'n gymdeithasol ac ar unrhyw ddogfen swyddogol, yn gyfreithiol byddent yn dal i gael eu hystyried yn ol y rhywedd a nodwyd ar eu genedigaeth. Golyga hyn na allent, er enghraifft, briodi yn eu rhywedd caffaeledig na chael tystysgrif geni wedi'i seilio arno.
5. Cyflwynwyd y GRA yn dilyn dau ddyfarniad gan Lys Hawliau Dynol Ewrop yn 2002, yn achos *Christine Godiwn yn erbyn y Deyrnas Unedig a Fi yn erbyn y Deyrnas Unedig*, bod Llywodraeth y DU wedi torri hawliau Confensiwn dau berson traws dan Erthygl 8 (yr hawl i fywyd preifat) a 12 (yr hawl i briodi a dechrau teulu). Roedd yr achosion yn mynd i'r afael â phrofiadau'r ymgeiswyr fel pobl draws yng nghyswllt ystod o faterion, megis hawliau pensiwn (gyda'r oedran pensiwn yn wahanol ar gyfer dynion a merched), yn gwahaniaethu yn y gwaith a phriodas. Cafodd Llywodraeth y DU ofyniad cadarnhaol dan gyfraith ryngwladol i sicrhau hawliau a rhyddid Confensiwn i ddinasyddion y DU ac felly roedd rhaid iddynt gywiro'r tramgwydd. Penderfynodd y barnwyr na fyddai'n gosod baich anghyfartal ar y gymdeithas i ofyn i'r Llywodraeth wneud lle i anghenion pobl draws drwy ddarparu tystysgrifau geni newydd yn y rhywedd caffaeledig a chaniatáu iddynt briodi rhywun o'r rhywedd cyferbyniol.
6. Derbyniodd y GRA Gydsyniad Brenhinol yn 2004 a daeth ei darpariaethau i rym ar 4 Ebrill 2005. Ers hynny, mae 4,910 o unigolion wedi ymgeisio'n llwyddiannus am GRC. Mae oddeutu 3,600 (73%) wedi cael eu dyrannu i'r rheiny a gafodd eu

⁵⁸ Gweler Datganiad Gweinidogaethol Ysgrifenedig y Prif Weinidog -<http://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-statement/Commons/2017-11-16/HCWS253/>

neilltuo'n wrywaidd ar eu genedigaeth a 1,300 (27%) i'r rheiny a gafodd eu neilltuo'n fenywaidd ar eu genedigaeth.

Beth mae Tystysgrif Cydnabod Rhywedd yn ei olygu?

7. Mae cydnabyddiaeth gyfreithiol yn golygu bod rhywedd yr unigolyn yn dod yn rhywedd caffaeledig iddynt, at bron pob diben, yn hytrach na'r un a neilltuwyd iddynt ar eu genedigaeth. Ymysg pethau eraill, golyga hyn y gallai'r unigolyn briodi yn eu rhywedd caffaeledig, cael tystysgrif geni newydd sy'n adlewyrchu eu rhywedd caffaeledig (cyn belled â bod yr unigolyn yn bodoli ar gofrestr genedigaethau'r DU) ac yn meddu'r hawl i ymddeol a derbyn pensiwn y wladwriaeth yn yr oedran sy'n gysylltiedig â'u rhywedd caffaeledig. Mae GRC hefyd yn rhoi'r urddas a'r parch i bobl draws a ddaw yn sgil cael eu rhywedd caffaeledig wedi'i gydnabod yn swyddogol gan y wladwriaeth. Nid yw cydnabyddiaeth gyfreithiol yn rhoi hawl i'r unigolyn gael unrhyw driniaeth feddygol benodol.
8. Ar hyn o bryd, mae gan gydnabyddiaeth gyfreithiol effaith ledled y Deyrnas Unedig. Golyga hynny, er enghraifft, petai unigolyn yn yr Alban yn cael GRC yn yr Alban, yna caiff ei rywedd ei gydnabod ar draws y DU.
9. Mae rhai cyfyngiadau i'r gydnabyddiaeth gyfreithiol. Nid yw'r GRC yn adolygol: nid yw'n ail ysgrifennu hanes rhywedd yr unigolyn nac yn effeithio ar yr hyn a wnaeth cyn ei chyhoeddi. Er enghraifft, os oes gan unigolyn sydd â GRC blant, ni fydd ei rywedd caffaeledig yn effeithio ar ei statws cyfreithiol fel tad neu fam ei blant. Felly petai rhywun yn rhoi genedigaeth i blentyn, yn gyfreithiol byddai'n fam i'r plentyn hwnnw hyd yn oed petai yn gwneud cais llwyddiannus am GRC ac yn dod yn ddyn at ddibenion cyfreithiol. Nodir cyfyngiadau neu eithriadau eraill yn y GRA (gweler Atodiad C am fwy o fanylion).
10. Mae Adran 22 o'r GRA yn ei gwneud hi'n drosedd i berson sydd wedi cael "gwybodaeth wedi'i ddiogelu" mewn sefyllfa swyddogol i ddatgelu'r wybodaeth honno i unrhyw berson arall, ac eithrio mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Gwybodaeth wedi'i ddiogelu yw gwybodaeth ynghylch cais unigolyn am gydnabyddiaeth gyfreithiol o'i rywedd caffaeledig neu, os oes ganddo gydnabyddiaeth gyfreithiol, hanes ei rywedd.

Y broses o wneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd

11. Mae tair ffordd o wneud cais am GRC;
 - y Llwybr Ymgeisio Safonol;
 - y Llwybr Ymgeisio Arall (i'r rheiny a drawsnewidiodd 6 blynedd cyn y cais); neu
 - y Llwybr Ymgeisio Tramor.
12. Mae gan bob llwybr ffurflen gais ac un o dri datganiad statudol sydd rhaid eu cwblhau (yn dibynnu a yw'r ymgeisydd yn briod, mewn partneriaeth sifil neu'n sengl). Gofynna'r ffurflenni am fanylion personol yr ymgeisydd a manylion y

dystiolaeth a gyflwynir ganddo i'r GRP. Mae templedi hefyd i gynorthwyo wrth gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol gan yr ymgeisydd.⁵⁹

13. Mae gan bob llwybr ymgeisio oedran gofynnol o 18 oed a gofyniad bod yr ymgeisydd yn llofnodi ffurflen datganiad statudol sy'n cadarnhau ei fwriad i fyw'n barhaol yn ei rywedd caffaeledig hyd farwolaeth. Mae gofynion eraill yn cynnwys: arddangos bod gan yr ymgeisydd, neu fod yr ymgeisydd wedi cael, dysfforia rhywedd (neu yn lle hynny, mewn achos o'r Llwybr Ymgeisio Arall wedi cael triniaeth i ddiwygio ei nodweddion rhywedd); ac wedi byw yn llawn am y ddwy flynedd diwethaf (llwybr safonol) neu chwe mis cyn 10 Rhagfyr 2014 (llwybr arall) yn ei rywedd caffaeledig.
14. Rhaid i ymgeiswyr Llwybr Tramor ddangos yn unig eu bod wedi'u cydnabod yn eu rhywedd caffaeledig gan un o'r awdurdodaethau a restrir yn y ddeddfwriaeth. Mae'r rhestr hwn yn cynnwys y gwledydd a'r tiriogaethau sydd â systemau cydnabod rhywedd cyffelyb i'r DU. Mae'r rhestr ddiweddaraf yn y Gorchymyn Cydnabod Rhywedd (Gwledydd a Thiriogaethau wedi'u Cymeradwyo) 2011.⁶⁰ Os nad yw'r awdurdodaeth wedi'i rhestru, yna rhaid i ymgeiswyr o'r gwledydd hynny wneud cais drwy'r Llwybr Ymgeisio Safonol.
15. Yn 2017-18, cafwyd 407 o geisiadau eu gwaredu gan y GRP. O'r rheiny, roedd 367 (90%) yn Geisiadau Llwybr Safonol, 7 (2%) yn Geisiadau Llwybr Arall a 33 (8%) yn Geisiadau Llwybr Tramor.

Cyhoeddi'r Dystysgrif Cydnabod Rhywedd

16. Dyrennir GRC cyflawn i ymgeisydd llwyddiannus nad yw:
 - wedi priodi nac mewn partneriaeth sifil; neu
 - mewn priodas a ddiogelir⁶¹ neu briodas Albanaidd a ddiogelir, ble mae'r cwpl wedi cyflwyno datganiadau statudol o ganiatâd sy'n cadarnhau eu dymuniad i aros yn eu priodas wedi iddynt gael cydnabyddiaeth rywedd; neu
 - mewn partneriaeth sifil a ddiogelir neu bartneriaeth sifil Albanaidd a ddiogelir, ble mae'r ddau unigolyn yn gwneud cais ar yr un pryd ac yn cael GRC llawn ar yr un diwrnod.
17. Dyrennir GRC i ymgeisydd llwyddiannus sydd:
 - mewn priodas nad yw'n cael ei diogelu neu bartneriaeth sifil nad yw'n cael ei diogelu pan gyflwynir y cais; neu
 - mewn priodas a ddiogelir neu briodas Albanaidd a ddiogelir a bod eu priod heb wneud datganiad statudol o ganiatâd i aros yn eu priodas; neu
 - ble mae'r ddau unigolyn o bartneriaeth sifil a ddiogelir neu bartneriaeth sifil Albanaidd a ddiogelir yn gwneud cais am gydnabyddiaeth rywedd ond dim ond un partner sy'n llwyddiannus; neu
 - mewn partneriaeth sifil a ddiogelir neu bartneriaeth sifil Albanaidd a ddiogelir, ond nad yw'r unigolyn arall heb wneud cais i newid eu rhywedd gyfreithiol.

⁵⁹ Gweler <https://www.gov.uk/apply-gender-recognition-certificate> am fwy o fanylion.

⁶⁰ Gweler <http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2011/1630/contents/made>

⁶¹ Golyga "priodas a ddiogelir" — (a) priodas dan gyfraith Cymru, Lloegr a'r Alban, neu (b) priodas dan gyfraith gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig a golyga "priodas sifil a ddiogelir" bartneriaeth sifil dan gyfraith Cymru a Lloegr.

18. Rhaid i ymgeiswyr gyrraedd gofynion eraill, fel yr amlinellir isod.

Tystiolaeth o “fyw yn y rhywedd caffaeledig”

19. I arddangos bod yr ymgeisydd wedi byw'n llawn amser yn y rhywedd caffaeledig am o leiaf dwy flynedd (llwybr safonol) neu chwe blynedd cyn 10 Rhagfyr 2014 (llwybr arall) cyn dyddiad y cais, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth gefnogol i'r GRP. Dyma ddogfennaeth sy'n dangos bod yr ymgeisydd wedi defnyddio enw arall neu'n adlewyrchu ei rywedd caffaeledig. Rhoddir ystod o ddogfennau a awgrymir i ymgeiswyr, gan gynnwys:

- Trwyddedau gyrru;
- Pasbortau;
- Slipiau cyflog;
- Dogfennau budd-daliadau;
- Cyfriflenni banc;
- Biliau cyfleustodau;
- Tystysgrifau academaidd; a,
- Llythyrau gan sefydliadau swyddogol, proffesiynol neu fusnes megis cyfreithwyr neu gyfrifwyr.

20. Yn nodweddiadol, bydd rhaid cynnwys pump neu chwech o ddogfennau gyda'r cais. Gall y GRP ofyn am fwy o ddogfennau neu ddogfennau eraill i'w darparu os yw hynny'n angenrheidiol. Nid oes rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ynghylch pa ddillad ac ati a wisgir. Ymdrinnir â phob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.

Tystiolaeth Feddygol

21. Ar gyfer ceisiadau llwybr safonol, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth feddygol ei fod wedi cael diagnosis o dysfforia rhywedd, anhwylder hunaniaeth ryweddol neu drawsrywioldeb ac wedi derbyn triniaeth lawdriniaethol i ddiwygio ei nodweddion rhywedd. Rhaid i'r dystiolaeth ddod gan feddyg sydd wedi'i gofrestru ar y Cyngor Meddygol Cyffredinol neu'n seicolegydd wedi'i gofrestru ar y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.

22. Bydd angen dau adroddiad meddygol i Geisiadau Llwybr Safonol:

- **Adroddiad A** - Rhaid i ymarferydd meddygol cofrestredig ddarparu'r adroddiad hwn, neu seicolegydd cofrestredig sy'n ymarfer ym maes dysfforia rhywedd a rhaid iddo gynnwys manylion ei ddiagnosis o dysfforia rhywedd.
- **Adroddiad B** - Rhaid i ymarferydd meddygol cofrestredig sydd efallai, ond nid oes angen iddo, yn ymarfer ym maes dysfforia rhywedd (felly gellir ei ddarparu gan, er enghraifft, meddyg teulu neu lawfeddyg yr ymgeisydd), a rhaid iddo gynnwys manylion penodol o unrhyw driniaethau mae'r ymgeisydd wedi'i dderbyn. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys pa driniaethau mae yn eu derbyn (e.e. hormonau) ac a yw wedi'u cael, neu yn eu cael neu'n paratoi i gael llawdriniaeth. Os nad yw'r ymgeisydd wedi cael llawdriniaeth, gellir egluro'r rheswm dros hynny yn yr adroddiad.

23. Dim ond un adroddiad sydd angen ei ddarparu ar gyfer ceisiadau llwybr Arall. Os yw'r unigolyn hwnnw wedi cael neu yn cael triniaeth er mwyn diwygio ei nodweddion rhywedd, yna mae angen i'r adroddiad ddarparu manylion y driniaeth honno.

Beth yw dysfforia rhywedd?

24. Mae dysfforia rhywedd yn gyflwr meddygol cydnabyddedig pan fo'r unigolyn yn profi anesmwythder neu drallod oherwydd nad yw ei rywedd biolegol a'i hunaniaeth ryweddol yn cyd-fynd â'i gilydd. Ar wahân i ddosbarthiadau rhyngwladol, nid yw'r Llywodraeth yn ystyried dysfforia rhywedd fel salwch meddwl. Tra bod rywedd biolegol a hunaniaeth ryweddol yr un fath i'r rhan fwyaf o bobl, nid dyma'r achos i bawb. Er enghraifft, efallai bod gan rhai pobl nodweddion corfforol benywaidd, ond yn cael eu hadnabod fel dyn.
25. Mae gan rai pobl sydd â dysfforia rhywedd ddymuniad cryf a pharhaus i fyw yn ôl eu hunaniaeth ryweddol, yn hytrach na'u rywedd biolegol. Mae rhai pobl draws wedi cael triniaeth feddygol i wneud eu hymddangosiad corfforol yn fwy cyson â'u hunaniaeth ryweddol; efallai bydd eraill yn newid eu henw, yn defnyddio rhagenwau gwahanol, gwisgo dillad a gwneud eu gwallt ac ati i gyd-fynd â'u hunaniaeth ryweddol.
26. Nid yw achos dysfforia rhywedd yn glir. Mae adolygiad o'r dystiolaeth yn cefnogi'r safbwynt hwn.⁶²

Y Panel Cydnabod Rhywedd

27. Mae'r Panel Cydnabod Rhywedd (GRP) yn asesu ceisiadau am Dystysgrifau Cydnabod Rhywedd gan bobl sydd â dymuniad i'w rywedd caffaeledig gael ei gydnabod yn gyfreithiol. Mae'r GRP yn cynnwys wyth aelod cyfreithiol a chwe aelod meddygol. Bydd y Panel yn cyfarfod ar gyfartaledd dair gwaith y mis ac yn adolygu 14 achos bob sesiwn. Cefnogir y GRP gan dîm gweinyddol o dri gweithiwr achos ac un arweinydd tîm.
28. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o lysoedd neu driwlynlys, gwneir penderfyniad ar bron bob un o'r ceisiadau 'yn ôl y papurau', er gallai'r Panel ofyn am fwy o wybodaeth neu ddogfennau. Nid yw'r ymgeisydd traws yn ymddangos gerbron y GRP i ddadlau ei achos. Os bydd cais yn aflwyddiannus, darperir rhesymau. Os bydd cais yn llwyddiannus, anfonir GRC llawn neu dros dro i'r ymgeisydd. Os gwrthodir GRC, gall ymgeiswyr apelio i'r Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr neu Lys y Sesiwn yn yr Alban ar bwynt cyfreithiol.

⁶² Adolygiad Tystiolaeth Glinigol GIG Lloegr: Rhagnodi Hormonau Traws-Rhywedd [cadarnhau rhywedd] fel rhan o'r Gwasanaeth Datblygiad Hunaniaeth Ryweddol i Blant a Phobl Ifanc E03X16/01: <https://www.england.nhs.uk/commissioning/spec-services/npc-crg/group-e/e03/>

Atodiad E: Amcangyfrif maint y boblogaeth drawsrywiol yn y DU

Beth yw maint y boblogaeth draws yn y DU?

Nid oes data cadarn ar y nifer o bobl draws yn y DU. Nid yw data ar hunaniaeth ryweddol yn cael ei gasglu mewn unrhyw arolwg cymdeithasol gan y llywodraeth. Mae data gweinyddol ar geisiadau am Dystysgrif Adnabod Rhywedd yn cael eu casglu'n rheolaidd gan y Panel Cydnabod Rhywedd, sef tribiwnlys sy'n penderfynu a yw'r geisiadau hyn yn bodloni'r meini prawf a osodwyd yn Neddf Cydnabod Rhywedd 2004. Cyhoeddir data cyfanredol ar y nifer o bobl a ymgeisiodd am GRCs a chanlyniad eu geisiadau, yn ogystal ag ychydig o wybodaeth ar nodweddion personol (gan gynnwys rhywedd genedigol, blwyddyn geni, statws priodasol) yn chwarterol. Erbyn diwedd mis Mawrth 2018, cymeradwywyd GRCs i 4,910 o bobl ers i'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd ddod i rym yn 2005⁶³. Fodd bynnag, mae'r nifer o bobl sydd wedi derbyn GRC ond yn cynrychioli rhan fechan o'r boblogaeth draws yn y DU yn gyffredinol.

Pam fod amcangyfrif maint y boblogaeth draws yn y DU mor anodd?

Mae'n anodd darparu mesur cywir o'r boblogaeth draws am amryw o resymau methodolegol (gweler Mitchell and Howarth, 2010; ONS 2009 am drafodaeth fwy manwl). Mae'r materion allweddol yn ymwneud ag anawsterau wrth ddiffinio ac adnabod y boblogaeth draws, ac yn sgil hynny effeithir ar faint y boblogaeth draws a sur ellid eu samplo. Er enghraifft, nid yw'r holl bobl draws yn cael eu hadnabod fel 'traws' (h.y. efallai bydd gwraig draws sydd wedi trawsnewid o fod yn ddyn yn disgrifio ei hun fel gwraig yn hytrach na gwraig draws), efallai nad yw rhai pobl draws eisiau datgelu eu statws. O ran samplo, gall fod yn anodd targedu poblogaethau bach sydd weithiau'n cuddio.⁶⁴

Beth yw amcangyfrifon y DU a rhyngwladol o ran cyffredinrwydd poblogaeth traws?

Yn 2009 cynhyrchwyd yr amcangyfrif gyntaf o faint y boblogaeth draws yn y DU gan y Gwasanaeth Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Ryweddol (GIREs), wedi'i seilio ar ymchwil o'r UDA a'r Iseldiroedd, data o Banelau Cydnabod Rhywedd a Chlinigau Hunaniaeth Ryweddol. Amcangyfrifodd GIREs bod y boblogaeth draws (h.y. pobl

⁶³ Ministry of Justice (2018) Tribunals and gender recognitions certificates statistics quarterly: Ionawr i Mawrth 2018. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/statistics/tribunals-and-gender-recognitions-certificates-statistics-quarterly-january-to-march-2018>

⁶⁴ Mitchell a Howarth (2010) Trans Research Review. EHRC Adroddiad Ymchwil 27. Hydref 2009. Ar gael yn: http://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/documents/research/trans_research_review_rep27.pdf;; ONS (2009) Papur sefyllfa data traws. ONS Mai 2009. Ar gael yn: <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/measuring-equality/equality/equality-data-review/trans-data-position-paper.pdf>

sy'n profi ychydig o amrywiaeth ryweddol) oddeutu 0.6% - 1% o boblogaeth oedolion y DU.⁶⁵

Mae peth amrywiaeth yn amcangyfrifon rhyngwladol o boblogaethau traws. Cynhyrchwyd yr amcangyfrifon hyn gan ddefnyddio data arolwg. Yn yr UDA, mae amcangyfrifon poblogaeth draws yn amrywio o 0.35% o oedolion yng Nghaliffornia⁶⁶ i 0.6% o oedolion yn genedlaethol.⁶⁷ Mae astudiaethau yn yr Iseldiroedd a Gwlad Belg wedi defnyddio ystod o ddiffiniadau ehangach i grynhoi hunaniaeth ryweddol, gan ddefnyddio cwestiynau arolwg i fesur teimladau amwys ac anghydnaws hunaniaeth ryweddol, yn ogystal â theimladau dysfforaidd. O'r mesurau hyn, hunaniaeth ryweddol anghydnaws (h.y. pan fo pobl yn teimlo hunaniaeth gryfach tuag at y rhywedd sy'n groes i'r hwnnw a neilltuwyd iddynt ar eu genedigaeth) sydd agosaf at y diffiniad cyffredinol o draws a dderbynnir yn y DU. Canfyddodd yr astudiaethau hyn bod 1.1% o ddynion brodorol a 0.8% o wragedd brodorol yn yr Iseldiroedd⁶⁸ wedi adrodd hunaniaeth ryweddol anghydnaws, o'u cymharu â 0.7% o ddynion brodorol a 0.6% o ferched brodorol yn Fflandrys/Gwlad Belg⁶⁹.

Gall rhai o'r amrywiaethau yn yr amcangyfrifon o boblogaethau traws fod yn ganlyniad:

- defnydd anghyson o'r cwestiynau i adnabod ymatebwyr traws ac anneauaid - er enghraifft, i adnabod y boblogaeth draws gall yr arolygwyr ofyn cwestiynau ynghylch rhywedd a neilltuwyd i'r ymatebwr ar eu genedigaeth a'u rhywedd nawr, neu yn syml gallent ofyn a yw'r ymatebwr yn ystyried eu hun yn berson trawsrywiol.
- croesi cysyniadol rhwng hunaniaethau rhyweddol traws ac anneauaid mewn cwestiynau arolwg a chategorïau ymateb, sydd hefyd yn ei gwneud hi'n anodd deall a yw'r amcangyfrifau rhyngwladol presennol yn cynnwys neu'n eithrio pobl anneauaid.
- amrywiaethau ym mhoblogaethau arolwg - er enghraifft, y ffin oedran isaf yn arolygon yr UD oedd naill ai 16 neu 18 oed.

⁶⁵ Reed, Rhodes, Schofield a Wylie (2009) Amrywiaethau Rhywedd yn y DU: Prevalence, Incidence, Growth, and Geographic Distribution. GIRES, Mehefin 2009; GIRES (2011) The Number of Gender Variant People in the UK - Update 2011.

⁶⁶ Herman, Wilson a Becker (2017) Demographic and Health Characteristics of Transgender Adults in California: Canfyddiadau o Arolwg Cyfweiliad Iechyd Califfornia 2015-2016. 2016. Mae'r amcangyfrif hwn ar sail ymatebwyr rhwng 18-70 oed.

⁶⁷ Flores, Herman, Gates a Brown (2016) ow many adults identify as transgender in the United States? The Williams Institute Mehefin 2016. Mae'r amcangyfrif hwn ar sail ymatebwyr 18 oed neu hŷn.

⁶⁸ Kuyper a Wijsen (2014) Gender Identities and Gender Dysphoria in the Netherlands. Archives of Sexual Behavior 43(2). Mae'r amcangyfrif hwn ar sail ymatebwyr 16-70 oed.

⁶⁹ Van Caenegem, Wierckx, Elaut, Buysse, Dewaele, Van Nieuwerburgh, De Cuypere a T'Sjoen (2015) Prevalence of Gender Nonconformity in Flanders, Belgium. Archives of Sexual Behavior v.44(5), Mae'r amcangyfrif hwn ar sail ymatebwyr 14-80 oed.

Sut wmaethon ni amcangyfrif y boblogaeth draws yn y DU?

Yn absenoldeb data cywir ar hunaniaeth ryweddol, rydym wedi gosod ystod o gyffredinrwydd draws rhwng 0.35% - 1%⁷⁰ (o dystiolaeth y DU a rhyngwladol) i'r data diweddaraf ar boblogaeth yr oedolion y DU. Mae hyn yn rhoi **amcangyfrif bras a chyfyngedig o'r boblogaeth draws genedlaethol**⁷¹. Ar sail hyn, gan ddefnyddio'r data diweddaraf o 2016, amcangyfrifir bod poblogaeth oedolion traws yn y DU oddeutu 200,000 - 500,000⁷². Nodwch nad yw'r dull hwn yn berffaith: mae cyfanswm y bobl draws yn anodd i'w amcangyfrif ac nid oes amcangyfrif dibynadwy yn bodoli sy'n seiliedig ar dystiolaeth ystadegol yn y DU yn unig. Ymhellach, oherwydd gwahaniaethau yn yr amcangyfrifon a amlygwyd uchod, gallai'r amcangyfrif gynnwys rhai pobl anneuaidd. Mae diffyg tystiolaeth gadarn ynghylch maint y boblogaeth anneuaidd yn y DU yn golygu nad yw'r brasamcan yn cynrychioli maint y poblogaethau traws ac anneuaidd gyda'i gilydd yn gyflawn.

Beth sy'n cael ei wneud i wella data ar y boblogaeth draws i'r dyfodol?

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi sefydlu angen clir am ddata cadarn ar hunaniaeth ryweddol yn y DU fel rhan o'i ymgynghoriad ar bynciau Cyfrifiad 2021. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddwyd ymchwil ganddynt ar hunaniaeth ryweddol i adnabod opsiynau i fodloni gofyniad y defnyddiwr a gwneud argymhellion ar sut i wneud ddatblygu gwell data ar hunaniaeth ryweddol. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddwyd diweddariad ganddynt ar hunaniaeth ryweddol sy'n amlinellu datblygiadau am y pwnc o hunaniaeth ryweddol, sy'n cynnwys: deddfwriaeth, ymchwiliad Cydraddoldeb Trawsryweddol Pwyllgor Merched a Chydraddoldebau; casglu data a datblygu cwesitynau yn fyd-eang, a manylion yr ymchwil, profi a charllyniadau hyd yma. Mae hefyd yn gosod y camau nesaf a'r gwaith a ymgwymerir gan yr ONS i'r dyfodol gyda'r pwnc hwn.⁷³

⁷⁰ Mae'r gyfradd cyffredinrwydd isaf wedi'i seilio ar amcangyfrif Califfornia o 0.35%. Mae'r gyfradd cyffredinrwydd uchaf wedi'i seilio ar amcangyfrif uchaf GIRES.

⁷¹ Wedi'i seilio ar Amcangyfrifau Poblogaeth ONS (2017) ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Canol-2016. Poblogaeth rhwng 16-90+ oed y DU yw 53,257,957. I greu brasamcan, mae cyfraddau cyffredinrwydd Califforniaidd ac astudiaethau GIRES wedi'u cymhwyso i boblogaeth y DU sy'n 16 oed neu'n hŷn, er bod y cyfraddau wedi'u cyfrifo ar sail ymatebwyr o ystod oeddrannau gwahanol.

⁷² Wedi'i dalgrynnu i'r 100,000 agosaf.

⁷³ ONS (2016) Ymchwil hunaniaeth ryweddol a chynllun profi. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/file?uri=/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales/topicreport20genderidentityresearchplan.pdf>; ONS (2017) Gender identity update. Ar gael yn:

<https://www.ons.gov.uk/methodology/classificationsandstandards/measuringequality/genderidentity/genderidentityupdate>;

978-1-78655-666-0